# Agenda - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 18 Mai 2020

Amser: 10.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddDCC@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, penderfynodd y Cadeirydd wahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv**

**Rhag-gyfarfod anffurfiol** (09.30 - 10.00)

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

10:00

## 2 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

10:00-10:10

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol

**2.1 SL(5)541 - Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020**

(Tudalennau 1 - 14)

**CLA(5)-15-20 - Papur 1** - Adroddiad

**CLA(5)-15-20 - Papur 2** - Rheoliadau

**CLA(5)-15-20 - Papur 3** - Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-15-20 - Papur 4** - Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, 29 Ebrill 2020

**2.2 SL(5)543 – Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau i Ffermwyr) (Coronafeirws) (Cymru) 2020**

(Tudalennau 15 - 30)

**CLA(5)-15-20 – Papur 5** – Adroddiad

**CLA(5)-15-20** – **Papur 6** – Rheoliadau

**CLA(5)-15-20 – Papur 7** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-15-20 – Papur 8** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd at y Llywydd, 1 Mai 2020

**2.3 SL(5)544 – Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020**

(Tudalennau 31 - 53)

**CLA(5)-15-20 – Papur 9** – Adroddiad

**CLA(5)-15-20** – **Papur 10** – Rheoliadau

**CLA(5)-15-20 – Papur 11** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-15-20 – Papur 12** – Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd at y Llywydd, 1 Mai 2020

**2.4 SL(5)545 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020**

(Tudalennau 54 - 64)

**CLA(5)-15-20 – Papur 13** – Adroddiad

**CLA(5)-15-20** – **Papur 14** – Rheoliadau

**CLA(5)-15-20 – Papur 15** – Memorandwm Esboniadol

Offerynnau’r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol drafft

**2.5 SL(5)546 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020**

(Tudalennau 65 - 81)

**CLA(5)-15-20 – Papur 16** – Adroddiad

**CLA(5)-15-20** – **Papur 17** – Rheoliadau

**CLA(5)-15-20 – Papur 18** – Memorandwm Esboniadol

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Gwneud Cadarnhaol

**2.6 SL(5)548 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020**

(Tudalennau 82 - 95)

**CLA(5)-15-20 – Papur 19** – Adroddiad

**CLA(5)-15-20 – Papur 20** – Rheoliadau

**CLA(5)-15-20 – Papur 21** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-15-20 – Papur 22** – Llythyr gan y Prif Weinidog at y Llywydd, 11 Mai 2020

## 3 Offerynnau statudol y mae angen i'r Senedd gydsynio â hwy (Memoranda Cydsyniad Offeryn Statudol)

10:10-10:15

**3.1 SICM(5)28 – Rheoliadau Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (Diwygiadau Canlyniadol) 2020**

(Tudalennau 96 - 108)

**CLA(5)-15-20 – Papur 23** – Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol

**CLA(5)-15-20** – **Papur 24** – Rheoliadau

**CLA(5)-15-20 – Papur 25** – Memorandwm Esboniadol

**CLA(5)-15-20 – Papur 26** – Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, 4 Mai 2020

**CLA(5)-15-20 – Papur 27** – Nodyn Cyngor Cyfreithiol

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(xi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

10.15

## 5 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Pysgodfeydd: Adroddiad drafft

10.15-10.40 (Tudalennau 109 - 141)

**CLA(5)-15-20 – Papur 28 –** Adroddiad drafft

Dyddiad y cyfarfod nesaf – 1 Mehefin.

# SL(5)541 – Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Gwnaed y Rheoliadau hyn gan Weinidogion Cymru o dan adrannau 67 a 68 o Ddeddf y Coronafeirws 2020, a daethant i rym ar 5 Mai 2020. Mae'r Rheoliadau'n gohirio is-etholiadau penodol y bwriadwyd iddynt gael eu cynnal yn ystod y cyfnod rhwng 16 Mawrth 2020 a 31 Ionawr 2021.

Mae Rheoliad 3 yn gohirio isetholiadau a fyddai'n cael eu cynnal i lenwi swyddi gwag cynghorwyr yn unrhyw gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru tan ddiwrnod sy'n dod o fewn y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Chwefror 2021 ac yn gorffen ar 16 Ebrill 2021.

Mae Rheoliad 4 yn gohirio isetholiadau a fyddai'n cael eu cynnal i lenwi swyddi gwag cynghorwyr cymuned yn unrhyw gyngor cymuned yng Nghymru ar ddiwrnod sy'n dod o fewn y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Chwefror 2021 ac yn gorffen ar 16 Ebrill 2021.

Mae Rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth i ryddhau swyddogion canlyniadau ac eraill o'u hatebolrwydd o dan ddarpariaethau penodol Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 mewn perthynas â phleidleisiau yr oedd yn ofynnol iddynt gael eu cynnal ond na chawsant eu cynnal yn y cyfnod ar ôl 24 Ebrill 2020.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Rheol Sefydlog 21.2 (v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

1. Mae rheoliadau 3(1) a 4(1) gyda'i gilydd yn darparu ar gyfer gohirio etholiad perthnasol (a ddiffinnir yn Rheoliad 2 fel etholiad i lenwi swydd cynghorydd sy'n digwydd bod yn wag mewn cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned yng Nghymru).

Yn unol â'r darpariaethau hyn, dylid cynnal etholiad perthnasol a fyddai "fel arall yn cael ei chynnal... ar ddiwrnod yn ystod y cyfnod perthnasol" (sef y cyfnod rhwng 16 Mawrth 2020 a 31 Ionawr 2021) o fewn y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Chwefror 2021 ac yn gorffen ar 16 Ebrill 2021 yn lle hynny.

Fodd bynnag, nid yw'r Rheoliadau'n nodi manylion ynghylch a fyddai etholiad perthnasol yn ddarostyngedig i'r darpariaethau gohirio yn Rheoliadau 3(1) a 4(1), a'r darpariaethau cysylltiedig o ran datgymhwyso atebolrwydd troseddol am dorri dyletswydd swyddogol ar gyfer swyddogion canlyniadau ac eraill o dan Reoliad 5, o dan amgylchiadau pe byddai'r amserlen statudol arferol ar gyfer cynnal etholiad o'r fath yn syrthio'n rhannol o fewn y cyfnod perthnasol ac yn rhannol ar ei ôl.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Rheol Sefydlog 21.3(ii) - ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

1. Nodwn fod y rheol 21 diwrnod wedi'i thorri (h.y. y rheol o dan adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946 y dylid gosod offeryn statudol gweithdrefn negyddol gerbron y Senedd o leiaf 21 diwrnod cyn y daw'r offeryn hwnnw i rym), a nodwn yr esboniad am dorri'r rheol a ddarparwyd gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd dyddiedig 29 Ebrill 2020. Mae'r llythyr yn egluro bod torri'r rheol yn caniatáu i'r Rheoliadau hyn ddod i rym ar 5 Mai 2020. Mae'r llythyr yn cadarnhau bod hyn yn angenrheidiol gan fod Deddf y Coronafeirws 2020 yn indemnio swyddogion canlyniadau ac eraill rhag torri eu dyletswydd swyddogol trwy ddatgymhwyso adrannau 39 a 63 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ar gyfer y cyfnod rhwng 15 Mawrth a 24 Ebrill 2020. Mae'r llythyr yn nodi hefyd y byddai "bwlch hir rhwng diwedd y sicrwydd indemniad hwnnw a rhoi'r Gorchymyn *[sic]* hwn yn ei le yn gadael swyddogion canlyniadau yn agored i erlyniad.".

2. Nodir yn y Memorandwm Esboniadol, ac yn y llythyr y cyfeiriwyd ato uchod, oherwydd natur frys y Rheoliadau, nad yw Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad arnynt. Ni chwblhawyd asesiad effaith rheoleiddiol chwaith. Fodd bynnag, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y gofynnwyd am safbwyntiau rhanddeiliaid (fel y Comisiwn Etholiadol, Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru a'r Gymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol). Hefyd, ceisir rhagor o safbwyntiau rhanddeiliaid yn ôl-weithredol fel rhan o ymgynghoriad yn y dyfodol ar "ddarpariaethau atodol angenrheidiol". Nid yw'r Memorandwm Esboniadol yn cadarnhau natur y darpariaethau atodol hynny.

3. Rydym yn nodi'r materion canlynol mewn perthynas â'r Memorandwm Esboniadol:

a. Ceir nifer o wallau drwyddi draw lle cyfeirir at yr offeryn fel Gorchymyn yn hytrach na Rheoliadau;

b. Yn adran 3.2, mae'r dyddiadau'n anghywir wrth gyfeirio at effaith adran 65 o Ddeddf y Coronafeirws 2020 (mae'r cyfnod y cyfeirir ato yn dechrau ar 16 Mawrth 2020 yn hytrach na 15 Mawrth 2020) ac wrth gyfeirio at y cyfnod perthnasol at ddibenion adran 67 o'r Ddeddf honno (a ddylai nodi 16 Mawrth <u>2020</u> a 5 Mai 2021 yn hytrach na "16 Mawrth a 5 Mai 2021");

c. Yn adran 3.2, cyfeirir at y ffaith fod adran 65 o Ddeddf y Coronafeirws yn ddarpariaeth sy'n darparu pwerau i Weinidogion Cymru (mae'r pwerau gwneud rheoliadau at y dibenion hyn yn adrannau 67 a 68 o'r Ddeddf honno yn unig);

d. Yn adran 4.2, ceir datganiad fod darpariaethau Deddf y Coronafeirws 2020 yn cael eu cyfyngu o ran amser am ddwy flynedd. Ceir nifer o eithriadau i'r ddarpariaeth hon ynghylch pryd y daw i ben, gan gynnwys, yn unol ag adran 89(2)(i) o'r Ddeddf honno, y pwerau galluogi y dibynnir arnynt ar gyfer y Rheoliadau hyn;

e. Mae adran 4.3 yn cyfeirio at Lywodraeth y DU yn cyhoeddi ei bwriad i ohirio pob etholiad a oedd i'w gynnal ym mis Mai 2020 ac yn nodi y "rhoddodd Llywodraeth Cymru ei chefnogaeth lawn i'r swyddogion canlyniadau a wnaeth y penderfyniad i beidio â chynnal eu hetholiadau cyn dyddiad y Cydsyniad Brenhinol na fyddai'n berthnasol i'r darpariaethau hyn". Nid yw'n glir pa ddarpariaethau y cyfeirir atynt yn y cyd-destun hwn, o ystyried y cyfeiriad at ddyddiad y Cydsyniad Brenhinol; ac

f. Mae adran 4.7 yn cyfeirio at adran 63 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 gan ddweud ei fod yn darparu ar gyfer "trosedd mewn dyletswydd swyddogol" a ddylai gyfeirio at dorri dyletswydd swyddogol.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â’r Undeb Ewropeaidd

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

O ystyried yr amgylchiadau presennol o ran y coronafeirws, mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol mewn perthynas â’r pwynt adrodd technegol ac mewn perthynas â’r ail a’r trydydd pwynt ynghylch adrodd ar rinweddau.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**11 Mai 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 461 (Cy. 105)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gohirio is-etholiadau penodol a oedd i fod i gael eu cynnal yn ystod y cyfnod rhwng 16 Mawrth 2020 a 31 Ionawr 2021.

Mae rheoliad 3 yn gohirio is-etholiadau a fyddai'n cael eu cynnal i lenwi swyddi cynghorwyr yn unrhyw gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru tan ddiwrnod sy'n dod o fewn y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Chwefror 2021 ac sy'n dod i ben ar 16 Ebrill 2021.

Mae rheoliad 4 yn gohirio is-etholiadau a fyddai'n cael eu cynnal i lenwi swyddi cynghorwyr cymuned yn unrhyw gyngor cymuned yng Nghymru tan ddiwrnod sy'n dod o fewn y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Chwefror 2021 ac sy'n dod i ben ar 16 Ebrill 2021.

Mae rheoliad 5 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhyddhau swyddogion canlyniadau ac eraill o atebolrwydd o dan ddarpariaethau penodol yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 mewn perthynas â phleidleisiau yr oedd yn ofynnol iddynt gael eu cynnal ond na chawsant eu cynnal yn y cyfnod ar ôl 24 Ebrill 2020.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 461 (Cy. 105)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

# CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

## Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Ebrill 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *29 Ebrill 2020* |
| *Yn dod i rym* | *5 Mai 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 67 a 68 o Ddeddf y Coronafeirws 2020(**1**).

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 5 Mai 2020.

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y cyfnod blaenorol" ("*the antecedent period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau ar 16 Mawrth 2020 ac sy'n dod i ben ar y diwrnod cyn y diwrnod y daw'r Rheoliadau hyn i rym;

ystyr "y cyfnod perthnasol" ("*the relevant period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau ar 16 Mawrth 2020 ac sy'n dod i ben ar 31 Ionawr 2021;

(**1**) 2020 p. 7.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ystyr "Deddf 1972" ("*the 1972 Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972(**1**);

ystyr "Deddf 1983" ("*the 1983 Act*") yw Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**2**);

ystyr "etholiad perthnasol" ("*relevant election*") yw etholiad i lenwi swydd cynghorydd sy'n digwydd dod yn wag mewn cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned yng Nghymru;

ystyr "Rheolau 2006" ("*the 2006 Rules*") yw Rheolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Cymru a Lloegr) 2006(**3**).

**Gohirio is-etholiadau cynghorwyr prif ardaloedd**

**3.**—(1) Mae'r bleidlais ar gyfer etholiad i lenwi swydd cynghorydd sy'n digwydd dod yn wag ar gyfer unrhyw brif ardal yng Nghymru a fyddai, yn unol ag adran 89(1) o Ddeddf 1972 (llenwi swyddi sy'n digwydd dod yn wag yn achos cynghorwyr), fel arall yn cael ei chynnal, neu wedi cael ei chynnal, ar ddiwrnod yn ystod y cyfnod perthnasol i'w chynnal yn hytrach ar ddiwrnod sy'n dod o fewn y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Chwefror 2021 ac sy'n dod i ben ar 16 Ebrill 2021.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i bleidlais ar gyfer ethol cynghorydd sydd wedi ei chynnal yn ystod y cyfnod blaenorol, yn unol ag adran 89(1) o Ddeddf 1972.

(3) Yn y rheoliad hwn, mae i "prif ardal" yr un ystyr ag a roddir i "principal area" yn adran 270 o Ddeddf 1972 (darpariaethau cyffredinol ynghylch dehongli).

**Gohirio is-etholiadau ar gyfer cynghorwyr cymuned**

**4.**—(1) Mae'r bleidlais ar gyfer etholiad i lenwi swydd cynghorydd cymuned sy'n digwydd dod yn wag a fyddai, yn unol â rheol 5(3) o Reolau 2006 (llenwi swyddi sy'n digwydd dod yn wag), fel arall yn cael ei chynnal, neu wedi cael ei chynnal, ar ddiwrnod yn ystod y cyfnod perthnasol i'w chynnal yn hytrach ar ddiwrnod sy'n dod o fewn y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Chwefror 2021 ac sy'n dod i ben ar 16 Ebrill 2021.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i bleidlais ar gyfer ethol cynghorydd sydd wedi ei chynnal ar ddiwrnod yn ystod y cyfnod blaenorol, yn unol â rheol 5(3) o Reolau 2006.

---

(**1**) 1972 p. 70.
(**2**) 1983 p. 2.
(**3**) O.S. 2006/3305.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Datgymhwyso darpariaethau penodol sy'n ymwneud ag etholiadau**

**5.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys mewn perthynas â'r bleidlais ar gyfer etholiad perthnasol—

(a) os yw'n ofynnol i'r bleidlais gael ei chynnal ar ddiwrnod sydd o fewn y cyfnod sy'n dechrau ar 25 Ebrill 2020 ac sy'n dod i ben ar 31 Ionawr 2021, ond

(b) yn unol â'r Rheoliadau hyn, nad yw'r bleidlais yn cael ei chynnal yn ystod y cyfnod hwnnw.

(2) Nid yw adran 39 o Ddeddf 1983 (etholiadau lleol di-rym etc.) yn gymwys, a chaiff ei thrin fel pe na bai erioed wedi bod yn gymwys, mewn perthynas â'r bleidlais.

(3) Nid yw adran 63 o Ddeddf 1983 (torri dyletswydd swyddogol) yn gymwys, a chaiff ei thrin fel pe na bai erioed wedi bod yn gymwys, mewn perthynas ag unrhyw weithred neu anweithred mewn cysylltiad â'r bleidlais.

(4) Wrth benderfynu at ddiben y rheoliad hwn a yw pleidlais wedi cael ei chynnal, mae pleidleisiau drwy'r post i'w hanwybyddu.

*Julie James*
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol, un o Weinidogion Cymru
27 Ebrill 2020

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020.**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020.

Julie James
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
29 Ebrill 2020

**RHAN 1**

## 1. Disgrifiad

1.1. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu y bydd etholiadau lleol i lenwi seddau sy'n digwydd dod yn wag mewn cynghorau sir, cynghorau bwrdeistref sirol a chynghorau cymuned yng Nghymru sydd i'w cynnal ar ôl 15 Mawrth 2020 neu y byddai eu hangen fel arall cyn 31 Ionawr 2021 yn cael eu gohirio tan y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Chwefror ac sy'n dod i ben ar 16 Ebrill 2021. Bydd seddau'n dod yn wag pan na fydd yr unigolyn bellach yn gallu llenwi ei sedd oherwydd marwolaeth, ymddiswyddiad, analluedd neu anghymhwysiad, ac fe gyfeirir at yr etholiadau hyn fel "is-etholiadau lleol".

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1. Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, hysbyswyd y Llywydd y daw'r Gorchymyn i rym llai na 21 diwrnod o'r diwrnod y mae'n cael ei osod.

2.2. Gwnaed a gosodwyd y Gorchymyn hwn cyn gynted â phosibl ar ôl i Ddeddf Coronafeirws 2020 gael Cydsyniad Brenhinol. O ganlyniad, maent wedi dod i rym llai na 21 diwrnod ar ôl iddynt gael eu gosod.

2.3. Mae peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym ar 5 Mai. Mae hyn yn angenrheidiol oherwydd bod Deddf Coronafeirws 2020 yn rhoi sicrwydd indemniad i Swyddogion Canlyniadau am 30 diwrnod yn unig. Byddai bwlch hir rhwng diwedd y sicrwydd indemniad a rhoi'r gorchymyn hwn ar waith yn arwain at fygythiad y gellir erlyn Swyddogion Canlyniadau os oes angen gohirio etholiad yn ystod y cyfnod hwn. Oherwydd yr amgylchiadau, credwyd felly bod cyfnod llai yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

2.4. Mae'r Rheoliadau hyn yn cael effaith adolygol gan eu bod yn gohirio etholiadau lleol a oedd i'w cynnal ar ôl 15 Mawrth 2020. Mae'r pŵer hwn wedi'i roi yn ffurfiol yn y ddarpariaeth alluogi yn y brif ddeddfwriaeth.

2.5. Os oes etholiadau lleol o'r fath wedi cael eu cynnal rhwng 16 Mawrth 2020 a'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, maent hefyd yn darparu nad yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r etholiadau lleol hynny. Mae Deddf 2020 a'r Rheoliadau hyn gyda'i gilydd yn rhyddhau swyddogion canlyniadau ac eraill rhag unrhyw rwymedigaeth am beidio â bod wedi gweithredu mewn perthynas ag etholiadau a ohiriwyd.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

3.1. Gwneir y gorchymyn o dan bwerau yn adrannau 67 a 68 o Ddeddf Coronafeirws 2020. Mae'r Ddeddf yn galluogi Llywodraethau'r DU i ymateb mewn argyfwng a rheoli effeithiau pandemig COVID-19.

3.2. Mewn perthynas ag etholiadau, mae Deddf Coronafeirws 2020 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud y canlynol:

- Mae Adran 65 o'r Ddeddf yn anghymhwyso rhai darpariaethau sydd fel arall yn gymwys i etholiadau lleol. Mae'r rhain yn angenrheidiol i sicrhau na all unrhyw weithred neu anweithred gan swyddogion canlyniadau ac eraill mewn perthynas ag etholiad a oedd i'w gynnal rhwng y cyfnod sy'n dechrau ar 15 Mawrth 2020 ac sy'n dod i ben ar 24 Ebrill 2020 arwain at erlyniad troseddol ar gyfer esgeulustod.

- Mae Adran 67 o'r Ddeddf yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau i ohirio unrhyw etholiad sy'n deillio o seddau sy'n digwydd dod yn wag ar gyfer cynghorydd mewn cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned yng Nghymru (gelwir hefyd yn is-etholiadau) lle byddai dyddiad yr etholiad fel arall rhwng y cyfnod 16 Mawrth a 5 Mai 2021, yn ôl y rheoliad.

- Mae Adran 68 o'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud darpariaethau canlyniadol, atodol, achlysurol, trosiannol neu ddarpariaethau arbed mewn cysylltiad ag adran 66 neu adran 67 o'r Ddeddf trwy gyfrwng rheoliadau. Mae'r ddarpariaeth y gellir ei gwneud yn cynnwys darpariaeth am weithgarwch etholiadol cyn gohirio pleidlais, cynnal etholiadau, y dull o bleidleisio mewn etholiadau sydd wedi'u gohirio, telerau swydd y deiliaid swydd, enwebiadau ymgeiswyr, gwariant mewn perthynas â'r etholiad gan rai heblaw'r Awdurdodau Lleol, ac iawndal ar gyfer Awdurdodau Lleol neu ymgeiswyr o ganlyniad i ddarpariaethau o fewn y Ddeddf.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

4.1. Diben Deddf Coronafeirws 2020 yw galluogi Llywodraethau'r DU i ymateb mewn argyfwng a rheoli effeithiau pandemig COVID-19.

4.2. Mae'r Ddeddf yn cynnwys mesurau dros dro a gynlluniwyd naill ai i ddiwygio darpariaethau deddfwriaethol presennol neu i gyflwyno pwerau statudol newydd a gynlluniwyd i liniaru'r effeithiau hyn. Mae'r darpariaethau yn gyfyngedig o ran amser i ddwy flynedd. Mae'r Ddeddf yn cynnwys nifer o ddarpariaethau yn ymwneud ag etholiadau a rheoliad sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru.

4.3. Oherwydd y risg parhaus a achosir gan y coronafeirws cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bwriad i ohirio pob etholiad a oedd i'w gynnal ym mis Mai 2020. Rhoddodd Llywodraeth Cymru ei chefnogaeth lawn i'r

swyddogion canlyniadau a wnaeth y penderfyniad i beidio â chynnal eu hetholiadau cyn dyddiad y Cydsyniad Brenhinol na fyddai'n berthnasol i'r darpariaethau hyn.

4.4. Mae'r angen i ohirio yn deillio o bryderon y byddai cynnal etholiad, ar ei orau, yn annoeth ac ar ei waethaf yn amhosibl pe bai ymgeiswyr, ymgyrchwyr, etholwyr, gweinyddwyr etholiadol a'r bobl sy'n eu cyflenwi a'u cefnogi yn cael eu heffeithio gan COVID-19 neu'r mesurau'n ymwneud ag ef.

4.5. Bydd y Rheoliadau hyn yn darparu y dylid gohirio pob is-etholiad lleol a oedd i'w gynnal i lenwi seddau gwag mewn prif gynghorau a seddau sy'n digwydd dod yn wag mewn cynghorau tref a chymuned yng Nghymru ar ôl 15 Mawrth 2020 hyd at 31 Ionawr 2021 a'u cynnal ar ddyddiad yn ystod y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Chwefror 2021 ac sy'n dod i ben ar 16 Ebrill 2021. Bydd hyn yn caniatáu i Swyddogion Canlyniadau gynnal etholiadau a ohiriwyd ar adeg pan fo'n ddiogel i wneud hynny ac yn gyfleus i'w hamgylchiadau lleol.

4.6. Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn anghymhwyso darpariaethau penodol a fyddai fel arall yn berthnasol i etholiadau lleol. Mae angen y rhain i sicrhau na all unrhyw gamau gweithredu neu anwaith gan swyddogion canlyniadau ac eraill mewn perthynas ag etholiad a oedd i'w gynnal arwain at erlyniad troseddol am esgeulustod.

4.7. Y darpariaethau sydd wedi'u hanghymhwyso yw adrannau 39 a 63 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983. Mae Adran 39 yn gosod dyletswydd ar swyddogion canlyniadau i orchymyn etholiad o fewn cyfnod amser penodol os bydd sedd sy'n digwydd dod yn wag. Mae Adran 63 yn darparu ar gyfer trosedd mewn dyletswydd swyddogol ac mae'n gymwys i swyddogion canlyniadau a swyddogion eraill sy'n ymwneud ag etholiadau.

## 5. Ymgynghori

5.1. Oherwydd natur frys y Gorchymyn hwn, ni wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal ymgynghoriad cyn y daeth y Gorchymyn i rym. Ceisiwyd barn rhanddeiliaid megis y Comisiwn Etholiadol, Bwrdd Cydlynu Etholiadol Cymru a Chymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol.

5.2. Ceisir safbwyntiau rhanddeiliaid yn adolygol fel rhan o ymgynghoriad yn y dyfodol ar ddarpariaethau atodol angenrheidiol.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

6.1. Mae angen i'r Rheoliadau gael eu gweithredu'n gyflym er mwyn delio ag argyfwng. Felly, ni chwblhawyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Mae hyn yn cydymffurfio â chod asesiad effaith rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth.

**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

29 Ebrill 2020

**Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020**

Annwyl Elin,

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Cyflwynwyd Deddf y Coronafeirws 2020 yn Senedd San Steffan ar 19 Mawrth ac roedd yn cynnwys sawl darpariaeth amrywiol ynghylch etholiadau yn ogystal â phwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a'r pŵer i'r Llywydd osod dyddiad diweddarach ar gyfer etholiad ar gyfer sedd etholaeth wag.

Mae'r Rheoliadau hwn yn gohirio unrhyw is-etholiadau a oedd i fod i gael eu cynnal yn y dyfodol agos, gan osod dyddiad newydd i gynnal yr is-etholiadau hyn dim hwyrach nag 16 Ebrill 2021 na chyn 1 Chwefror 2021.

Gwnaed a gosodwyd y Rheoliadau hwn cyn gynted ag yr oedd yn ymarferol ar ôl i Ddeddf y Coronafeirws 2020 dderbyn y Cydsyniad Brenhinol. O ganlyniad, mae wedi dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei wneud.

Mae torri'r confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym ar 5 Mai 2020. Mae angen hyn gan nad yw Deddf y Coronafeirws 2020 ond yn indemnio swyddogion canlyniadau ac eraill rhag torri eu dyletswydd swyddogol drwy ddatgymhwyso adrannau 39 a 63 o Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 am y cyfnod rhwng 15 Mawrth a 24 Ebrill 2020. Byddai bwlch hir rhwng diwedd y sicrwydd indemniad hwnnw a rhoi'r Gorchymyn hwn yn ei le yn gadael swyddogion canlyniadau yn agored i erlyniad. Oherwydd yr amgylchiadau, credir felly ei bod yn angenrheidiol lleihau'r cyfnod yn yr achos hwn a bod modd cyfiawnhau hynny.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi cael ei baratoi a'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

# SL(5)543 - Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau i Ffermwyr) (Coronafeirws) (Cymru) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn addasu cymhwysiad deddfwriaeth Taliadau Uniongyrchol yr UE a ddargedwir a deddfwriaeth ddomestig i ymestyn y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno a diwygio Ffurflen Cais Sengl y Polisi Amaethyddol Cyffredin, ceisiadau am gymorth, hawliadau am daliadau a hysbysiad o drosglwyddo hawliau ar gyfer blwyddyn hawlio 2020.

Rhaid i ffermwyr sydd am wneud cais am Daliadau Uniongyrchol neu gyllid Datblygu Gwledig gyflwyno'r Ffurflen Cais Sengl, cais am gymorth neu hawliad am daliad erbyn dyddiad a nodir mewn deddfwriaeth, sef 15 Mai ar hyn o bryd. Yna, mae ffenestr lle gall ffermwyr wneud newidiadau i'r eitemau a gyflwynwyd – sef y Ffurflen Cais Sengl, y cais am gymorth neu'r hawliad am daliad – os oes unrhyw wallau neu broblemau.

Yn sgil y pandemig COVID-19, mae'r UE wedi cyhoeddi Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2020/501 ar 6 Ebrill 2020 sy'n caniatáu i bob Aelod-wladwriaeth ddewis ymestyn y dyddiad cau ar gyfer y Ffurflen Cais sengl, cais am gymorth a hawliad am daliad i 15 Mehefin, sef estyniad o fis, ar gyfer blwyddyn hawlio 2020. Yna gellir newid y dyddiad ar gyfer diwygio'r eitemau a gyflwynwyd – sef y Ffurflen Cais Sengl, y cais am gymorth neu'r hawliad am daliad – o 31 Mai i 30 Mehefin.

Yn wahanol i gyfreithiau eraill yr UE yn ymwneud â'r Polisi Amaethyddol Cyffredin ("PAC"), nid yw'r newidiadau i ddeddfwriaeth Taliadau Uniongyrchol yr UE yn gymwys yn awtomatig yn ystod y Cyfnod Gweithredu. Felly, mae angen deddfwriaeth ddomestig i ddiwygio'r dyddiadau cau ar gyfer y Ffurflen Cais Sengl yng Nghymru. Mae cyfraith yr UE yn parhau i lywodraethu elfennau eraill y PAC, gan gynnwys y Rhaglen Datblygu Gwledig.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1.Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Gwnaed y Rheoliadau hyn ar 29 Ebrill 2020 gan ddod i rym ar ddechrau 30 Ebrill 2020. Hefyd, gosodwyd y rheoliadau gerbron y Senedd ar 30 Ebrill 2020. Mae hyn yn golygu, i bob pwrpas, y gosodwyd y Rheoliadau gerbron y Senedd ar ôl iddynt ddod i rym. Mae hyn hefyd yn golygu na chadwyd at y confensiwn sy'n nodi na ddylai offerynnau statudol ddod i rym yn gynt na 21 diwrnod ar ôl dyddiad eu gosod.

O dan adrannau 4(1) ac 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, mae'n ofynnol bod hysbysiad yn cael ei anfon at y Llywydd yn esbonio pam yr ystyriwyd bod angen i'r offeryn statudol ddod i rym cyn iddo gael ei osod gerbron y Senedd, a pham y torrwyd y confensiwn 21 diwrnod. Darparwyd yr hysbysiad gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 1 Mai 2020.

Mae'r hysbysiad yn esbonio yr ystyriwyd bod *"angen aros am Reoliadau Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (Diwygiadau Canlyniadol) 2020 ("Rheoliadau 2020") i'w gwneud cyn gwneud yr offeryn hwn i sicrhau eu bod yn cael eu dehongli yn yr un modd. Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud y diwygiadau canlyniadol sy'n ofynnol o ganlyniad i Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 ar sail y DU gyfan."*

Mae'r hysbysiad hefyd yn egluro, oherwydd yr amserlen frys, na fu amser i gynnal ymgynghoriad ystyrlon neu Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu'r esboniad canlynol yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau hyn:

*"Mae'r OS hwn yn cael ei wneud yn dilyn y Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (Diwygiadau Canlyniadol) 2020 ("Rheoliadau 2020") er mwyn sicrhau parhad o ran dull gweithredu'r diffiniadau a dehongli. Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud diwygiadau canlyniadol sy'n ofynnol o ganlyniad i Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 ar sail y DU gyfan. Lluniwyd Rheoliadau 2020 ar 27 Ebrill, wedi'i osod gerbron Senedd y DU ar 28 Ebrill 2020 a byddant yn dod i rym ar 30 Ebrill 2020.*

*Daw'r offeryn hwn i rym ar 30 Ebrill 2020 er mwyn sicrhau eglurder ynghylch dyddiadau cyflwyno, ac felly ni fyddwn yn cadw at y confensiwn 21 diwrnod."*

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Nid yw Cynllun y Taliad Sylfaenol yng Nghymru yn cael ei lywodraethu gan gyfraith yr UE mwyach o ganlyniad i Erthygl 137 o'r Cytundeb Ymadael. Gwnaeth Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 ymgorffori deddfwriaeth yr UE sy'n llywodraethu cynlluniau Taliadau Uniongyrchol PAC 2020 i gyfraith ddomestig ar y diwrnod ymadael. Yn wahanol i gyfreithiau eraill yr UE yn ymwneud â'r PAC, nid yw newidiadau i ddeddfwriaeth Taliadau Uniongyrchol yr UE yn gymwys yn awtomatig yn ystod y Cyfnod Gweithredu ac, felly, mae'n ofynnol bod deddfwriaeth ddomestig yn diwygio dyddiadau cau'r Ffurflen Cais Sengl yng Nghymru. Mae cyfraith yr UE yn parhau i lywodraethu elfennau eraill y PAC, gan gynnwys y Rhaglen Datblygu Gwledig.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**11 Mai 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

## 2020 Rhif 473 (Cy. 109)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

# Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau i Ffermwyr) (Coronafeirws) (Cymru) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae rheoliad 2 yn addasu cymhwysiad Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 ("Rheoliad 809/2014") sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 o ran y system weinyddu a rheoli integredig, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio ar gyfer blwyddyn hawlio 2020.

Mae Erthygl 13 o Reoliad 809/2014 yn nodi'r dyddiad terfynol ar gyfer cyflwyno'r cais sengl, ceisiadau am gymorth a hawliadau am daliadau. Mae rheoliad 2(a) yn addasu Erthygl 13(1) fel bod y dyddiad cau ar gyfer blwyddyn hawlio 2020 yn cael ei estyn o 15 Mai 2020 i 15 Mehefin 2020.

Mae rheoliad 2(b) yn addasu Erthygl 15(2) er mwn estyn y dyddiad cau ar gyfer gwneud diwygiadau i gais sengl neu hawliad am daliad o 31 Mai 2020 i 30 Mehefin 2020.

Mae rheoliad 2(c) yn addasu Erthygl 22(1) fel bod y dyddiad terfynol ar gyfer cyflwyno cais am ddyraniad o hawliau i daliadau neu am gynyddu eu gwerth yn cyd-fynd â'r dyddiadau cau diwygiedig. Caiff hwn ei estyn o 15 Mai 2020 i 15 Mehefin 2020.

Mae rheoliad 3 yn addasu cymhwysiad Erthygl 8(1) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 641/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 sy'n sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin. Mae'r addasiad hwn yn cael gwared ar y cyfeiriad at y diwrnod ymadael.

Mae rheoliad 4 yn addasu Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio)

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014") ar gyfer blwyddyn hawlio 2020. Mae rheoliad 3(1) o Reoliadau 2014 yn cael ei addasu er mwyn estyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais sengl, cais am gymorth neu hawliad am daliad i Weinidogion Cymru o 15 Mai 2020 i 15 Mehefin 2020.

Mae rheoliad 5 yn addasu Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015") ar gyfer blwyddyn hawlio 2020. Mae Rheoliadau 2015 yn gwneud darpariaethau mewn perthynas â gweinyddu Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013.

Mae rheoliad 5(a) yn addasu rheoliad 10(1) o Reoliadau 2015 fel bod y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am ddyraniad o hawliau i daliadau o dan y cynllun taliad sylfaenol yn cyd-fynd â'r dyddiadau diwygiedig yn Rheoliad 809/2014.

Mae rheoliad 5(b) yn addasu rheoliad 11(3) o Reoliadau 2015 fel bod y dyddiad cau y mae rhaid i drosglwyddwr yr hawliau i daliadau hysbysu Gweinidogion Cymru am y trosglwyddiad yn cael ei estyn o 30 Ebrill 2020 i 15 Mai 2020.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 473 (Cy. 109)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau i Ffermwyr) (Coronafeirws) (Cymru) 2020

*Gwnaed* *29 Ebrill 2020*

*Yn dod i rym* *30 Ebrill 2020*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *30 Ebrill 2020*

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â'r polisi amaethyddol cyffredin, ac yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan yr adran honno a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan Erthygl 78(b) o Reoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 ar ariannu, rheoli a

(**1**) O.S. 2010/2690.

(**2**) 1972 p. 68. Mae Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("Deddf 1972") wedi ei diddymu gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) ("Deddf 2018") gan gael effaith o'r diwrnod ymadael ("exit day"). Mae "exit day" wedi ei ddiffinio yn adran 20 o Ddeddf 2018 fel 31 Ionawr 2020 am 11pm. Er gwaethaf y diddymiad hwnnw mae Deddf 1972 yn parhau i gael effaith gydag addasiadau hyd ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ("IP completion day"), yn rhinwedd adran 1A o Ddeddf 2018. Mewnosodwyd adran 1A gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) ("Deddf 2020"). Mae "IP completion day" wedi ei ddiffinio yn adran 1A fel 31 Rhagfyr 2020 am 11pm (yr ystyr a roddir yn adran 39 o Ddeddf 2020). Diwygiwyd adran 2(2) o Ddeddf 1972 yn flaenorol gan adran 27(1) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

monitro'r polisi amaethyddol cyffredin(**1**), ac Erthygl 34(5) o Reoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

---

(**1**) Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 ar ariannu, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin ac sy'n diddymu Rheoliadau'r Cyngor (EEC) Rhif 352/78, (EC) Rhif 165/94, (EC) Rhif 2799/98, (EC) Rhif 814/2000, (EC) Rhif 1290/2005 ac (EC) Rhif 485/2008 (OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 549). I'r graddau y mae'n ymwneud â chynlluniau taliadau uniongyrchol y PAC ar gyfer blwyddyn hawlio 2020, mae Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 wedi ei ymgorffori mewn cyfraith ddomestig yn rhinwedd adran 1 o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (p. 2) (gweler y troednodyn ar gyfer Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 isod am drafodaeth ynghylch sut y mae'r cynllun taliadau uniongyrchol ar gyfer blwyddyn hawlio 2020 wedi ei ymgorffori mewn deddfwriaeth ddomestig). Mae Erthygl 78(b) o Reoliad (EU) Rhif 1306/2013 wedi ei diwygio gan reoliad 7(16)(b) o Reoliadau Ariannu, Rheoli a Monitro Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/90). Yn benodol, mae'r swyddogaeth yn Erthygl 78(b) wedi ei diwygio fel ei bod yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (gweler Erthygl 2(1)(k) ac (m) o Reoliad (EU) Rhif 1306/2013 am y diffiniadau o "relevant authority" ac "appropriate authority"). Mae diwygiadau eraill i Reoliad (EU) Rhif 1306/2013 ond nid ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**2**) Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 17 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin ac yn diddymu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 637/2008 a Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009 (OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 608). Mae Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 wedi ei ymgorffori mewn cyfraith ddomestig gan adran 1 o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (p. 2), ond dim ond ar gyfer blwyddyn hawlio 2020 (gweler adran 1(2)(a) o'r Ddeddf honno ac adran 1(7) o'r Ddeddf honno am y diffiniad o "claim year"). Mae Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 yn darparu'r sail gyfreithiol ar gyfer parhau i dalu taliadau uniongyrchol i ffermwyr ar gyfer blwyddyn hawlio 2020 (roedd Erthygl 137 o'r Cytundeb ar Ymadawiad Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon â'r Undeb Ewropeaidd (19 Hydref 2019) yn darparu nad yw Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 yn gymwys i'r DU ar gyfer blwyddyn hawlio 2020). Mae Erthygl 34(5) o Reoliad (EU) Rhif 1307/2013 wedi ei diwygio gan reoliad 5 o Reoliadau Rheolau ar gyfer Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/91). Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau yn ymdrin ag unrhyw fethiant yn Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Yn benodol, mae'r Rheoliadau yn diwygio Erthygl 34(5) o Reoliad (EU) Rhif 1307/2013 fel bod y pŵer i osod y rheolau sy'n llywodraethu hysbysiadau gan ffermwyr ynghylch trosglwyddiadau hawliau yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (gweler Erthygl 4(1)(r) ac (s) o Reoliad (EU) Rhif 1307/2013 am y diffiniadau o "relevant authority" ac "appropriate authority"). Mae diwygiadau eraill i Reoliad (EU) Rhif 1307/2013 ond nid ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau i Ffermwyr) (Coronafeirws) (Cymru) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Ebrill 2020.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, mae "blwyddyn hawlio 2020" i'w ddehongli yn unol ag adran 1(7) o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020(**1**).

**Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014**

**2.** At ddibenion blwyddyn hawlio 2020, mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 dyddiedig 17 Gorffennaf 2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y system weinyddu a rheoli integredig, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio(**2**) yn gymwys fel pe bai—

(a) yn Erthygl 13(1), "15 June 2020" wedi ei roi yn lle "15 May each year";

(b) yn Erthygl 15(2), "30 June 2020" wedi ei roi yn lle "31 May of the year concerned";

(c) yn Erthygl 22(1), "15 June 2020" wedi ei roi yn lle "15 May of the relevant calendar year".

**Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 641/2014**

**3.** At ddibenion blwyddyn hawlio 2020, mae Erthygl 8(1) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 641/2014 dyddiedig 16 Mehefin 2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu

(**1**) 2020 p. 2.

(**2**) Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 dyddiedig 17 Gorffennaf 2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y system weinyddu a rheoli integredig, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio (OJ Rhif L 227, 31.7.2014, t. 69). I'r graddau y mae'n ymwneud â'r cynlluniau taliadau uniongyrchol ar gyfer blwyddyn hawlio 2020, mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 wedi ei ymgorffori mewn cyfraith ddomestig yn rhinwedd adran 1 o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (gweler y troednodyn ar gyfer Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 uchod am drafodaeth ynghylch sut y mae'r cynllun taliadau uniongyrchol ar gyfer blwyddyn hawlio 2020 wedi ei ymgorffori mewn deddfwriaeth ddomestig). Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 wedi ei ddiwygio gan reoliad 14 o Reoliadau Ariannu, Rheoli a Monitro Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/90). Mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin(**1**) yn gymwys fel pe bai'r geiriau "prior to exit day" wedi eu hepgor.

**Diwygio Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014**

**4.** At ddibenion blwyddyn hawlio 2020, mae rheoliad 3(1) o Reoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014(**2**) yn gymwys fel pe bai "15 Mehefin 2020" wedi ei roi yn lle "15 Mai" yn y ddau le y mae'n digwydd.

**Diwygio Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015**

**5.** At ddibenion blwyddyn hawlio 2020, mae Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015(**3**) yn gymwys fel pe bai—

(a) yn rheoliad 10(1), "15 Mehefin 2020" wedi ei roi yn lle "15 Mai yn y flwyddyn galendr berthnasol";

(b) yn rheoliad 11(3), "2019 a 15 Mai 2020" wedi ei roi yn lle'r geiriau o "yn y flwyddyn galendr flaenorol" hyd at y diwedd.

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
29 Ebrill 2020

(**1**) Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 641/2014 dyddiedig 16 Mehefin 2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin (OJ Rhif L 181, 20.6.2014, t. 74). Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 641/2014 wedi ei ymgorffori mewn cyfraith ddomestig gan adran 1 o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 ond dim ond mewn perthynas â blwyddyn hawlio 2020 (gweler y troednodyn ar gyfer Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 uchod am drafodaeth ynghylch sut y mae'r cynllun taliadau uniongyrchol ar gyfer blwyddyn hawlio 2020 wedi ei ymgorffori mewn deddfwriaeth ddomestig). Mae Erthygl 8 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 641/2014 wedi ei diwygio gan reoliad 21 o Reoliadau Rheolau ar gyfer Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/91).

(**2**) O.S. 2014/3223 (Cy. 328), y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**3**) O.S. 2015/1252 (Cy. 84), y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

**Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau i Ffermwyr) (Coronafeirws) (Cymru) 2020**

**Memorandwm Esboniadol**

Cafodd y Memorandwm Esboniadol hwn ei baratoi gan

Is-adran yr Economi Wledig a Deddfwriaeth o fewn adran yr Amgylchedd, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol ac fe'i cyflwynir gerbron y Senedd ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau i Ffermwyr) (Coronafeirws) (Cymru) 2020.

Lesley Griffiths AC
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
30 Ebrill 2020

## 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau i Ffermwyr) (Coronafeirws) (Cymru) 2020 ("yr offeryn") yn addasu cymhwysiad deddfwriaeth yr UE ar Daliadau Uniongyrchol a gedwir a deddfwriaeth ddomestig i ymestyn y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno a diwygio Ffurflen Cais Sengl ("SAF") y Polisi Amaethyddol Cyffredin, ceisiadau am gymorth, hawliadau am daliadau a hysbysiad trosglwyddo hawliau ("T&L") ar gyfer blwyddyn hawlio 2020.

Mae'r offeryn yn addasu cymhwysiad y darpariaethau yn y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 809/2014 yn gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 o ran y system weinyddu a rheoli integredig, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio (**1**);
- Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 641/2014 o 16 Mehefin 2014 yn gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n pennu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin(**2**);
- Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015(**3**);
- Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014(**4**).

## 2. Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Rhaid i ffermwyr sy'n gwneud cais am y cynlluniau canlynol lenwi SAF:

- Cynllun Taliad Sylfaenol ("BPS") gan gynnwys Ailddosbarthu, Materion Gwyrdd a Ffermwyr Ifanc
- Glastir Uwch (GA)
- Glastir Organig (GO)

**1** Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 809/2014 ar 17 Gorffennaf 2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran y system weinyddu a rheoli integredig, mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio (OJ L 227, 31.7.2014, t. 69–124*)*. I'r graddau y mae'n ymwneud â chynlluniau taliadau uniongyrchol y PAC, mae Rheoliad (EU) Rhif 809/2014 wedi ei ymgorffori mewn cyfraith ddomestig yn rhinwedd adran 1 o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (2020 c.2). Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 809/2014 wedi ei ddiwygio gan reoliad 14 o Reoliadau Ariannu, Rheoli a Monitro Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/90). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.
**2** Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 641/2014 o 16 Mehefin 2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (UE) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n pennu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin (OJ L 181, 20.6.2014, t. 74 – 8). Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 641/2014 wedi'i ymgorffori i gyfraith ddomestig gan adran 1 o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (2020 c. 2). Mae Erthygl 8 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 641/2014 wedi'i diwygio gan reoliad 21 o Reoliadau Rheolau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/91).
**3** O.S. 2015/1252 (W. 84).
**4** O.S. 2014/3223 (W. 328).

- Cynllun Premiwm Tir wedi'i Wella (ILP)
- Premiwm Creu Coetir Glastir (GWCP)
- Cynnal a Chadw Creu Coetir Glastir (GCM)
- Premiwm Creu Coetir Glastir (GCP)

I'r graddau y mae'n ymwneud â'r BPS (Colofn 1) 2020, mae Rheoliad 1306/2013 wedi'i ymgorffori mewn cyfraith ddomestig yn rhinwedd adran 1 o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (c. 2).

Mae'r diwygiadau i ymestyn cais Colofn 1 a therfynau amser diwygio yn cael eu gwneud yn unol ag Erthygl 78(b) o Reoliad (UE) Rhif 1306/2013 ar ariannu, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin ("Rheoliad 1306/2013"). Mae Erthygl 78(b) wedi'i diwygio gan reoliad 7(16)(b) o Reoliadau Ariannu, Rheoli a Monitro Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/90). Mae'r swyddogaeth yn Erthygl 78(b) o wneud rheoliadau sy'n gosod rheolau ar geisiadau am gymorth, a cheisiadau am hawliau i daliadau (gan gynnwys y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno ceisiadau) yn cael ei rhoi i'r "awdurdod priodol" sef Gweinidogion Cymru yn y cyd-destun hwn yn rhinwedd Erthygl 2(1)(l) ac (m) o Reoliad 1306/2013

Mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig (Colofn 2) yn dal i gael ei llywodraethu gan gyfraith yr UE. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau Glastir, a'r Premiwm Tir wedi'i Wella. O ganlyniad i bandemig COVID 19, mae'r UE wedi cyhoeddi Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2020/501 ar 6 Ebrill 2020 sy'n caniatáu i bob Aelod-wladwriaeth (sy'n cynnwys y DU yng nghyswllt Colofn 2) ddewis ymestyn y SAF, y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau am gymorth a hawlio taliadau o 1 mis i 15 Mehefin ar gyfer blwyddyn hawlio 2020. Gellir hefyd newid y dyddiad ar gyfer diwygio SAF sydd wedi'i chyflwyno, y cais am gymorth, a'r ffurflen hawlio taliad o 31 Mai i 30 Mehefin.

Mae'r diwygiadau i ymestyn y terfynau amser yng nghyswllt Colofn 2 felly yn cael eu gwneud yn unol ag adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 yng nghyswllt y polisi amaethyddol cyffredin yn rhinwedd Gorchymyn y Cymunedau Ewropeaidd (Dynodi) (Rhif 5) 2010 (O.S. 2010/2690). Mae'r dynodiad hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau at ddibenion gweithredu unrhyw rwymedigaeth yr UE sydd gan y Deyrnas Unedig.

Mae'r diwygiad i ymestyn y terfyn amser ar gyfer hysbysu T&L yn cael ei wneud yn unol ag Erthygl 34(5) o Reoliad (UE) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 17 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol

cyffredin[5] ("Rheoliad 1307/2013"). Mae Rheoliad 1307/2013 wedi'i ymgorffori mewn cyfraith ddomestig yn rhinwedd adran 1 o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (2020 c.2). Mae Erthygl 34(5) wedi'i diwygio gan reoliad 5 o Reoliadau Rheolau ar gyfer Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/91). Mae'r swyddogaeth yn Erthygl 34(5) o wneud rheoliadau sy'n gosod rheolau manwl i lywodraethu hysbysiadau gan ffermwyr ynghylch trosglwyddo hawliau i daliadau a'r terfynau amser ar gyfer gwneud hynny yn cael ei rhoi i'r "awdurdod priodol", sef Gweinidogion Cymru yn y cyd-destun hwn, yn rhinwedd erthygl 4(1)(r) a (s) o Reoliad 1307/2013.

Mae'r offeryn yn ddarostyngedig i weithdrefn negyddol gan fod angen llunio'r offeryn, a dod ag ef i rym ar frys. Ar hyn o bryd, y dyddiad cau ar gyfer yr hysbysiad T&L yw 30 Ebrill (gan gynnwys y diwrnod). O'r herwydd, mae angen i'r newidiadau gael eu gwneud ar frys er mwyn sicrhau eglurder ynghylch y terfynau amser. Ar y sail hon, dewiswyd y weithdrefn negyddol yng nghyswllt defnyddio adran 2(2) o bwerau Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972. Mae Erthygl 115B(1) o Reoliad (UE) Rhif 1306/2013 ac Erthygl 71A o Reoliad (UE) Rhif 1307/2013 yn nodi bod y weithdrefn negyddol yn gymwys yng nghyswllt defnyddio'r pwerau yn Erthygl 78 (b) o Reoliad (UE) Rhif 1306/2013 ac Erthygl 34(5) o Reoliad (UE) Rhif 1307/2013.

**Confensiwn 21 diwrnod ac Adran 4(1) Deddf Offerynau Statudol 1946**

Mae'r OS hwn yn cael ei wneud yn dilyn y Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (Diwygiadau Canlyniadol) 2020 ("Rheoliadau 2020") er mwyn sicrhau parhad o ran dull gweithredu'r diffiniadau a dehongli. Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud diwygiadau canlyniadol sy'n ofynnol o ganlyniad i Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 ar sail y DU gyfan. Lluniwyd Rheoliadau 2020 ar 27 Ebrill, wedi'i osod gerbron Senedd y DU ar 28 Ebrill 2020 a byddant yn dod i rym ar 30 Ebrill 2020.

Daw'r offeryn hwn i rym ar 30 Ebrill 2020 er mwyn sicrhau eglurder ynghylch dyddiadau cyflwyno, ac felly ni fyddwn cadw at y confensiwn 21 diwrnod.

Daw yr offeryn hwn, a wnaethpwyd ar 29 Ebrill 2020, i rym ar ddechrau'r dydd ar 30 Ebrill 2020 a gaiff ei osod gerbron Cyulliad Cenedlaethol Cymru ar 30 Ebrill 2020, mewn ffordd, wedi iddo ddod i rym.

## 3. Cefndir deddfwriaethol

Mae'n rhaid i ffermwyr sy'n dymuno gwneud cais am Daliadau Uniongyrchol neu arian Datblygu Gwledig gyflwyno'r SAF, y cais am gymorth neu'r hawliad am daliad erbyn y dyddiad a nodir yn y ddeddfwriaeth – 15 Mai ar hyn o bryd. Yna,

---

[5] Mae Rheoliad (UE) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 17 Rhagfyr 2013 yn sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin ac yn diddymu Rheoliad y Cyngor (CE) Rhif 637/2008 a Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 73/2009 (OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 608.

mae ffenestr i ffermwyr newid eu SAF, gwneud cais am gymorth neu hawlio taliad os oes unrhyw gamgymeriadau neu broblemau.

Fel y nodir uchod, o ganlyniad i bandemig COVID 19, mae'r UE wedi cyhoeddi Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) 2020/501 ar 6 Ebrill 2020 sy'n caniatáu i bob Aelod-wladwriaeth ddewis ymestyn y SAF, y dyddiad cau ar gyfer gwneud cais am gymorth a'r taliad am 1 mis tan 15 Mehefin ar gyfer blwyddyn hawlio 2020. Gellir hefyd newid y dyddiad ar gyfer diwygio SAF sydd wedi'i chyflwyno, y cais am gymorth, a'r ffurflen hawlio taliad o 31 Mai i 30 Mehefin.

Y rhesymeg yw y bydd hyn yn ysgafnhau'r pwysau gweinyddol ar ffermwyr, y gallai llawer ohonynt gael eu heffeithio gan coronafeirws, hunanynysu neu fethu cael cymorth gan yr asiantaeth dalu berthnasol – Taliadau Gwledig Cymru ("RPW") yn yr achos hwn.

Erbyn hyn, nid yw BPS yng Nghymru yn cael ei lywodraethu gan gyfraith yr UE o ganlyniad i erthygl 137 o'r Cytundeb Ymadael. Roedd Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 ("Deddf DPLC") yn ymgorfforu deddfwriaeth yr UE sy'n rheoli cynlluniau Taliadau Uniongyrchol y PAC o 2020 i gyfraith ddomestig ar y Diwrnod Ymadael. Yn wahanol i gyfraith arall yr UE sy'n ymwneud â'r PAC, nid yw'r newidiadau yn neddfwriaeth taliadau uniongyrchol yr UE yn gymwys yn awtomatig yn ystod y Cyfnod Gweithredu, ac felly mae angen deddfwriaeth ddomestig i ddiwygio dyddiadau cau y SAF yng Nghymru. Mae cyfraith yr UE yn dal i lywodraethu elfennau eraill y PAC, gan gynnwys y rhaglen datblygu gwledig.

## 4. Pwrpas y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

<u>Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 809/2014</u>

Mae Rheoliad 2 yn addasu cymhwysiad Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 809/2014 ("Rheoliad 809/2014") sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad 1306/2013 yng nghyswllt y system integredig gweinyddu a rheoli, y mesurau datblygu gwledig a thrawsgydymffurfio ar gyfer blwyddyn hawlio 2020.

Mae rheoliad 2(a) yn addasu cymhwysiad Erthygl 13(1) fel bod dyddiad cau y SAF, y cais am gymorth a’r hawliad am daliadau ar gyfer blwyddyn hawlio 2020 yn cael ei ymestyn o 15 Mai i 15 Mehefin 2020

Mae Rheoliad 2(b) yn addasu cymhwysiad Erthygl 15(2) i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer gwneud diwygiadau i SAF, y cais am gymorth neu’r hawliad am daliadau o 31 Mai i 30 Mehefin 2020.

Mae Rheoliad 2(c) yn addasu cymhwysiad Erthygl 22(1) i sicrhau bod y dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno cais am ddyraniad neu gynnydd mewn gwerth hawliadau i daliadau yn cyd-fynd â'r dyddiadau cau diwygiedig. Caiff hwn ei ymestyn o 15 Mai i 15 Mehefin 2020.

<u>Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 641/2014</u>

Mae Rheoliad 3 yn addasu cymhwysiad Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 641/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad 1307/2013 sy'n

sefydlu rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin. Mae'r addasiad yn dileu cyfeiriadau at y Diwrnod Ymadael o Erthygl 8(1) er eglurder.

Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014

Mae Rheoliad 4 yn addasu cymhwysiad Rheoliadau’r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014") ar gyfer blwyddyn hawlio 2020. Caiff cymhwysiad rheoliad 3 o Reoliadau 2014 ei ddiwygio er mwyn ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno SAF, cais am gymorth neu hawliad am daliad i Weinidogion Cymru o 15 Mai i 15 Mehefin 2020

Rheoliadau Cynlluniau Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015

Mae Rheoliad 5 yn addasu cymhwysiad Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015") ar gyfer y flwyddyn hawlio 2020. Mae Rheoliadau 2015 yn gwneud darpariaethau yng nghyswllt gweinyddu Rheoliad (UE) Rhif 1307/2013.

Mae Rheoliad 5(a) yn addasu cymhwysiad rheoliad 10(1) o Reoliadau 2015 i gysoni'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau i ddyrannu hawliau i daliad dan gynllun y taliad sylfaenol â'r dyddiadau diwygiedig yn Rheoliad 809/2014.

Mae Rheoliad 5(b) yn addasu cymhwysiad rheoliad 11(3) o Reoliadau 2015 fel bod y dyddiad olaf erbyn pryd y mae'n rhaid i'r trosglwyddwr hawliau talu roi gwybod i Weinidogion Cymru am y trosglwyddiad ar gyfer blwyddyn hawlio 2020 yn cael ei ymestyn o 30 Ebrill i 15 Mai 2020.

## 5. Ymgynghoriad

Nid yw’r offeryn hwn wedi bod yn destun ymgynghori ffurfiol gan fod angen i ni gyflwyno'r OS yn gyflym i geisio mynd i'r afael â’r anawsterau y mae ffermwyr yn eu hwynebu o ganlyniad i'r pandemig

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae safbwynt presennol y Rheoliadau dal yr un fath ac nid ydynt yn newid unrhyw bolisi a dyna pam nad oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i gynnal, yn ogystal â'r ffaith bod angen i ni gyflwyno'r OS yn gyflym i geisio mynd i'r afael â’r anawsterau y mae ffermwyr yn eu hwynebu o ganlyniad i'r pandemig.

**Rebecca Evans AC/AM**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref – MA/LG/1274/20

Elin Jones AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

01 Mai 2020

Annwyl Elin,

**Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau i Ffermwyr) (Coronafeirws) (Cymru) 2020**

Yn unol ag adrannau 4(1) a 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y mewnosodwyd gan Atodlen 10, paragraff 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n rhoi gwybod ichi fod yr offeryn statudol hwn wedi ei osod gerbron y Cynulliad ar 30 Ebrill 2020 wedi iddo ddod i rym ar ddechrau'r diwrnod hwnnw ac y daw i rym o fewn 21 o ddiwrnodau o ddyddiad ei osod. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau ynghlwm er gwybodaeth.

Rhaid i ffermwyr sy'n dymuno ymgeisio am Daliadau Uniongyrchol, a Chynlluniau Glastir gyflwyno Ffurflen y Cais Sengl (SAF), erbyn dyddiad sydd wedi'i bennu mewn deddfwriaeth – 15 Mai yw'r dyddiad hwnnw ar hyn o bryd. Mae yna gyfnod hefyd y gall ffermwyr wneud newidiadau i SAF, cais am gymorth neu hawliad am daliad a gyflwynwyd os oes unrhyw wallau neu ddiwygiadau, a hynny heb unrhyw gosb.

O ganlyniad i bandemig COVID-19, mae'r UE wedi cyhoeddi Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (UE) 2020/501 dyddiedig 6 Ebrill 2020 sy'n caniatáu i'r holl Aelod-wladwriaethau (gan gynnwys y DU mewn perthynas â Philer 2 – rhaglenni datblygu gwledig) ddewis ymestyn dyddiadau cau SAF, ceisiadau am gymorth a hawliadau am daliadau i fod un mis yn ddiweddarach i 15 Mehefin ar gyfer flwyddyn hawlio 2020. Mae'r dyddiad ar gyfer diwygio SAF, cais am gymorth neu hawliad am daliad a gyflwynwyd hefyd yn gallu cael ei ddiwygio o 31 Mai i 30 Mehefin. Ystyrir y bydd hynny yn lleihau'r pwysau gweinyddol ar ffermwyr.

Mae Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau i Ffermwyr) (Coronafeirws) (Cymru) 2020 hefyd yn ychwanegu pythefnos i'r cyfnod hysbysu ar gyfer trosglwyddo a phrydlesu. Mae diwygio'r dyddiad cau hwn i 15 Mai o 30 Ebrill yn symud y dyddiad cau trosglwyddo i fod

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

mor hwyr â phosibl i gyd-fynd â'r 15 Mai (y dyddiad y mae'n rhaid i'r tir a ddatganwyd fod ar gael i'r ffermwr), ar gais y rhanddeiliaid.

Roedd angen aros am Reoliadau Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (Diwygiadau Canlyniadol) 2020 ("Rheoliadau 2020") i'w gwneud cyn gwneud yr offeryn hwn i sicrhau eu bod yn cael eu dehongli yn yr un modd. Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud y diwygiadau canlyniadol sy'n ofynnol o ganlyniad i Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 ar sail y DU gyfan. Gwnaed Rheoliadau 2020 ar 27 Ebrill,a osodwyd gerbron Senedd y DU ar 28 Ebrill 2020 a daethant i rym ar 30 Ebrill 2020.

Gwnaethpwyd y Rheoliadau Polisi Amaethyddol Cyffredin (Taliadau i Ffermwyr) (Coronafeirws) (Cymru) 2020 ar 29 Ebrill 2020, a daethant i rym ar ddechrau'r diwrnod ar 30 Ebrill 2020, i sicrhau bod y dyddiadau cyflwyno yn eglur, a chawsant hefyd eu cyflwyno gerbron y Cynulliad ar 30 Ebrill 2020, wedi iddynt ddod i rym.

Oherwydd yr amserlen frys, ni fu amser i gynnal ymgynghoriad ystyrlon neu Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Fodd bynnag, mae Memorandwm Esboniadol wedi ei lunio ac mae wedi'i osod, gyda'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Mae'r Rheoliadau yn darparu amser ychwanegol i ffermwyr a thirfeddianwyr gyflwyno eu ffurflenni hawlio blynyddol, o ganlyniad i geisiadau a wnaed gan gynrychiolwyr o'r diwydiant i ddarparu hyblygrwydd tra bo'r DU yn gweithredu mesurau cadw pellter cymdeithasol oherwydd COVID-19.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AC/AM**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnyd

# SL(5)544 – Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020

## Cefndir a Diben

Gwneir **Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020** ("Rheoliadau 2020") o dan bwerau yn adrannau 94(5), (5A), 95(3), (3A) a 138(7) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998") ac maent yn gwneud diwygiadau i Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005").

Mae Rheoliadau 2020 yn diwygio Rheoliadau 2005 i newid gofynion gweithdrefnol a chyfansoddiadol mewn perthynas ag apelau ar gyfer derbyn i ysgolion mewn ymateb i effaith y coronafeirws (COVID-19) ar y trefniadau ar gyfer yr apelau hyn.

Mewn amgylchiadau penodol gall paneli apelio ystyried apelau fel panel o ddau (yn hytrach na thri), gellir cynnal gwrandawiadau o bell ar sail cyflwyniadau ysgrifenedig (yn hytrach na wyneb yn wyneb), a darperir mwy o hyblygrwydd mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer gwneud penderfyniad ynghylch apelau. Mae'n ofynnol i'r panel gael ei gynorthwyo gan glerc hyfforddedig.  At hynny, mae Rheoliadau 2020 yn diwygio'r dyddiadau cau sy'n berthnasol i'r broses apelio fel eu bod yn cyfeirio at ddiwrnodau calendr neu ddyddiad penodol yn hytrach na "diwrnodau ysgol", sef y term a ddefnyddir yn y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion ("y Cod") - gwneir y Cod o dan adran 84 o Ddeddf 1998.

Mae'r gofynion sy'n ymwneud ag apelau derbyn i ysgolion wedi'u hamlinellu yn Rheoliadau 2005 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau 2020) a'r Cod a byddant yn parhau i gael eu hamlinellu yn y mannau hyn.

Mae'r diwygiadau wedi'u gweithredu yn y modd hwn yn hytrach na thrwy ddiwygio'r Cod.  Mae hyn oherwydd y byddai'r weithdrefn ar gyfer diwygio'r Cod, a amlinellir yn Adran 85 Deddf 1998, yn arwain at oedi o ran y rheolau newydd yn dod i rym, a fyddai'n annymunol gan fod eu hangen ar frys.  Bydd y Cod a Rheoliadau 2005 yn parhau i gael eu darllen ochr yn ochr â'i gilydd. Pan fydd Rheoliadau 2020 yn diwygio gweithdrefn a nodir yn y Cod, bydd Rheoliadau 2020 yn cael blaenoriaeth.

Cyhoeddir canllawiau ochr yn ochr â Rheoliadau 2020 i egluro pa reolau sy'n berthnasol o dan yr amgylchiadau perthnasol.  Bydd y Cod yn parhau i fod yn gyflawn a heb ei ddiwygio er mwyn i'r rhai sy'n rhan o'r broses apelau derbyn i ysgolion allu dychwelyd yn hawdd at set glir ac adnabyddus o reolau unwaith y bydd yr achosion o'r coronafeirws (COVID-19) wedi mynd heibio.

Daeth rheoliadau 2020 i rym ar 4 Mai 2020.  Byddant yn berthnasol i'r weithdrefn ar gyfer apelau a gyflwynir rhwng y dyddiad hwn, ond cyn 31 Ionawr 2021, yn ogystal ag apelau sydd eisoes ar y gweill ond nad ydynt wedi dod i ben eto ar yr adeg y daw Rheoliadau 2020 i rym.  Ac eithrio ar gyfer y darpariaethau penodedig hynny a fydd yn parhau i gael effaith mewn amgylchiadau cyfyngedig (gweler rheoliad 3(1)), bydd Rheoliadau 2020 yn dod i ben ar 31 Ionawr 2021. Ar ôl dod i ben, bydd Rheoliadau 2005 wedyn yn berthnasol eto i apelau a gyflwynir o 1 Chwefror 2021 ymlaen, ac i apelau sy'n mynd rhagddynt ar y dyddiad dod i ben ac nad ydynt wedi'u penderfynu gan banel apêl.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Rheol Sefydlog 21.2(iv) - ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn**

Mae Rheoliad 1(2)(b) yn cael effaith ôl-weithredol yn yr ystyr ei fod yn cynnwys apelau a gychwynnwyd cyn i Reoliadau 2020 ddod i rym. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod angen y ddarpariaeth hon fel y gall Rheoliadau 2020 ddod i rym ar unwaith ar 4 Mai 2020, ac i barhau i gynnwys apelau presennol (gweler pwynt Rhinweddau pellach 1. isod).

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y tri phwynt technegol a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion neu bolisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Noda'r Pwyllgor y torrir y rheol 21 diwrnod (h.y. y rheol y dylai 21 diwrnod fod rhwng y dyddiad y gosodir is-ddeddfwriaeth gerbron y Senedd a'r dyddiad y daw'r is-ddeddfwriaeth i rym), a'r esboniad am y torri'r rheol a ddarparwyd gan Rebecca Evans AC, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd, mewn llythyr at y Llywydd, dyddiedig 1 Mai 2020.

Mae'r llythyr yn nodi bod Rheoliadau 2020 yn diwygio dros dro rai gofynion gweithdrefnol a chyfansoddiadol a amlinellir yn Rheoliadau 2005 yn ymwneud â phaneli apelau derbyn i ysgolion tan 31 Ionawr 2021.  Mae'n mynd ymlaen i ddweud:

"Gwneir y newid hwn er mwyn caniatáu i'r apelau hyn barhau i gael eu cynnal er gwaetha'r anawsterau ymarferol sylweddol a achosir gan y mesurau sydd eu hangen i gyfyngu ar ledaeniad y coronafeirws (COVID-19). Mae'r mesurau hyn yn cynnwys y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n cyfyngu ar allu partïon i gyfarfod wyneb yn wyneb, a'r canllawiau ar hunanynysu, sy'n peri anawsterau o ran sicrhau digon o aelodau panel ar gyfer gwrandawiadau apêl."

Mae'n nodi bod Rheoliadau 2020 wedi gwneud "diwygiad untro i Reoliadau 2005" gyda'r nod o roi cymaint o hyblygrwydd â phosibl i'r broses apelio barhau, a thrwy hynny fynd i'r afael â phryderon rhieni ynghylch ble y dylai eu plant fynd i'r ysgol, gan gyfyngu hefyd ar y risg i baneli apelio o ran dal neu ledaenu'r feirws.

Mae'r llythyr yn nodi hefyd, "At hynny, gan fod y rhan fwyaf o apelau derbyn i ysgolion yn cael eu cynnal rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, byddai cydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod yn ei gwneud yn amhosib i'r hyblygrwydd hwn gael ei gyflwyno mewn pryd i'r awdurdod derbyn fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'u gwaith apelau."

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y **Memorandwm Esboniadol** yn nodi gwybodaeth ychwanegol i gefnogi torri'r rheol 21 diwrnod ac, yn benodol, mae'n tynnu sylw at y ffaith bod eisoes ôl-groniad o apelau eilaidd ac y gallai cydymffurfio â'r rheol yn yr achos hwn barlysu'r system apelio am y cyfnod hwnnw. Nodwn hefyd fod y Memorandwm Esboniadol yn cyfeirio at adborth cadarnhaol gan randdeiliaid ar gyfer

y cynigion (gweler paragraff 5.1); yn tynnu sylw at y mesurau diogelwch helaeth sydd wedi'u hymgorffori yn Rheoliadau 2020 i sicrhau bod gan apelyddion ddigon o amser o hyd i apelio, a bod rhybudd o'r newidiadau wedi'i ddarparu i'r sector a rhieni trwy ganllawiau a gyhoeddwyd ar 16 Ebrill 2020 (gan gynnwys adran cwestiynau cyffredin), sef diwrnod cynnig lleoedd ysgolion cynradd.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion neu bolisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Noda'r Pwyllgor fod y Memorandwm Esboniadol yn nodi, "…na fu'n bosibl paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol na Busnes." Mae adran 76(2)(a) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn diffinio asesiad effaith rheoleiddiol fel asesiad o'r costau a'r buddion tebygol o gydymffurfio ag is-ddeddfwriaeth berthnasol yn Nghymru. Mae adran 76(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru lunio cod ymarfer yn nodi eu polisi ynghylch cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol mewn cysylltiad ag is-ddeddfwriaeth berthnasol yng Nghymru. Mae paragraff 4.2 o'r cod yn nodi mai "polisi Gweinidogion Cymru fydd cynnal asesiad effaith rheoleiddiol … gyda'r eithriadau canlynol". Mae'r Pwyllgor yn nodi'r chweched bwled o baragraff 4.2, sy'n ymddangos yn berthnasol o dan yr amgylchiadau presennol ac sy'n nodi nad oes angen asesiad o'r fath, "Lle bo angen rhoi'r is-ddeddfwriaeth Gymreig berthnasol yn ei lle yn ddi-oed i ddelio ag argyfwng (er enghraifft, Clwy'r Traed a'r Genau neu Ffliw Adar)".

Nodwn, fodd bynnag, fod paragraff 6.1 o'r Memorandwm Esboniadol yn nodi, "Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith sylweddol ar fusnesau, elusennau na chyrff gwirfoddol a bydd Rheoliadau Diwygio Trefniadau Apelau 2020 mewn grym am gyfnod dros dro hyd at 31 Ionawr 2020." At hynny, mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod ymgysylltu wedi digwydd gyda rhanddeiliaid, er enghraifft, "Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol ac mae'r hyblygrwydd arfaethedig o ran sut y caiff apelau eu gweinyddu wedi'i groesawu" (paragraff 5.1).

Nodwn hefyd fod Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (gweler paragraff 6.4), ac Asesiad Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (gweler paragraffau 6.5 a 6), wedi'u cynnal gan nodi na fydd effaith andwyol.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion neu bolisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Mae Rheoliad 2(2) yn nodi y bydd Rheoliadau 2020 yn peidio â chael effaith ar 31 Ionawr 2021 yn ddarostyngedig i ddarpariaeth arbed benodol (a nodir yn Rheoliad 3). Mae'r Pwyllgor yn nodi'r cyfiawnhad yn y Memorandwm Esboniadol, yn enwedig ym mharagraff 4.6, am gyfnod cyfan Rheoliadau 2020, "Ystyrir bod hwn yn ddyddiad dod i ben addas oherwydd dylai ganiatáu digon o amser i ddelio â'r holl apelau sy'n berthnasol i blant a fydd yn dechrau mewn ysgolion newydd ar ddechrau blwyddyn academaidd 2020/21 pan fydd nifer yr apelau hynny ar ei anterth. Bydd hefyd yn helpu i ddelio ag apelau a gaiff eu gohirio tan yr hydref, sydd hefyd yn gyfnod prysur o ran apelau sy'n deillio o geisiadau yn ystod y flwyddyn, yn aml ar gyfer grwpiau blwyddyn ar wahân i'r dosbarth derbyn neu flwyddyn 7. Caiff Rheoliadau Diwygio Trefniadau Apelau 2020 eu hadolygu'n barhaus yn ystod y cyfnod y byddant mewn grym."

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Ni nodwyd unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**11 Mai 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 479 (Cy. 110)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005") ar gyfer apelau sy'n cael eu dwyn o dan adrannau 94 a 95 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ac a gyflwynir—

(a) ar neu ar ôl 4 Mai 2020 ond ar neu cyn 31 Ionawr 2021, neu

(b) cyn 4 Mai 2020 ond pan na fo'r apêl wedi ei phenderfynu'n llawn ar neu cyn y dyddiad hwnnw.

Mae rheoliad 3(1) yn darparu y bydd rheoliadau 5 i 12 yn parhau i gael effaith ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i ben o dan amgylchiadau cyfyngedig sydd wedi eu rhagnodi. Fel arall, bydd y Rheoliadau hyn yn dod i ben ar 31 Ionawr 2021, fel y darperir ar ei gyfer gan reoliad 2(2). Mae rheoliad 4 yn nodi, pan fyddant yn dod i ben, y bydd Rheoliadau 2005 wedyn yn gymwys eto i apelau a gyflwynir o 1 Chwefror 2021 ymlaen ac i apelau sy'n parhau ar y dyddiad dod i ben ac nad ydynt wedi eu penderfynu gan banel apêl.

Mae rheoliad 6 yn mewnosod diffiniad newydd yn rheoliad 2(1) o Reoliadau 2005: yr "eithriad coronafeirws". Mae'r eithriad hwnnw yn gweithredu mewn dwy brif ffordd o dan y Rheoliadau hyn—

(a) pan na fo'n rhesymol ymarferol i gorff llywodraethu neu awdurdod lleol gydymffurfio â threfniadau'r apêl ym mharagraff 1 o Atodlen 1 am reswm sy'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws, mae paragraff 1 o Atodlen newydd 3 (a fewnosodir gan reoliad 12) yn gymwys yn lle hynny er mwyn caniatáu i banelau a chanddynt ddau aelod benderfynu apelau (gweler rheoliad 7);

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) pan na fo'n rhesymol ymarferol i banel apêl derbyn gydymffurfio â'r gofynion gweithdrefnol ym mharagraff 1(6) o Atodlen 2 neu ofynion y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion ynghylch bod yn bresennol mewn apelau am reswm sy'n ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws, mae paragraff 2 o Atodlen newydd 3 yn gymwys i alluogi panelau apêl i gynnal gwrandawiadau drwy fynediad o bell neu i benderfynu apelau ar sail yr wybodaeth ysgrifenedig a ddarperir (gweler rheoliad 8).

Mae paragraffau 3 i 5 o Atodlen newydd 3 yn gwneud darpariaeth i linellau amser amrywiol fod yn gymwys mewn cysylltiad ag apelau i sicrhau y gall yr awdurdodau derbyn a'r cyrff llywodraethu osod llinellau amser rhesymol yn ystod cyfnod gweithredu'r Rheoliadau hyn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2020 Rhif 479 (Cy. 110)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *30 Ebrill 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *1 Mai 2020* |
| *Yn dod i rym* | *4 Mai 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 94(5) a (5A), 95(3) a (3A) a 138(7) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**) yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.—**(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020 a deuant i rym ar 4 Mai 2020.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i apelau y mae Rheoliadau 2005(**3**) yn gymwys iddynt ac a gyflwynir—

(a) ar neu ar ôl 4 Mai 2020 ond ar neu cyn 31 Ionawr 2021;

---

(**1**) 1998 p. 31; *gweler* adran 142(1) am y diffiniadau o "the Assembly", "prescribed" a "Regulations". Mewnosodwyd is-adran (5A) yn adran 94 gan adran 50 o Ddeddf Addysg 2002 (p. 32). Mewnosodwyd is-adran (3A) yn adran 95 gan baragraff 9 o Atodlen 4 i Ddeddf Addysg 2002.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan yr adrannau hyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) O.S. 2005/1398 (Cy. 112), a ddiwygiwyd gan O.S. 2009/823 (Cy. 73), O.S. 2010/1142 (Cy. 101) ac O.S. 2013/2535 (Cy. 250).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) cyn 4 Mai 2020 ond pan na fo'r apêl wedi ei phenderfynu'n llawn ar neu cyn 4 Mai 2020.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2005" yw Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005.

**Adolygu rheoliadau 5 i 12 a pha bryd y deuant i ben**

**2.**—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu effeithiolrwydd rheoliadau 5 i 12 yn ystod y cyfnod y maent yn cael effaith.

(2) Yn ddarostyngedig i reoliad 3, mae rheoliadau 5 i 12 yn peidio â chael effaith ar 31 Ionawr 2021.

**Darpariaethau arbed**

**3.**—(1) Mae rheoliadau 5 i 12 yn parhau i gael effaith ar gyfer apelau y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddynt ac nad ydynt wedi eu penderfynu cyn i'r Rheoliadau hyn beidio â chael effaith yn y ffyrdd a ganlyn—

(a) pan fo panel apêl yn cael ei gyfansoddi i ystyried yr apêl fel panel a chanddo ddau aelod yn unol â pharagraff 1(1) o Atodlen 3 i Reoliadau 2005, caiff barhau i benderfynu'r apêl fel y'i cyfansoddir felly;

(b) pan fo panel apêl wedi dechrau penderfynu apêl ar sail yr wybodaeth ysgrifenedig a gyflwynir yn unol â pharagraff 2(2) o Atodlen 3 i Reoliadau 2005, caiff barhau i benderfynu'r apêl ar y sail honno;

(c) mae unrhyw derfynau amser a ragnodir ym mharagraffau 3 i 5 o Atodlen 3 i Reoliadau 2005, neu unrhyw derfynau amser a benderfynir o dan y paragraffau hynny, yn parhau i fod yn gymwys.

(2) Nid yw'r ffaith bod y Rheoliadau hyn wedi dod i ben o dan reoliad 2(2) yn effeithio ar ddilysrwydd unrhyw beth a wneir yn unol â'r Rheoliadau hyn cyn y dyddiad dod i ben.

**4.** Yn ddarostyngedig i reoliad 3, unwaith y bydd rheoliadau 5 i 12 yn peidio â chael effaith yn unol â rheoliad 2(2), mae Rheoliadau 2005 yn parhau i fod yn gymwys fel pe na bai'r diwygiadau hyn wedi eu gwneud i apelau a gyflwynir—

(a) ar neu ar ôl 1 Chwefror 2021;

(b) ar neu cyn 31 Ionawr 2021 ac nad ydynt wedi eu penderfynu.

**Diwygio Rheoliadau 2005**

**5.** Mae Rheoliadau 2005 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**6.** Yn rheoliad 2(1) (dehongli), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"mae i "yr awdurdod derbyn" yr un ystyr ag a roddir i "the admisssion authority" yn adran 88(1)(a) a (b);";

"ystyr "y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion" ("*the School Admission Appeals Code*") yw'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion, sef y cod a ddyroddir o dan adran 84 sy'n ymwneud ag apelau derbyn;";

"ystyr "coronafeirws" ("*coronavirus*") yw coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-Cov-2);";

""eithriad y coronafeirws" ("*coronavirus exception*") yw amod sy'n gymwys, am reswm sy'n gysylltiedig â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws—

(a) pan na fo'n rhesymol ymarferol i awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir gydymffurfio â gofynion paragraff 1(1) a (2) neu 2(1) a (2) o Atodlen 1 (yn ôl y digwydd), ("rheswm y cyfansoddiad"), neu

(b) pan na fo'n rhesymol ymarferol i banel apêl gydymffurfio â'r gofyniad ym mharagraff 1(6) o Atodlen 2, neu baragraffau 4.13, 4.14 neu 7.5 o'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion i ganiatáu i apelyddion neu gynrychiolwyr awdurdodau lleol neu gyrff llywodraethu ymddangos yn bersonol ("rheswm yr apêl yn bersonol);";

"ystyr "mynediad o bell" ("*remote access*") yw mynediad at wrandawiad apêl i alluogi'r rheini nad ydynt i gyd yn bresennol gyda'i gilydd yn yr un man i fynd i'r gwrandawiad neu gymryd rhan ynddo ar yr un pryd drwy ddulliau electronig, gan gynnwys drwy gyswllt awdio byw a chyswllt fideo byw;";

"ystyr "penderfyniad derbyn" ("*admission decision*") yw penderfyniad y cyfeirir ato yn adran 94(1) i (2A) sy'n gwrthod derbyn plentyn i ysgol neu sy'n gwrthod mynediad iddo at chweched dosbarth neu o ran yr ysgol y mae addysg i'w darparu ar gyfer plentyn ynddi."

**7.** Yn rheoliad 3 (cyfansoddiad panelau apêl), yn lle "Atodlen 1" rhodder "Atodlen 1 neu, pan fo rheswm cyfansoddiad eithriad y coronafeirws yn gymwys, y paragraffau perthnasol yn Atodlen 1, yn ddarostyngedig i baragraff 1 o Atodlen 3".

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**8.** Yn rheoliad 5 (y weithdrefn apelio), yn lle "Atodlen 2" rhodder "Atodlen 2 neu, pan fo rheswm apêl yn bersonol eithriad y coronafeirws yn gymwys, y paragraffau perthnasol yn Atodlen 2, yn ddarostyngedig i baragraff 2 o Atodlen 3".

**9.** Ar ôl rheoliad 8 (indemnio) mewnosoder—

"**Terfynau amser**

**9.**—(1) Mae paragraffau 3 a 4 o Atodlen 3 yn effeithiol at ddibenion penderfynu'r amserlen mewn cysylltiad ag apêl yn unol â threfniadau a wneir gan awdurdod lleol neu gorff llywodraethu ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a gynorthwyir o dan adran 94.

(2) Mae paragraff 5 o Atodlen 3 yn effeithiol at ddibenion penderfynu'r amserlen mewn perthynas ag apêl yn unol â threfniadau a wneir gan awdurdod lleol o dan adran 95."

**10.** Yn Atodlen 1 (cyfansoddiad panelau apêl), o flaen paragraff 1, mewnosoder—

"(A1) Mae paragraffau 1(1) a (2) a 2(1) a (2) yn gymwys yn ddarostyngedig i baragraff 1 o Atodlen 3."

**11.** Yn Atodlen 2 (gweithdrefn apêl), o flaen paragraff 1, mewnosoder—

"(A1) Mae paragraff 1 yn gymwys yn ddarostyngedig i baragraffau 2 i 4 o Atodlen 3 ac mae paragraff 2 yn gymwys yn ddarostyngedig i baragraffau 2 a 5 o Atodlen 3."

**12.** Ar ôl Atodlen 2 mewnosoder—

## "ATODLEN 3 Rheoliadau 3, 5 a 9

## Diwygiadau dros dro i Gyfansoddiad Panelau Apêl a Gweithdrefn Apêl

**Trefniadau a wneir gan awdurdod lleol neu gorff llywodraethu: pan fydd eithriad y coronafeirws yn gymwys**

**1**.—(1) Pan fo rhaid i un neu ragor o aelodau o banel apêl dynnu'n ôl ei aelodaeth o'r panel, caiff y panel apêl barhau i ystyried a phenderfynu'r apêl ar yr amod bod dau aelod o leiaf yn weddill ar y panel, ni waeth pa un a yw'r aelodau hynny yn bodloni gofynion paragraff 1(2) neu 2(2) (yn ôl y digwydd) o Atodlen 1.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(2) Pan fo is-baragraff (1) yn gymwys, a bo'r aelod sy'n tynnu'n ôl yn gadeirydd y panel, rhaid i'r awdurdod derbyn benodi (neu drefnu i glerc y panel apêl benodi) un o aelodau'r panel sy'n weddill yn gadeirydd.

**Gwrandawiadau apêl**

**2.**—(1) Caiff panel apêl benderfynu cynnal gwrandawiad apêl gan ddefnyddio mynediad o bell ar yr amod—

(a) bod y partïon yn gallu cyflwyno eu hachos yn llawn,

(b) bod gan bob cyfranogwr fynediad at y dulliau electronig er mwyn caniatáu iddo glywed a chael ei glywed, a gweld a chael ei weld (pan ddefnyddir cyswllt fideo byw), drwy gydol y gwrandawiad apêl, ac

(c) bod y panel yn ystyried bod modd gwrando ar yr apêl yn deg ac yn dryloyw.

(2) Pan na fo unrhyw un neu ragor o'r amodau a ragnodir yn is-baragraff (1)(a) i (c) wedi ei fodloni, caiff panel apêl wneud ei benderfyniad ar yr apêl yn seiliedig ar yr wybodaeth ysgrifenedig a gyflwynir.

(3) Pan fo is-baragraff (2) yn gymwys, rhaid i'r panel apêl sicrhau bod y partïon yn gallu cyflwyno eu hachos yn llawn, er mwyn i'r panel wneud penderfyniad ar yr apêl sy'n deg ac yn dryloyw.

**Terfynau amser**

**3.**—(1) Pan fo'r awdurdod derbyn neu'r awdurdod lleol yn anfon penderfyniad derbyn, rhaid i'r dyddiad cau ar gyfer apêl a bennir yn y penderfyniad derbyn hwnnw—

(a) bod o leiaf 28 o ddiwrnodau o'r dyddiad hysbysu am y penderfyniad derbyn, a

(b) cael ei fynegi drwy gyfeirio at ddyddiad penodedig neu nifer o ddiwrnodau calendr.

(2) Mewn cysylltiad â phenderfyniad derbyn a anfonir ar ôl 28 Chwefror 2020 sy'n cynnwys dyddiad cau ar gyfer apêl nad yw yn unol â gofynion is-baragraff (1)(a) neu (b), rhaid i'r awdurdod derbyn adolygu'r dyddiad cau presennol ar gyfer yr apêl a, phan fo'r amod yn is-baragraff (3) wedi ei fodloni, bennu dyddiad cau newydd ar gyfer yr apêl, a rhaid i hwnnw—

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) bod o leiaf 28 o ddiwrnodau o'r dyddiad hysbysu am y dyddiad cau newydd, a

(b) cael ei fynegi drwy gyfeirio at ddyddiad penodedig neu nifer o ddiwrnodau calendr.

(3) Yr amod yw—

(a) nad oes unrhyw apêl eisoes wedi ei chyflwyno mewn ymateb i'r penderfyniad derbyn,

(b) bod y dyddiad cau presennol yn cyfeirio at ddiwrnodau ysgol, neu fod yr awdurdod derbyn fel arall yn ystyried bod y dyddiad cau presennol yn aneglur o dan yr holl amgylchiadau, ac

(c) nad yw'r dyddiad cau presennol eisoes wedi dod i ben.

(4) Pan fo dyddiad cau newydd wedi ei bennu yn unol ag is-baragraff (2), rhaid anfon hysbysiad o'r dyddiad cau newydd at dderbynnydd y penderfyniad derbyn gwreiddiol o fewn 28 o ddiwrnodau i 4 Mai 2020 neu 7 niwrnod i ddyddiad penderfyniad derbyn nad yw'n cydymffurfio â gofynion is-baragraff (1) pa un bynnag yw'r diweddaraf.

(5) Rhaid i'r hysbysiad o'r dyddiad cau newydd gael ei anfon gan—

(a) yr awdurdod derbyn os anfonodd yr awdurdod derbyn hwnnw y penderfyniad derbyn perthnasol, neu

(b) yr awdurdod lleol os anfonodd yr awdurdod hwnnw y penderfyniad derbyn perthnasol ar ran awdurdod derbyn arall.

(6) Dim ond unwaith bod yr awdurdod derbyn perthnasol wedi rhoi gwybod i'r awdurdod lleol am y dyddiad cau newydd y mae'r gofyniad yn is-baragraff (5)(b) yn gymwys.

**4.**—(1) Rhaid i'r awdurdod derbyn ddarparu i apelyddion o leiaf 14 o ddiwrnodau o rybudd ysgrifenedig o wrandawiad apêl.

(2) Caiff yr awdurdod derbyn bennu dyddiadau cau rhesymol newydd neu ddiwygiedig er mwyn—

(a) i apelydd gyflwyno tystiolaeth ychwanegol,

(b) i'r awdurdod derbyn gyflwyno ei dystiolaeth, ac

(c) i'r clerc anfon papurau apêl perthnasol at y panel apêl a'r partïon.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(3) Rhaid i banel apêl anfon llythyrau penderfyniad ar apelau at y partïon o fewn 7 niwrnod i'r gwrandawiad, neu i derfynu penderfyniad yr apêl, pan fo'n bosibl.

(4) Rhaid i banel apêl wrando ar bob apel sydd wedi ei chyflwyno, pa un ai mewn pryd ai peidio, a'i phenderfynu, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

**5.**—(1) Pan fo corff llywodraethu ysgol yn cael penderfyniad ysgrifenedig i dderbyn i'r ysgol blentyn y mae adran 87(2) yn gymwys iddo ar yr adeg pan wneir y penderfyniad, rhaid i unrhyw apêl gael ei gwneud o fewn 21 o ddiwrnodau i—

(a) y dyddiad hysbysu am y penderfyniad pan fo'r dyddiad hwnnw ar neu ar ôl 4 Mai 2020, neu

(b) 4 Mai 2020—

(i) pan fo hysbysiad o'r penderfyniad wedi ei roi cyn 4 Mai 2020,

(ii) pan na fo unrhyw apêl wedi ei chyflwyno mewn ymateb i'r penderfyniad cyn 4 Mai 2020, a

(iii) pan na fo dyddiad cau apêl presennol sy'n berthnasol i'r penderfyniad eisoes wedi dod i ben cyn 4 Mai 2020.

(2) Rhaid cynnal pob gwrandawiad apêl y mae is-baragraff (1) yn gymwys iddo, a rhaid penderfynu apelau, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol."

*Kirsty Williams*
Y Gweinidog Addysg, un o Weinidogion Cymru
30 Ebrill 2020

**Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

## Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020.

Kirsty Williams
Y Gweinidog Addysg
01 Mai 2020

## 1. Disgrifiad

1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020 (“Rheoliadau Diwygio Trefniadau Apelau 2020”) yn diwygio gofynion gweithdrefnol a chyfansoddiadol penodol a bennir yn Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 sy'n gysylltiedig â phaneli apelau derbyn i ysgolion tan 31 Ionawr 2021.

1.2 Gwneir y newid hwn er mwyn galluogi'r apelau hyn i barhau i gael eu cynnal er gwaethaf anawsterau ymarferol sylweddol a achosir gan fesurau sydd eu hangen i gyfyngu ar ledaeniad y coronafeirws (COVID-19). Ymhlith y mesurau hynny mae'r canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n cyfyngu ar y gallu i bartïon gwrdd yn bersonol, a'r canllawiau ar hunanynysu, sy'n achosi anawsterau o ran sicrhau digon o aelodau panel ar gyfer gwrandawiadau apêl.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

2.1 Yng ngoleuni'r argyfwng iechyd cyhoeddus presennol, ystyrir y dylai'r mesur y rhoddir grym iddo yn y Rheoliadau hyn gael ei roi ar waith ar fyrder. O ganlyniad, byddant yn dod i rym ddiwrnod ar ôl iddynt gael eu gwneud, ac ni fyddant yn dilyn y confensiwn y dylai o leiaf 21 diwrnod fynd heibio rhwng y dyddiad y caiff y Rheoliadau eu gosod a'r dyddiad y dônt i rym.

2.2 Mae hyn yn angenrheidiol o ystyried yr angen brys i ddiwygio gofynion cyfansoddiadol a gweithdrefnol ar gyfer paneli apelau derbyn mewn ymateb i effeithiau ymarferol sylweddol y coronafeirws (COVID-19). Misoedd Ebrill i Fehefin yw'r misoedd prysuraf i baneli apêl gan fod nifer sylweddol o apelau'n cael eu cyflwyno yn ystod y cyfnod hwn mewn perthynas â chynigion o leoedd mewn ysgolion a wnaed i blant y disgwylir iddynt ddechrau ysgol newydd ym mis Medi 2020. Roedd yn ofynnol i lythyrau cynnig ar gyfer ceisiadau am leoedd mewn ysgolion uwchradd gael eu gwneud ar 1 Mawrth (neu'r diwrnod gwaith nesaf), ac mae yna eisoes ôl-groniad o apelau uwchradd. Mae Diwrnod Cynnig Ysgolion Cynradd, sef 16 Ebrill, wedi ychwanegu at nifer yr apelau y mae angen eu cynnal cyn mis Medi (neu cyn gynted â phosibl ar ddechrau'r flwyddyn academaidd). Dyma'r rheswm pam y mae'n arbennig o bwysig newid y terfynau amser a diwygio rheoliadau yn ddi-oed er mwyn helpu paneli apêl i ymdopi â'r cynnydd hwn yn eu llwyth gwaith. Mae effaith y coronafeirws (COVID-19) a'r gofynion cysylltiedig o ran cadw pellter cymdeithasol yn cael effaith andwyol sylweddol ar argaeledd aelodau paneli apêl a phobl eraill sy'n ymwneud â'r gwaith o weinyddu apelau, ac mae gwrandawiadau apêl wyneb yn wyneb wedi cael eu gwahardd am y tro.

2.3 Mae Diwrnod Cynnig Ysgolion Cynradd, sef 16 Ebrill, wedi ychwanegu at nifer yr apelau y mae angen eu cynnal cyn mis Medi (neu cyn gynted â

phosibl ar ddechrau'r flwyddyn academaidd). Dyna pam mae'n arbennig o bwysig ailalinio'r terfynau amser a diwygio'r gofynion yn ddi-oed er mwyn helpu paneli apelau i fynd drwy'r llwyth busnes yn y cyfnod prysur hwn. Mae effaith y coronafeirws (COVID-19) a'r gofynion i gadw pellter cymdeithasol yn amharu'n sylweddol ar nifer yr aelodau o'r paneli apelau sydd ar gael ar unwaith, a'r bobl eraill sydd ar gael i weinyddu gwaith yr apelau, i'r graddau bod gwrandawiadau apelau wyneb yn wyneb wedi'u gwahardd.

2.4 Pe bai Rheoliadau Diwygio Apelau 2020 yn cydymffurfio â'r rheol 21 diwrnod, mae'n debygol y byddai'r system apelio'n cael ei hatal am y cyfnod hwnnw gan na ellir cydymffurfio â nifer o'r gofynion presennol o ganlyniad i'r coronafeirws (COVID-19), a fydd yn arwain at oedi ychwanegol annymunol i apelwyr sy'n debygol o fod yn awyddus i ddatrys eu hapelau mewn pryd i'w plant ddechrau ysgol newydd ym mis Medi 2020 (neu gyda chyn lleied o oedi â phosibl).

2.5 Ni fu'n bosibl gwneud y rheoliadau hyn yn gynt. Ar 18 Mawrth, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y dylai ysgolion ond barhau ar agor i blant agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol yn unig o ddiwedd y diwrnod ysgol ddydd Gwener 20 Mawrth ymlaen. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar gadw pellter cymdeithasol ar 16 Mawrth, cyn cyflwyno rheolau 'aros gartref' ar 23 Mawrth. Ni allai swyddogion asesu maint y cyfyngiadau symud na'u heffaith ar apelau derbyn yn syth, ac roedd angen iddynt ymgynghori â'r sector er mwyn deall yr effaith ar Awdurdodau Derbyn a'r anawsterau ymarferol y byddent yn eu hwynebu wrth weinyddu eu hapelau.

2.6 Gwyddom o adborth gan randdeiliaid y bydd y rhai sy'n gweithio i ddarparu'r apelau hyn yn croesawu'r ffaith y daw'r rheolau diwygio hyn i rym yn gyflym. Bydd y trefniadau newydd hefyd yn cael eu croesawu gan rieni a fydd yn parhau i gael yr hawl i apelio os na fyddant yn fodlon ar yr ysgol a gynigiwyd iddynt. Mae mesurau diogelu wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Diwygio Trefniadau Apelau 2020 er mwyn sicrhau y bydd apelwyr yn cael digon o amser a rhybudd i gyflwyno apelau o hyd, ac y bydd eu hapelau yn parhau i gael eu clywed yn deg, cyn gynted â phosibl o dan yr amgylchiadau, ac yn unol â gofynion cyfiawnder naturiol.

2.7 Er mwyn sicrhau bod y sector a rhieni yn cael eu hysbysu am y newidiadau hyn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar 16 Ebrill, sef Diwrnod Cynnig Ysgolion Cynradd, yn egluro'r newidiadau yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu gwneud ac yn hysbysu y byddai'r rheoliadau hyn yn cael eu cyflwyno ac yn dod i rym cyn gynted â phosibl. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y coronafeirws (COVID-19) i'r sector hefyd.

**3. Cefndir deddfwriaethol**

3.1 Gwneir y Rheoliadau hyn o dan bwerau yn adrannau 94(5), (5A), 95(3), (3A) a 138(7) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998"), ac maent yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau

Derbyn) (Cymru) 2005 (O.S. 2005/1398 (Cy. 112)) (“Rheoliadau 2005”). Maent yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad negyddol.”

3.2 Mae Rheoliadau Diwygio Trefniadau Apelau 2020 yn diwygio Rheoliadau 2005 er mwyn newid gofynion gweithdrefnol a chyfansoddiadol mewn perthynas ag apelau derbyn i ysgolion mewn ymateb i effaith y coronafeirws ar drefniadau apelau derbyn ysgolion.

3.3 Mae gofynion yn ymwneud ag apelau derbyn i ysgolion wedi'u nodi yn Rheoliadau 2005 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Diwygio Apelau 2020) a'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion, a byddant yn parhau felly. Gwneir y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion o dan adran 85 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.

3.4 Mae'r diwygiadau i'r rheolau gweithdrefnol a chyfansoddiadol sy'n ymwneud â phaneli apelau derbyn i ysgolion wedi'u rhoi ar waith drwy rinwedd Rheoliadau Diwygio Trefniadau Apelau 2020 o dan adrannau 94(5) a (5A), 95(3) a (3A) a 138(7) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn hytrach nag unrhyw ddiwygiad i'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion. Y rheswm dros hyn yw y byddai'r weithdrefn ar gyfer diwygio'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion a bennir yn adran 85 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn gofyn am oedi cyn i'r rheolau gweithdrefnol a chyfansoddiadol newydd ddod i rym, a fyddai'n annymunol o ganlyniad i'w natur frys. Bydd y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion a Rheoliadau 2005 yn parhau i gael eu darllen ochr yn ochr â'i gilydd. Lle mae Rheoliadau Diwygio Trefniadau Apelau 2020 yn diwygio gweithdrefn a bennir yn y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion, rhoddir blaenoriaeth i Reoliadau Diwygio Apelau 2020.

3.5 Caiff canllawiau eu cyhoeddi ochr yn ochr â Rheoliadau Diwygio Trefniadau Apelau 2020 er mwyn sicrhau y gall y rhai sy'n ymwneud ag apelau derbyn i ysgolion ddeall yn glir pa reolau i'w cymhwyso yn yr amgylchiadau perthnasol. O ystyried natur dros dro y rheolau gweithdrefnol a chyfansoddiadol diwygiedig, ystyrir hefyd ei bod yn addas i'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion barhau fel y mae a heb ei ddiwygio er mwyn galluogi'r rhai sy'n ymwneud ag apelau derbyn i ysgolion ddychwelyd at gyfres glir a chyfarwydd o reolau pan fydd pandemig y coronafeirws COVID-19 drosodd.

3.6 Daw Rheoliadau Apelau Derbyn 2020 i rym ar 4 Mai 2020. Byddant yn gymwys i'r weithdrefn ar gyfer apelau a gyflwynir rhwng y dyddiad hwn, ond cyn 31 Ionawr 2020, yn ogystal ag apelau sydd eisoes yn mynd rhagddynt ond nad ydynt eto wedi dod i ben ar y dyddiad y daw'r rheoliadau i rym.

3.7 Mae Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb ac Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant wedi’u cynnal wrth lunio Rheoliadau Diwygio Trefniadau Apelau 2020. Caiff yr Asesiadau Effaith a’r Rheoliadau eu hadolygu’n barhaus yn ystod y cyfnod tra byddant yn weithredol.

## 4. Diben ac effaith fwriadedig y ddeddfwriaeth

4.1 Awdurdodau lleol yw'r awdurdodau derbyn ar gyfer ysgolion cymunedol a'r corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac ysgolion sefydledig. Awdurdod derbyn sy'n gyfrifol am bennu a chymhwyso trefniadau derbyn ysgol. Maent yn pryderu y bydd pandemig y coronafeirws yn ei gwneud yn amhosibl bodloni'r gofynion gweithdrefnol a chyfansoddiadol o ran apelau derbyn a bennir yn y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion a Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005.

4.2 Er nad oes dim i atal apelau derbyn rhag cael eu cynnal ar ffurf rithwir yn ôl pob golwg, mae'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion wedi'i lunio ar sail y disgwyliad y bydd apelau'n cael eu cynnal yn bersonol, gyda phob parti ac aelod o'r panel yn bresennol yn gorfforol. Bydd cyfyngiadau Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ymwneud â chadw pellter cymdeithasol a hunanynysu yn cyfyngu ar argaeledd corfforol aelodau'r panel. Ar hyn o bryd mae'n ofynnol i bob panel gynnwys tri aelod o'r panel apêl ac ni all yr apêl fynd yn ei blaen heb banel o dri. Mae nifer o awdurdodau lleol yn cynnal nifer o baneli ar yr un pryd dros fisoedd yr haf er mwyn rheoli nifer uchel yr apelau. Mae'r ffaith y gall rhai ysgolion fod wedi cau dros dro (neu y gallant gau yn y dyfodol) hefyd wedi effeithio ar effeithiolrwydd y terfynau amser a bennir yn y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion.

4.3 Mae'n bwysig bod y rhieni hynny sy'n anfodlon ar yr ysgol y mae eu plentyn wedi cael cynnig lle ynddi yn cael yr hawl i apelio pan fydd angen iddynt wneud hynny. Mae tystiolaeth anecdotaidd gan awdurdodau lleol yn awgrymu bod y mwyafrif o'r holl apelau'n cael eu cynnal rhwng mis Ebrill a chanol mis Gorffennaf. Ni fyddai gohirio pob apêl tan yr hydref neu hyd yn oed yn hwyrach yn deg i rieni na phlant y gall fod yn rhaid iddynt ddechrau mewn un ysgol ac yna symud i un arall os caiff eu hapêl ei chadarnhau.

4.4 Mae Rheoliadau Diwygio Trefniadau Apelau 2020 yn cyflwyno rhywfaint o hyblygrwydd cyfansoddiadol a gweithdrefnol sy'n caniatáu, mewn rhai amgylchiadau, i baneli apêl ystyried apelau fel panel o ddau (yn hytrach na thri) ac i wrandawiadau gael eu cynnal o bell ar sail cyflwyniadau ysgrifenedig (yn hytrach nag yn bersonol), ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd mewn perthynas â'r terfyn amser ar gyfer penderfynu ar apelau. Bydd hyn yn cefnogi hawliau rhieni, awdurdodau derbyn a phaneli apêl ac yn cynnal rhai gofynion i ddiogelu tegwch gweithdrefnol a chyfiawnder naturiol ar yr un pryd (gan gynnwys cynnal y gofyniad i'r panel gael ei gefnogi gan glerc hyfforddedig). Bydd hyn yn galluogi awdurdodau derbyn i barhau i ddelio'n effeithiol ac yn deg â phaneli derbyn ysgolion lle nad yw'n rhesymol ymarferol iddynt gydymffurfio â'r gofynion presennol o ganlyniad i bandemig y coronafeirws (COVID-19).

4.5 Yn ogystal, mae Rheoliadau Diwygio Trefniadau Apelau 2020 yn diwygio'r terfynau amser sy'n berthnasol i'r broses apelio fel eu bod yn cyfeirio at ddiwrnodau calendr neu ddyddiad penodol yn hytrach na "diwrnodau ysgol" (sef y term a ddefnyddir yn y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion). Bu angen gwneud hyn yn sgîl y ffaith y gall fod lefelau gwahanol ac annisgwyl o gau ysgolion o ganlyniad i'r coronafeirws (COVID-19). Efallai na all ysgolion gynnig rhagfynegiadau clir o ran pryd y byddant ar agor

nac fel arall. Mae'n bosibl y bydd yn anodd i rieni ac awdurdodau derbyn gael darlun clir o hyn yn ymarferol, a allai arwain at ansicrwydd ynglŷn ag union ddyddiadau terfynau amser. At hynny, os bydd ysgol wedi cau, mae'n bosibl y caiff y broses apelio ei gohirio'n annymunol am y cyfnod y bydd yr ysgol ar gau. Mae'r effeithiau hyn yn rhai eithriadol, ac ni fu modd eu rhagweld.

4.6 Bydd y rheoliadau hyn mewn grym am gyfnod penodol o amser, gan ddod i ben ar 31 Ionawr 2021. Ystyrir bod hwn yn ddyddiad dod i ben addas oherwydd dylai ganiatáu digon o amser i ddelio â'r holl apelau sy'n berthnasol i blant a fydd yn dechrau mewn ysgolion newydd ar ddechrau blwyddyn academaidd 2020/21 pan fydd nifer yr apelau hynny ar ei anterth. Bydd hefyd yn helpu i ddelio ag apelau a gaiff eu gohirio tan yr hydref, sydd hefyd yn gyfnod prysur o ran apelau sy'n deillio o geisiadau yn ystod y flwyddyn, yn aml ar gyfer grwpiau blwyddyn ar wahân i'r dosbarth derbyn neu flwyddyn 7. Caiff Rheoliadau Diwygio Trefniadau Apelau 2020 eu hadolygu'n barhaus yn ystod y cyfnod y byddant mewn grym.

**5. Ymgynghori**

5.1 Nid oes unrhyw ofyniad statudol i ni ymgynghori ynghylch Rheoliadau Diwygio Trefniadau Apelau 2020. Fodd bynnag, dros y cyfnod o dair wythnos cyn cyflwyno Rheoliadau Diwygio Trefniadau Apelau 2020, rydym wedi ymgysylltu â nifer o randdeiliaid, gan gynnwys grŵp awdurdodau derbyn ysgolion Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob awdurdod lleol yng Nghymru ac awdurdodau esgobaethol ynghyd â nifer o swyddogion awdurdodau lleol unigol sy'n gyfrifol am apelau. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol ac mae'r hyblygrwydd arfaethedig o ran sut y caiff apelau eu gweinyddu wedi'i groesawu.

5.2 Cafodd datganiad ei gyflwyno i bartïon â diddordeb a'i gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ar 16 Ebrill 2020, sef Diwrnod Cynnig Ysgolion Cynradd. Roedd hwn yn nodi'r prif gynigion ac yn cynnwys adran cwestiynau cyffredin. Bu'r cyhoeddiad hwn yn gymorth i awdurdodau lleol ac awdurdodau derbyn gynghori rhieni ar eu proses arfaethedig o ymdrin ag apelau derbyn.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

6.1 Mae natur frys yr offeryn yn golygu na fu'n bosibl paratoi Asesiad Effaith Rheoleiddiol na Busnes. Ni ragwelir y bydd unrhyw effaith sylweddol ar fusnesau, elusennau na chyrff gwirfoddol a bydd Rheoliadau Diwygio Trefniadau Apelau 2020 mewn grym am gyfnod dros dro hyd at 31 Ionawr 2020.

6.2 Ni fydd unrhyw effaith, neu unrhyw effaith sylweddol, ar fusnesau, elusennau na chyrff gwirfoddol. Bydd yr effaith ar y sector cyhoeddus i'w gweld ar ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth, gan gynnwys awdurdodau

lleol a chyrff llywodraethu ysgolion i'r graddau bod y cyrff hyn yn gyfrifol am baneli apêl. O ganlyniad i'r rheoliadau diwygio hyn, bydd gan y cyrff sy'n ymwneud ag apelau derbyn i ysgolion fwy o hyblygrwydd o ran sut y gallant ymateb a defnyddio eu hadnoddau mewn perthynas ag apelau derbyn i ysgolion yn ystod pandemig y coronafeirws (COVID-19). Mae'r hyblygrwydd hwn wedi'i groesawu gan y sector, gan gynnwys rhieni na fyddant yn wynebu oedi cyn mynd i'r afael ag ansicrwydd o ran yr ysgol y bydd eu plentyn yn ei mynychu. Mae anghenion awdurdodau derbyn yng Nghymru wedi llywio'r gwaith o baratoi'r Rheoliadau hyn yn fawr.

Y Gymraeg

6.3 Nid oes unrhyw oblygiadau o ran effaith gadarnhaol nac andwyol ar y Gymraeg.

Hawliau Plant

6.4 Rydym wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant. Ni nodwyd unrhyw wrthdaro â CCUHP ac ni fydd unrhyw effaith negyddol ar blant na phobl ifanc. Diben y Cod Apelau yw sicrhau annibyniaeth paneli apelau derbyn a sicrhau bod pob apêl derbyn ar gyfer ysgolion a gynhelir yn cael ei chynnal mewn ffordd deg a thryloyw.

Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

6.5 Rydym wedi cynnal Asesiad Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Er y bydd y Rheoliadau newydd yn llacio'r gofynion presennol, mae mwyafrif helaeth gofynion y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion yn dal i fod yn briodol, a dylid parhau i gydymffurfio â nhw. Ni fyddwn yn dileu unrhyw un o'r dyletswyddau clercio ar gyfer apelau derbyn. Mae clercod yn cyflawni rôl allweddol mewn perthynas â gwrandawiadau apelau, gan roi cyngor ar y gyfraith yn ogystal â chadw cofnod cywir o drafodion a sicrhau bod y gwrandawiad yn un teg. Mae paragraff 3.3 y Cod Apelau yn nodi bod yn rhaid i glercod feddu ar ddealltwriaeth dda o'r gyfraith ynghylch derbyn dysgwyr i ysgolion, a bod wedi cael hyfforddiant priodol sy'n cynnwys y gyfraith ar gydraddoldeb. Mae hyn yr un mor berthnasol i wrandawiadau apelau a gynhelir o bell neu a benderfynir ar sail cyflwyniadau ysgrifenedig yn unig.

6.6 Lle nad oes modd cynnal apêl wyneb yn wyneb, rhaid i'r panel gymryd camau i sicrhau y gall y partïon gyflwyno eu hachosion yn llawn yn rhithiol neu'n ysgrifenedig, a rhaid iddo fod yn fodlon bod modd penderfynu ar yr apêl mewn ffordd deg a thryloyw. Bydd yn dal i fod yn ofynnol i baneli gydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010. Bydd hyn yn gymwys wrth ystyried cwestiynau fel trefniadau apelydd i ddod i'r gwrandawiad, neu ei gynrychiolaeth lle bydd angen mynediad o bell, a'r ddyletswydd i ystyried unrhyw addasiadau rhesymol angenrheidiol. Bydd y clerc yn gyfrifol am sicrhau bod unrhyw benderfyniadau a wneir mewn perthynas â cheisiadau am addasiadau

rhesymol yn cael eu cofnodi fel rhan o gofnod yr apêl, a'u bod yn cael eu cadarnhau gan yr apelydd yn ysgrifenedig cyn y gwrandawiad. Bydd y canllawiau sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau yn cyfeirio'n benodol at Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Byddwn yn adolygu'r rheoliadau a'u heffaith ar grwpiau gwarchodedig yn barhaus, gan drafod yn gyson ag awdurdodau derbyn a monitro unrhyw ohebiaeth neu gwynion.

Preifatrwydd

6.7 Nid oes unrhyw oblygiadau o ran effaith ar faterion preifatrwydd. Mae paragraff 5.2 y Cod Apelau yn parhau i fod yn berthnasol i apelau a gynhelir o bell. Dylai'r cadeirydd sicrhau bod apêl a gynhelir o bell yn cael ei chynnal yn breifat, bod pob parti yn gallu clywed popeth a gaiff ei ddweud, a bod gan bawb gyfle cydradd i gyfrannu. Os yw hyn yn amhosibl neu'n anymarferol i rai partïon, gellir seilio'r gwrandawiad ar y cyflwyniadau ysgrifenedig a ddarparwyd yn unig.

Asesiad o'r Effaith ar Gyfiawnder

6.7 Er nad oes Asesiad ffurfiol o'r Effaith ar Gyfiawnder wedi'i gynnal, ni nodwyd unrhyw effeithiau wrth ystyried y Rheoliadau hyn.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

1 Mai 2020

Annwyl Elin,

**Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020**

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau ynghlwm er gwybodaeth i chi.

Mae'r Rheoliadau yn diwygio gofynion gweithdrefnol a chyfansoddiadol penodol a nodir yn Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 mewn cysylltiad â phaneli apelau derbyn i ysgolion am gyfnod dros dro tan 31 Ionawr 2021.

Gwneir y newid hwn er mwyn caniatáu i'r apelau hyn barhau i gael eu cynnal er gwaetha'r anawsterau ymarferol sylweddol a achosir gan y mesurau sydd eu hangen i gyfyngu ar ledaeniad y coronafeirws (COVID-19). Mae'r mesurau hyn yn cynnwys y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n cyfyngu ar allu partïon i gyfarfod wyneb yn wyneb, a'r canllawiau ar hunanynysu, sy'n peri anawsterau o ran sicrhau digon o aelodau panel ar gyfer gwrandawiadau apêl.

Mae Rheoliadau 2020 yn gwneud diwygiad untro i Reoliadau 2005 gan roi gymaint o hyblygrwydd ag y bo'n bosibl i awdurdodau derbyn i reoli apelau yn y ffordd sydd orau ar gyfer amgylchiadau lleol. Maent hefyd yn sicrhau bod rhieni sy'n apelio yn erbyn penderfyniad apêl eleni yn cael eu cefnogi ac nad ydynt o dan anfantais yn sgil y mesurau sydd ar waith i ddiogelu iechyd cyhoeddus.

Gwnaed a gosodwyd Rheoliadau 2020 cyn gynted ag yr oedd yn ymarferol ar sail iechyd cyhoeddus, er mwyn lleihau'r risg i baneli apelau o ledaenu neu ddal COVID-19 yn ystod gwrandawiadau apêl, gan ganiatáu hawl rhieni i apelio yn erbyn penderfyniadau ynghylch lle y dylai eu plant fynd i'r ysgol. O ganlyniad, maent wedi dod i rym lai na 21 diwrnod ar ôl iddynt gael eu gwneud.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae torri'r confensiwn 21 diwrnod yn caniatáu i'r Rheoliadau ddod i rym ar 4 Mai 2020, ac oherwydd amgylchiadau'r clefyd hwn, credir ei bod yn angenrheidiol lleihau'r cyfnod yn yr achos hwn a bod modd cyfiawnhau hynny.

At hynny, gan fod y rhan fwyaf o apelau derbyn i ysgolion yn cael eu cynnal rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, byddai cydymffurfio â'r confensiwn 21 diwrnod yn ei gwneud yn amhosib i'r hyblygrwydd hwn gael ei gyflwyno mewn pryd i'r awdurdod derbyn fynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'u gwaith apelau.

Yn sgil natur frys y Rheoliadau, ni fu'n destun ymgynghoriad. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi bod mewn cysylltiad cyson â Llywodraeth y DU a'r sector gan gynnwys rhanddeiliaid sy'n gyfrifol am gynnal yr apelau derbyn i ysgolion.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi cael ei baratoi a'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Bydd copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at Mick Antoniw AC, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

# SL(5)545 – Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a Diben

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan bwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf").

Maent yn diwygio gofyniad penodol a roddir ar ddarparwyr cofrestredig gofal cymdeithasol ac fe'u gwneir mewn ymateb i ledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol y coronafeirws 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn gosod gofynion ar ddarparwyr y gwasanaethau gofal cymdeithasol sy'n cael eu rheoleiddio gan y Ddeddf. Maent yn cynnwys gofyniad yn adran 10 i gyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 ("y Rheoliadau Datganiadau Blynyddol") yn darparu manylion pellach am y datganiadau blynyddol. Maent yn cynnwys darpariaeth a wneir o dan adran 10(4) ynghylch erbyn pa ddyddiadau y mae'n rhaid cyflwyno'r datganiadau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio rheoliadau 9A a 10 o'r Rheoliadau Datganiadau Blynyddol. Mae'r rheoliadau hynny'n ymwneud ag erbyn pa ddyddiad y mae'n rhaid cyflwyno datganiadau blynyddol. Effaith y diwygiadau yw bod yn rhaid i ddarparwyr pob math o wasanaethau rheoleiddiedig bellach gyflwyno datganiadau blynyddol sy'n ymwneud â blynyddoedd ariannol 2018-19, 2019-20 a 2020-21 erbyn 26 Mai 2021 fan bellaf.

## Gweithdrefn

Negyddol.

## Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodir un pwynt i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Rydym yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n ffurfiol ar y Rheoliadau hyn, ond y cafwyd ymgynghoriad byr gyda rhanddeiliaid allweddol (a restrir ym mharagraff 5 o'r Memorandwm Esboniadol).

Rydym hefyd yn nodi, yn unol â pharagraff 5 o'r Memorandwm Esboniadol, "Roedd y rhanddeiliaid hynny a ddewisodd wneud sylwadau yn ffafriol tuag at y bwriad i ohirio'r dyddiad cau ar gyfer datganiadau blynyddol".

## Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Dim.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**11 Mai 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

**2020 Rhif 486 (Cy. 111)**

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan bwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2) ("y Ddeddf"). Maent yn diwygio gofyniad penodol a osodir ar ddarparwyr gofal cymdeithasol cofrestredig ac maent wedi eu gwneud mewn ymateb i ledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn gosod gofynion ar ddarparwyr y gwasanaethau gofal cymdeithasol a reoleiddir gan y Ddeddf. Maent yn cynnwys gofyniad yn adran 10 i gyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 (O.S. 2017/1097) (Cy. 277)) ("y Rheoliadau Datganiadau Blynyddol") yn darparu manylion pellach am y datganiadau blynyddol. Maent yn cynnwys darpariaeth a wneir o dan adran 10(4) ynghylch y dyddiadau erbyn pryd y mae rhaid cyflwyno'r datganiadau.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adran 10(4) o'r Ddeddf ac maent yn diwygio rheoliadau 9A a 10 o'r Rheoliadau Datganiadau Blynyddol. Mae'r rheoliadau hynny yn ymwneud â'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid cyflwyno datganiadau blynyddol. Effaith y diwygiadau yw bod rhaid i ddarparwyr pob math o wasanaethau rheoleiddiedig gyflwyno datganiadau blynyddol sy'n ymwneud â'r blynyddoedd ariannol 2018-19, 2019-20 a 2020-21 heb fod yn hwyrach na 26 Mai 2021. Yn flaenorol, roedd yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau sydd wedi eu cofrestru i ddarparu gwasanaeth cartref gofal, gwasanaeth llety

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

diogel, gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd neu wasanaeth cymorth cartref gyflwyno eu set gyntaf o ddatganiadau blynyddol heb fod yn hwyrach na 31 Rhagfyr 2020.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2020 Rhif 486 (Cy. 111)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *4 Mai 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *5 Mai 2020* |
| *Yn dod i rym* | *26 Mai 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 10(4) a 187(1) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016(**1**).

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 26 Mai 2020.

**Diwygiadau i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017**

**2.** Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017(**2**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 a 4.

**3.** Hepgorer rheoliad 9A (amser ar gyfer cyflwyno'r datganiadau blynyddol cyntaf).

(**1**) 2016 dccc 2; *gweler* y diffiniad o "a ragnodir" a "rhagnodedig" yn adran 189.
(**2**) O.S. 2017/1097 (Cy. 277), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/233 (Cy. 52).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**4.** Yn lle rheoliad 10 (terfyn amser ar gyfer cyflwyno datganiadau blynyddol) rhodder—

**"Terfyn amser ar gyfer cyflwyno datganiadau blynyddol**

"**10.**—(1) Rhaid i ddatganiad blynyddol sy'n ymwneud ag unrhyw un neu ragor o'r blynyddoedd ariannol 2018-19, 2019-20 neu 2020-21 gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru heb fod yn hwyrach na 26 Mai 2021.

(2) Rhaid i ddatganiad blynyddol sy'n ymwneud â blwyddyn ariannol ddilynol gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru o fewn 56 o ddiwrnodau i ddiwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi."

*Julie Morgan*
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
4 Mai 2020

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer:**

**Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020.

Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie Morgan
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
5 Mai 2020

**Rhan 1 – TROSOLWG**

## 1. Disgrifiad

Diben Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 ("y Rheoliadau Diwygio") yw diwygio'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid i ddarparwyr cofrestredig gofal cymdeithasol gyflwyno datganiadau blynyddol. Mae'r diwygiad hwn yn rhan o ymateb Llywodraeth Cymru i ledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru. Mae'r Rheoliadau Diwygio yn diwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017 ("y Rheoliadau Datganiadau Blynyddol") a wnaed o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016[1] ("Deddf 2016"), fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol a Chofrestru) (Cymru) (Diwygio) 2019 ("Rheoliadau 2019").

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud â Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020, a ddaw i rym ar 26 Mai 2020.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gan fod angen gwneud y Rheoliadau Diwygio ar fyrder, nid ymgynghorwyd yn ffurfiol ar y cynnig deddfwriaethol. Serch hynny, hysbyswyd rhanddeiliaid allweddol o'r cynnig mewn ymgynghoriad cysylltiedig. Mae manylion ynghylch hyn yn adran 5 isod.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae'r pwerau sy'n galluogi i'r Rheoliadau Diwygio gael eu gwneud wedi'u cynnwys yn adran 10(4) o Ddeddf 2016. Mae'n caniatáu i ddarpariaeth gael ei gwneud ynghylch y dyddiadau erbyn pryd y mae rhaid cyflwyno datganiadau blynyddol. Mae adran 187(1) yn caniatáu i Weinidogion Cymru arfer y pŵer i wneud rheoliadau o dan Ddeddf 2016 drwy offeryn statudol, ac i wneud rheoliadau o dan Ddeddf 2016 sy'n gwneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol, ar gyfer achosion gwahanol ac ar gyfer ardaloedd gwahanol. Mae adran 48 yn ei gwneud yn drosedd i beidio â chyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru o fewn y terfyn amser a ragnodir gan adran 10(4).

Gosodir y Rheoliadau drafft hyn o dan y weithdrefn negyddol.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Diben diwygio'r Rheoliadau Datganiadau Blynyddol, o dan adran 10(4) o Ddeddf 2016, yw diwygio'r dyddiad erbyn pryd y mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau

[1] http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/2/contents/enacted/welsh

rheoleiddiedig gyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru (yn ymarferol, Arolygiaeth Gofal Cymru, “AGC”) ar ôl diwedd pob blwyddyn ariannol y mae’r darparwr wedi’i gofrestru ynddi.

Mae Rhan 1 o Ddeddf 2016 yn gosod gofynion ar ddarparwyr y gwasanaethau gofal cymdeithasol a reoleiddir gan y Ddeddf. Maent yn cynnwys gofyniad yn adran 10(1) i gyflwyno datganiad blynyddol i Weinidogion Cymru. Mae’r Rheoliadau Datganiadau Blynyddol yn darparu manylion pellach am y datganiadau blynyddol. Maent hefyd yn cynnwys darpariaeth a wneir o dan adran 10(4) ynghylch y dyddiadau erbyn pryd y mae rhaid cyflwyno’r datganiadau.

Yr effaith y bwriedir i’r Rheoliadau Diwygio ei chael yw diwygio rheoliadau 9A a 10 o’r Rheoliadau Datganiadau Blynyddol er mwyn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr pob math o wasanaethau rheoleiddiedig gyflwyno datganiadau blynyddol sy’n ymwneud â’r blynyddoedd ariannol 2018-19, 2019-20 a 2020-21 heb fod yn hwyrach na 26 Mai 2021. Yn flaenorol, bwriad y polisi oedd y dylai darparwyr gwasanaethau sydd wedi’u cofrestru i ddarparu gwasanaeth cartref gofal, gwasanaeth llety diogel, gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd neu wasanaeth cymorth cartref gyflwyno eu datganiadau blynyddol ar gyfer 2019-20 heb fod yn hwyrach na 56 o ddiwrnodau ar ôl diwedd blwyddyn ariannol 2019-20, hynny yw 26 Mai 2020. Diwygir y darpariaethau y ceisiodd Rheoliadau 2019 roi’r bwriad hwn ar waith yn unol â hwy gan y Rheoliadau Diwygio er mwyn cyflawni’r effaith y bwriedir ei chael a ddisgrifir uchod.

Mae dau fwriad i’r diwygiad hwn. Y bwriad cyntaf yw rhyddhau darparwyr o’u dyletswydd i gyflwyno datganiad blynyddol yn ystod y cyfnod pandemig hwn drwy ohirio’r gofyniad tan 56 o ddiwrnodau ar ôl diwedd blwyddyn ariannol 2020-21. Yr ail fwriad yw atal darparwyr rhag cyflawni trosedd o dan adran 48 o Ddeddf 2016 os nad ydynt yn cyflwyno datganiadau ar gyfer 2019-20 erbyn 26 Mai 2020.

At hynny, mae’r Rheoliadau Diwygio yn darparu ar gyfer gweithredu’r trefniadau datganiadau blynyddol yn y dyfodol drwy bennu bod rhaid i ddatganiadau blynyddol sy’n ymwneud â blynyddoedd ariannol ar ôl 2020-21 gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru o fewn 56 o ddiwrnodau i ddiwedd y flwyddyn ariannol y mae’r datganiad yn ymwneud â hi.

## 5. Ymgynghori

Cyfeiriwyd at y cynnig hwn mewn ymgynghoriad byr gyda rhanddeiliaid allweddol ar gynigion deddfwriaethol cysylltiedig a gynhaliwyd rhwng 3 a 17 Ebrill 2020. Gofynnwyd i’r canlynol rannu eu safbwyntiau:

- Aelodau o’r Grŵp Cynllunio ac Ymateb Gofal Cymdeithasol ar gyfer COVID-19, gan gynnwys cynrychiolwyr o’r sefydliadau canlynol:
    - llywodraeth leol (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru)
    - darparwyr gofal cymdeithasol (Fforwm Gofal Cymru)
    - y sector gwirfoddol (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, y Groes Goch Brydeinig)

- darparwyr tai (Cartrefi Cymunedol Cymru a Cymorth Cymru)
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Arolygiaeth Gofal Cymru

- Y Comisiynydd Pobl Hŷn
- Dirprwy Brif Weithredwr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru
- Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd Lleol

Roedd y rhanddeiliaid hynny a ddewisodd wneud sylw yn gefnogol i'r bwriad i ohirio'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno datganiadau blynyddol.

**6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

O ystyried bod angen gwneud y newidiadau hyn ar fyrder, ni fu'n bosibl llunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol nac Asesiad o Effaith ar Fusnes yn yr amser a oedd ar gael. Fodd bynnag, mae anghenion busnesau yn y sector gofal cymdeithasol, a'r pwysau sydd arnynt, ar hyn o bryd wedi llywio'r gwaith o lunio'r Rheoliadau hyn. Mae natur y newidiadau a gyflwynwyd yn golygu y byddant yn niwtral o ran cost ar gyfer darparwyr ac yn lleihau'r pwysau sydd arnynt yn ystod y cyfnod pandemig hwn.

**Profion effaith penodol**

**Y Gymraeg**

Nid oes goblygiadau o ran effaith gadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg.

**Hawliau Plant**

Ni nodwyd gwrthdaro â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac nid oes effaith negyddol ar blant na phobl ifanc.

**Preifatrwydd**

Nid oes goblygiadau o ran effaith ar faterion preifatrwydd.

**Asesiad Effaith Cyfiawnder**

Cyflwynwyd y Rheoliadau hyn er mwyn atal darparwr rhag troseddu'n anfwriadol drwy beidio â chwblhau datganiad blynyddol o fewn yr amserlen benodedig.

**Asesu'r Gystadleuaeth**

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb cadarnhaol neu negyddol** |

| | |
|---|---|
| **C1**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C2**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy nag 20% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C4**: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar gynaliadwyedd rhai cwmnïau yn fwy nag eraill? | Na fyddai |
| **C5**: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint busnesau/sefydliad? | Nac ydyw |
| **C6**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr cyfredol eu talu? | Na fyddai |
| **C7**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr cyfredol eu talu? | Na fyddai |
| **C8**: A yw'r sector yn gweld newidiadau technolegol cyflym? | Nac ydyw |
| **C9**: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

Mae'r prawf hidlo yn dangos nad yw'n debygol y bydd y rheoliad yn cael unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth. O ganlyniad, ni chynhaliwyd asesiad manwl.

# SL(5)546 - Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws)

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan bwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf"). Maent yn diwygio gofynion penodol a osodir ar ddarparwyr gofal cymdeithasol cofrestredig o dan y Ddeddf, ac maent wedi eu gwneud mewn ymateb i ledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn nodi'r gwasanaethau gofal cymdeithasol y mae'r Ddeddf yn gymwys iddynt, ac yn eu diffinio fel "gwasanaethau rheoleiddiedig". Mae adran 2(3) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i ddarparu mewn rheoliadau nad yw gwasanaethau penodol yn "gwasanaethau rheoleiddiedig".

Mae adran 27 o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i osod, mewn rheoliadau, ofynion ar ddarparwyr gwasanaethau mewn perthynas â'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Mae Gweinidogion Cymru wedi arfer y pŵer hwn i wneud Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 ("y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig").

Mae rheoliadau 2 i 7 yn diwygio'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig.

Mae **rheoliad 4** wedi ei wneud o dan adran 2(3) o'r Ddeddf ac yn diwygio rheoliad 2 (gwasanaethau cartrefi gofal) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig. Effaith y diwygiad yw nad yw'r ddarpariaeth o lety ynghyd â nyrsio neu ofal, pan fo'r llety a'r nyrso neu'r gofal wedi eu darparu i oedolion ac y mae eu hangen o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws, yn "gwasanaeth cartref gofal" ac felly nad yw'n "gwasanaeth rheoleiddiedig" o dan y Ddeddf. Nid yw'r eithriad hwn ond yn gymwys pan fo'r gwasanaeth wedi ei ddarparu gan awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol, neu wedi ei gomisiynu gan awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol ac wedi ei ddarparu naill ai gan ddarparwr gwasanaeth sydd eisoes wedi ei gofrestru o dan y Ddeddf ac sy'n darparu gwasanaeth cartref gofal yn gyfan gwbl neu'n bennaf i oedolion, neu gan ddarparwyr cartrefi gofal yn Lloegr sydd eisoes wedi eu cofrestru â'r Comisiwn Ansawdd Gofal. Ym mhob achos rhaid i Weinidogion Cymru gael eu hysbysu ymlaen llaw am y trefniadau.

Mae **rheoliad 5** hefyd wedi ei wneud o dan adran 2(3) o'r Ddeddf. Mae'n gwneud diwygiad tebyg i reoliad 4, ond mewn perthynas â darparu gofal a chymorth ar gyfer oedolion.

Mae **rheoliad 6** wedi ei wneud o dan adran 27(1) o'r Ddeddf ac yn diwygio rheoliad 35 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (addasrwydd staff). Mae rheoliad 35(2)(d) o'r Rheoliadau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n gweithio ar gyfer darparwr gwasanaeth rheoleiddiedig roi gwybodaeth lawn a boddhaol mewn cysylltiad â materion penodol i'r darparwr. Effaith y diwygiad yw bod y gofyniad yn rheoliad 35(2)(d), o dan rai amgylchiadau, yn cael ei drin fel pe bai wedi ei fodloni hyd yn oed os nad yw person sy'n gweithio ar gyfer darparwr gwasanaeth cartref gofal yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion, neu wasanaeth cymorth cartref i oedolion yn darparu gwybodaeth lawn a boddhaol am rai o'r materion hynny. Os na all y person yn rhesymol ddarparu gwybodaeth lawn a boddhaol o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws, bydd y gofyniad yn cael ei drin fel pe bai wedi ei fodloni os yw'r person yn

darparu gwybodaeth mor llawn a boddhaol ag y bo'n rhesymol ymarferol ac os yw’r wybodaeth ar gael i’r rheoleiddiwr gwasanaethau edrych arni.

Mae **rheoliad 7** hefyd wedi ei wneud o dan adran 27(1) o’r Ddeddf. Mae'n diwygio rheoliad 45 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (ystafelleoedd meddiannaeth sengl ac ystafelloedd a rennir - oedolion). Mae rheoliad 45 yn darparu, yn ddarostyngedig i eithriadau cyfyngedig, fod rhaid i ddarparwr gwasanaeth cartref gofal sicrhau bod pob oedolyn yn cael ei letya mewn ystafelloedd sengl. Mae'r diwygiad yn ehangu'r eithriadau i ganiatáu, o dan amgylchiadau cyfyngedig, i oedolion gael eu lletya mewn ystafelloedd a rennir pan fo angen darparu'r llety o ganlyniad i ledaeniad y coronafirws.

## Gweithdrefn

Cadarnhaol drafft.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â’r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd**

Nodwn nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori'n ffurfiol ar y Rheoliadau hyn, ond bu ymgynghoriad byr â rhanddeiliaid allweddol (a restrir yn adran 5 o'r Memorandwm Esboniadol).

Nodwn hefyd, yn unol ag adran 27(5) o'r Ddeddf, fod Gweinidogion Cymru wedi gosod gerbron y Senedd **ddatganiad am yr ymgynghoriad**.

**2. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy’n debyg o fod o ddiddordeb i’r Senedd**

Rydym yn nodi’r newidiadau y mae’r Rheoliadau hyn yn eu gwneud i ofal cymdeithasol yng Nghymru, a bod y Memorandwm Esboniadol yn dweud y bydd y newidiadau hyn “yn cael eu dirymu pan na fydd eu hangen mwyach”.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â’r Undeb Ewropeaidd

Dim.

## Ymateb y Llywodraeth:

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad**
**11 Mai 2020**

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 187(2)(b) ac (f) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

**2020 Rhif (Cy. )**

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan bwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2) ("y Ddeddf"). Maent yn diwygio gofynion penodol a osodir ar ddarparwyr gofal cymdeithasol cofrestredig o dan y Ddeddf, ac maent wedi eu gwneud mewn ymateb i ledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn nodi'r gwasanaethau gofal cymdeithasol y mae'r Ddeddf yn gymwys iddynt, ac yn eu diffinio fel "gwasanaethau rheoleiddiedig". Mae adran 2(3) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i ddarparu mewn rheoliadau nad yw gwasanaethau penodol yn "gwasanaethau rheoleiddiedig".

Mae adran 27 o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i osod, mewn rheoliadau, ofynion ar ddarparwyr gwasanaethau mewn perthynas â'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Mae Gweinidogion Cymru wedi arfer y pŵer hwn i wneud Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 (O.S. 2017/1264 (Cy. 295)) ("y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig").

Mae **rheoliadau 2 i 7** yn diwygio'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig. Mae **rheoliad 4** wedi ei wneud o dan adran 2(3) o'r Ddeddf ac yn diwygio rheoliad 2 (gwasanaethau cartrefi gofal) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig. Effaith y diwygiad yw nad yw'r ddarpariaeth o lety ynghyd â nyrsio neu ofal, pan fo'r llety a'r nyrsio neu'r gofal wedi eu darparu i oedolion ac y mae eu hangen o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws, yn "gwasanaeth cartref gofal" ac felly nad yw'n "gwasanaeth rheoleiddiedig" o dan y Ddeddf. Nid yw'r eithriad hwn ond yn gymwys pan fo'r gwasanaeth wedi ei ddarparu gan awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol, neu wedi ei gomisiynu gan awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol ac wedi ei ddarparu naill ai gan ddarparwr gwasanaeth sydd eisoes wedi ei gofrestru o dan y Ddeddf ac sy'n darparu gwasanaeth cartref gofal yn gyfan gwbl neu'n bennaf i oedolion, neu gan ddarparwyr cartrefi gofal yn Lloegr sydd eisoes wedi eu cofrestru â'r Comisiwn Ansawdd Gofal. Ym mhob achos, rhaid i Weinidogion Cymru gael eu hysbysu ymlaen llaw am y trefniadau.

Mae **rheoliad 5** hefyd wedi ei wneud o dan adran 2(3) o'r Ddeddf. Mae'n gwneud diwygiad tebyg i reoliad 4, ond mewn perthynas â darparu gofal a chymorth ar gyfer oedolion.

Mae **rheoliad 6** wedi ei wneud o dan adran 27(1) o'r Ddeddf ac yn diwygio rheoliad 35 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (addasrwydd staff). Mae rheoliad 35(2)(d) o'r Rheoliadau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n gweithio ar gyfer darparwr gwasanaeth rheoleiddiedig roi gwybodaeth lawn a boddhaol mewn cysylltiad â materion penodol i'r darparwr. Effaith y diwygiad yw bod y gofyniad yn rheoliad 35(2)(d), o dan rai amgylchiadau, yn cael ei drin fel pe bai wedi ei fodloni hyd yn oed os nad yw person sy'n gweithio ar gyfer darparwr gwasanaeth cartref gofal yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion neu wasanaeth cymorth cartref i oedolion yn darparu gwybodaeth lawn a boddhaol am rai o'r materion hynny. Os na all y person yn rhesymol ddarparu gwybodaeth lawn a boddhaol o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws, bydd y gofyniad yn cael ei drin fel pe bai wedi ei fodloni os yw'r person yn darparu gwybodaeth mor llawn a boddhaol ag y bo'n rhesymol ymarferol ac os yw'r wybodaeth ar gael i'r rheoleiddiwr gwasanaethau edrych arni.

Mae **rheoliad 7** hefyd wedi ei wneud o dan adran 27(1) o'r Ddeddf. Mae'n diwygio rheoliad 45 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (ystafelloedd meddiannaeth sengl ac ystafelloedd a rennir – oedolion). Mae rheoliad 45 yn darparu, yn ddarostyngedig i eithriadau cyfyngedig, fod rhaid i ddarparwr gwasanaeth cartref gofal sicrhau bod pob oedolyn yn cael ei letya mewn ystafelloedd sengl.

Mae’r diwygiad yn ehangu’r eithriadau i ganiatáu, o dan amgylchiadau cyfyngedig, i oedolion gael eu lletya mewn ystafelloedd a rennir pan fo angen darparu’r llety o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn.

*Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 187(2)(b) ac (f) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U D R A F F T

# 2020 Rhif (Cy. )

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | ***** |
| *Yn dod i rym* | *05 Mehefin 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 2(3), 27(1) a 187(1)(b) o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf")(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau hynny y maent yn meddwl eu bod yn briodol, fel sy'n ofynnol gan adrannau 2(4) a 27(4)(a) o'r Ddeddf, ac wedi cyhoeddi datganiad ynghylch yr ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan adran 27(4)(b) o'r Ddeddf. Mae Gweinidogion Cymru wedi gosod copi o'r datganiad gerbron Senedd Cymru fel sy'n ofynnol gan adran 27(5) o'r Ddeddf.

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru o dan adran 187(2)(b) ac (f) o'r Ddeddf ac fe'i

(**1**) 2016 dccc 2; *gweler* y diffiniad o "a ragnodir" a "rhagnodedig" yn adran 189.

cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**1**).

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 5 Mehefin 2020.

### Diwygiadau i Reoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017

**2.** Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017(**2**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 7.

### Dehongli

**3.** Yn rheoliad 1(3) (enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli), yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"ystyr "y Comisiwn Ansawdd Gofal" ("*Care Quality Commission*") yw'r corff a sefydlwyd o dan adran 1 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008(**3**);";

"ystyr "coronafeirws" ("*coronavirus*") yw coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2);".

### Eithriad rhag cwmpas gwasanaethau cartrefi gofal

**4.** Yn rheoliad 2(1) (gwasanaethau cartrefi gofal)—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (j), yn lle'r atalnod llawn rhodder ";";

(b) ar ôl is-baragraff (j) mewnosoder—

"(k) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â nyrsio neu ofal, pan fo'r llety a'r nyrsio neu'r gofal wedi eu darparu i oedolion ac y mae eu hangen o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws,

Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys—

(i) oni bai bod y llety a'r nyrsio neu'r gofal—

(aa) wedi eu darparu gan awdurdod lleol,

---

(**1**) Mae'r cyfeiriadau yn adrannau 27(5) a 187(2) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel pe baent yn gyfeiriadau at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**2**) O.S. 2017/1264 (Cy. 295), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/757 (Cy. 142) ac O.S. 2020/389 (Cy. 87).

(**3**) 2008 p. 14.

(bb) wedi eu darparu gan Fwrdd Iechyd Lleol, neu

(cc) wedi eu comisiynu gan awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol ac wedi eu darparu naill ai gan ddarparwr gwasanaeth sydd wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth cartref gofal ac sy'n darparu'r gwasanaeth hwnnw yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion, neu gan berson sydd wedi ei gofrestru â'r Comisiwn Ansawdd Gofal o dan Bennod 2 o Ran 1 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 mewn cysylltiad â chartref gofal yn Lloegr o fewn ystyr "care home" yn Rhan 1 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**), a

(ii) oni bai bod y person sy'n darparu'r llety a'r nyrsio neu'r gofal wedi hysbysu Gweinidogion Cymru yn gyntaf gan ddefnyddio ffurflen a ddarperir gan Weinidogion Cymru."

**Eithriad rhag cwmpas gwasanaethau cymorth cartref**

**5.** Yn rheoliad 3(1) (gwasanaethau cymorth cartref)—

(a) ar ddiwedd is-baragraff (i), yn lle'r atalnod llawn rhodder ";";

(b) ar ôl is-baragraff (i) mewnosoder—

"(j) y ddarpariaeth o ofal a chymorth ar gyfer oedolion pan fo angen y gofal a'r cymorth o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws,

Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys—

(i) oni bai bod y gofal a'r cymorth—

(aa) wedi eu darparu gan awdurdod lleol,

(bb) wedi eu darparu gan Fwrdd Iechyd Lleol, neu

(cc) wedi eu comisiynu gan awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol ac wedi eu

(**1**) 2000 p. 14.

darparu naill ai gan ddarparwr gwasanaeth sydd wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth cymorth cartref, neu gan berson sydd wedi ei gofrestru â'r Comisiwn Ansawdd Gofal o dan Bennod 2 o Ran 1 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008 mewn cysylltiad ag asiantaeth gofal cartref o fewn ystyr "domiciliary care agency" yn Rhan 1 o Ddeddf Safonau Gofal 2000, a

(ii) oni bai bod y person sy'n darparu'r gofal a'r cymorth wedi hysbysu Gweinidogion Cymru yn gyntaf gan ddefnyddio ffurflen a ddarperir gan Weinidogion Cymru."

**Addasrwydd staff**

**6.** Yn rheoliad 35 (addasrwydd staff)—

(a) ym mharagraff (2)(d), o flaen y geiriau agoriadol, mewnosoder "yn ddarostyngedig i baragraff (9A) o'r rheoliad hwn,";

(b) ar ôl paragraff (9) mewnosoder—

"(9A) Pan fo'r darparwr gwasanaeth yn darparu gwasanaeth cartref gofal yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion neu wasanaeth cymorth cartref i oedolion, mae'r gofyniad ym mharagraff (2)(d) i'w drin fel pe bai wedi ei fodloni er bod y person a grybwyllir yn y paragraff hwnnw yn methu â darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o'r materion a bennir ym mharagraffau 4, 6, 8 a 9 o Ran 1 o Atodlen 1—

(a) os na all y person yn rhesymol ddarparu gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol mewn cysylltiad â'r materion hynny o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws,

(b) os yw'r person yn darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth mewn cysylltiad â'r materion hynny sydd mor llawn a boddhaol ag y bo'n rhesymol ymarferol, ac

(c) os yw'r wybodaeth neu'r ddogfennaeth a ddarperir ar gael yn y gwasanaeth i'r rheoleiddiwr gwasanaethau edrych arni."

**Ystafelloedd a rennir**

**7.** Yn rheoliad 45 (ystafelloedd meddiannaeth sengl ac ystafelloedd a rennir – oedolion)—

(a) ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

“(2A) Bydd yr amod ym mharagraff (2)(d) yn parhau i gael ei fodloni er bod nifer yr oedolion sy’n cael eu lletya mewn ystafelloedd a rennir ar 5 Mehefin 2020 neu wedi hynny yn fwy na 15% o gyfanswm nifer yr oedolion sy’n cael eu lletya gan y gwasanaeth pan na fo’r nifer yn fwy na’r terfyn ond oherwydd bod llety y mae ei angen o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws yn cael ei ddarparu mewn ystafelloedd a oedd heb eu meddiannu yn union cyn 5 Mehefin 2020.”;

(b) ym mharagraff (3)(c), yn lle “yn rhannu ystafell ag oedolyn arall ar yr adeg berthnasol.” rhodder—

“—

(i) yn rhannu ystafell ag oedolyn arall ar yr adeg berthnasol, neu

(ii) wedi eu darparu â’r llety ar 5 Mehefin 2020 neu wedi hynny mewn ystafelloedd a oedd heb eu meddiannu yn union cyn 5 Mehefin 2020 ac mae angen y llety o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws.”

*Enw*
Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer:**

**Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020.

Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie Morgan
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
6 Mai 2020

**Rhan 1 - TROSOLWG**

## 1. Disgrifiad

Diben Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 ("y Rheoliadau Diwygio") yw galluogi Llywodraeth Cymru i reoli effeithiau'r pandemig COVID-19 presennol ar y sector gofal cymdeithasol. Mae'r Rheoliadau Diwygio yn cynnwys mesurau i ddiwygio Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 ("y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig") a wnaed o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016[1] ("Deddf 2016"). Bydd y darpariaethau diwygio yn cael eu dirymu pan na fydd eu hangen mwyach.

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn ymwneud â Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 a ddaw i rym ar 5 Mehefin 2020.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Gan fod angen gwneud y Rheoliadau Diwygio ar fyrder – ac oherwydd eu bod i raddau helaeth o natur dros dro – ymgynghorwyd ar y cynigion deddfwriaethol gyda rhanddeiliaid allweddol am gyfnod o 2 wythnos. Mae manylion y cyfnod ymgysylltu hwn i'w cael yn adran 5 isod.

## 3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae'r pwerau sy'n galluogi i'r Rheoliadau drafft hyn gael eu gwneud wedi'u cynnwys yn adrannau 2(3), 27(1) a 187(1)(b) o Ddeddf 2016. Mae rhagor o fanylion wedi'u nodi isod:

Mae adran 2(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, mewn rheoliadau, bethau nad ydynt i'w trin fel gwasanaethau rheoleiddiedig at ddibenion Deddf 2016.

Mae adran 27(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i orfodi, mewn rheoliadau, ofynion ar ddarparwyr gwasanaethau mewn perthynas â gwasanaeth rheoleiddiedig a ddarperir ganddynt. Mae'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig yn nodi'r gofynion ar ddarparwyr yn fanylach. Mae adran 187(1)(b) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau o dan Ddeddf 2016, sy'n gwneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol, ar gyfer achosion gwahanol ac ar gyfer ardaloedd gwahanol.

Gosodir y Rheoliadau drafft hyn o dan y weithdrefn gadarnhaol.

[1] http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/contents/enacted/welsh

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Adran 2(3) – Eithriadau

*Mae'r adran hon yn ymwneud â rheoliadau 2 i 5 yn y Rheoliadau Diwygio*

Diben diwygio Rhan 2 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig, o dan adran 2(3) o Ddeddf 2016, yw ar gyfer darparu na ddylid trin gwasanaethau penodol fel gwasanaethau rheoleiddiedig at ddiben ymateb i'r pandemig COVID-19.

Eithriad rhag cwmpas gwasanaeth cartref gofal

Ni ddylid trin y ddarpariaeth o lety ynghyd â nyrsio neu ofal, pan ddarperir y llety a'r nyrsio neu'r gofal i oedolion ac maent yn angenrheidiol o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws, fel gwasanaeth cartref gofal.

Nid yw'r eithriad hwn ond yn gymwys pan fo'r gwasanaeth:

- yn cael ei ddarparu gan awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd lleol
- yn cael ei gomisiynu gan awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol ac yn cael ei ddarparu naill ai gan:
    - ddarparwr gwasanaeth sydd eisoes wedi ei gofrestru o dan Ddeddf 2016 ac sy'n darparu gwasanaeth cartref gofal yn gyfan gwbl neu'n bennaf i oedolion
    - darparwyr cartrefi gofal yn Lloegr sydd eisoes wedi eu cofrestru â'r Comisiwn Ansawdd Gofal.

Eithriad rhag cwmpas gwasanaeth cymorth cartref

Ni ddylid trin y ddarpariaeth o ofal a chymorth i oedolion, pan fo angen y gofal a'r cymorth o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws, fel gwasanaeth cymorth cartref.

Nid yw'r eithriad hwn ond yn gymwys pan fo'r gwasanaeth:

- yn cael ei ddarparu gan awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd lleol
- yn cael ei gomisiynu gan awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol ac yn cael ei ddarparu naill ai gan:
    - ddarparwr gwasanaeth sydd eisoes wedi ei gofrestru o dan Ddeddf 2016 ac sy'n darparu gwasanaeth cymorth cartref yn gyfan gwbl neu'n bennaf i oedolion
    - darparwyr asiantaethau cymorth cartref yn Lloegr sydd eisoes wedi eu cofrestru â'r Comisiwn Ansawdd Gofal.

Ym mhob achos, rhaid rhoi gwybod ymlaen llaw i Weinidogion Cymru am y trefniadau.

Y sail resymegol eang am hyn yw y bydd y darparwyr hyn eisoes yn ddarostyngedig i brosesau rheoleiddio ac arolygu o ryw fath a fydd yn rhoi rhywfaint o sicrwydd cyffredinol ynghylch ei llywodraethiant, eu systemau a'u dealltwriaeth o natur y gwasanaethau gofal a chymorth a ddarperir.

Bydd eithrio'r gwasanaethau hyn rhag cael eu rheoleiddio yn symleiddio'r prosesau sydd fel arfer yn gysylltiedig â sefydlu darpariaeth gofal a chymorth. Bydd modd, felly, sefydlu'r gwasanaethu hyn yn gyflym er mwyn iddynt fod ar gael pan fo'u hangen fwyaf i leihau'r pwysau a ragwelir ar ysbytai, cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref. Bydd yr eithriad hefyd yn caniatáu i amrywiaeth ehangach o fangreoedd gael eu defnyddio at ddibenion gwasanaethau preswyl brys, a bydd rhai o'r rheini yn annhebygol o fodloni'r safonau sy'n ofynnol i gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru o dan Ddeddf 2016.

<u>Adran 27(1) - Gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau</u>

*Mae'r adran hon yn ymwneud â rheoliadau 6 a 7 o'r Rheoliadau Diwygio*

Addasrwydd staff

Diben diwygio rheoliad 35 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig yw llacio'r gofynion ar ddarparwyr gwasanaethau i gynnal gwiriadau cyn cyflogi ar eu gweithwyr mewn gwasanaethau cartref gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion neu wasanaethau cymorth cartref a ddarperir ar gyfer oedolion. Nod y diwygiadau hyn yw cefnogi mesurau a gymerir i fynd i'r afael â'r angen a ragwelir am ragor o weithwyr yn ystod yr achosion o COVID-19.

Mae Rhan 1 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig yn nodi'r wybodaeth a'r dogfennaeth y mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau eu casglu a'u cadw ar gyfer pob un o'u gweithwyr. Mae'n ofynnol iddynt gael dau eirda ysgrifenedig, tystiolaeth ddogfennol o gymwysterau a hanes cyflogaeth llawn (gan gynnwys eglurhad am unrhyw fylchau mewn cyflogaeth). Mae'r Rheoliadau Diwygio yn llacio'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol mewn perthynas â pharagraffau 4, 6, 8 a 9 o Ran 1 o Atodlen 1. Os na all person yn rhesymol ddarparu gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol (mewn perthynas â pharagraffau 4, 6, 8 a 9) o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws, a'i fod yn darparu yn hytrach wybodaeth neu ddogfennaeth sydd mor gyflawn a boddhaol ag sy'n rhesymol bosibl, rhaid ystyried bod y gofyniad wedi'i fodloni. Dylai'r wybodaeth neu'r ddogfennaeth a ddarperir hefyd fod ar gael gan y gwasanaeth i'r rheoleiddiwr gwasanaethau eu harchwilio.

Nod y diwygiadau hyn yw cyflymu'r broses o recriwtio staff dros dro yn ystod yr achosion o COVID-19, gan gydnabod na fydd o bosibl yn rhesymol ymarferol i ddarparwyr gwasanaethau gasglu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol yn Rhan 1 o Atodlen 1, yn y ffurf a ragnodir, yn ystod y cyfnod hwn.

Ystafelloedd a rennir

Diben diwygio rheoliad 45 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig yw llacio'r amodau sy'n cyfyngu ar nifer yr oedolion y gellir eu lletya mewn ystafelloedd a rennir mewn cartrefi gofal ar gyfer oedolion. Byddai hyn yn caniatáu i ddarparwyr gwasanaethau sydd ag ystafelloedd gwag, neu ystafelloedd nad ydynt yn cael eu defnyddio fel ystafelloedd gwely ar hyn o bryd gynyddu'r capasiti eithaf yn eu cartrefi gofal pan fo angen gwneud hynny, ac o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws yn unig. Os ydynt yn dymuno gwneud hyn, bydd y gofynion presennol i wneud cais i

Arolygiaeth Gofal Cymru ar gyfer addasu eu niferoedd uchaf yn parhau i fod yn gymwys. Byddai penderfyniadau yn cael eu gwneud ar sail pob achos unigol gan ystyried yr hyn sydd orau i'r preswylwyr. Ni chaniateir troi ystafelloedd sydd yn rhai meddiannaeth sengl ar hyn o bryd yn ystafelloedd a rennir.

## 5. Ymgynghori

Gan fod angen gweithredu'r Rheoliadau Diwygio ar fyrder, cynhaliwyd ymgynghoriad byr gyda rhanddeiliaid allweddol rhwng 3 a 17 Ebrill 2020. Gofynnwyd i'r canlynol rannu eu safbwyntiau:

- Aelodau o'r Grŵp Cynllunio ac Ymateb Gofal Cymdeithasol ar gyfer COVID-19, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol:
    - llywodraeth leol (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru)
    - darparwyr gofal cymdeithasol (Fforwm Gofal Cymru)
    - y sector gwirfoddol (Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, y Groes Goch Brydeinig)
    - darparwyr tai (Cartrefi Cymunedol Cymru a Cymorth Cymru)
    - Gofal Cymdeithasol Cymru
    - Arolygiaeth Gofal Cymru
    - Y Comisiynydd Pobl Hŷn
    - Dirprwy Brif Weithredwr Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
    - Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru
    - Prif Weithredwyr Byrddau Iechyd Lleol

Paratowyd datganiad ynglŷn â'r ymgynghoriad a rhestr o ymatebwyr. Gan fod y Rheoliadau Diwygio yn cynnwys gofynion a wnaed o dan adran 27(1) o Ddeddf 2016, gosodwyd y datganiad gerbron y Senedd, yn unol ag adran 27(5) o Ddeddf 2016. Gellir dod o hyd iddo ar y dudalen 'dogfennau a osodwyd'[2].

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

O ystyried bod angen gwneud y newidiadau hyn ar fyrder, ni fu'n bosibl llunio Asesiad Effaith Rheoleiddiol nac Asesiad o Effaith ar Fusnes yn yr amser a oedd ar gael. Fodd bynnag, mae anghenion busnesau yn y sector gofal cymdeithasol ar hyn o bryd wedi llywio'r gwaith o lunio'r Rheoliadau hyn. Mae natur y newidiadau a gyflwynwyd yn golygu y byddant yn lleihau neu'n dileu costau ar gyfer llawer o ddarparwyr yn ogystal â'r baich sydd arnynt.

### Profion effaith penodol

### Y Gymraeg

[2] https://www.assembly.wales/cy/bus-home/Pages/Plenary.aspx?assembly=5&category=Laid%20Document

Nid oes goblygiadau o ran effaith gadarnhaol na negyddol ar y Gymraeg. Mae'r gofyniad i ddarparu tystiolaeth o allu ieithyddol boddhaol yn parhau i fod yn berthnasol, er ei fod wedi ei addasu i gydnabod y gallai fod yn anodd dod o hyd i dystiolaeth yn ystod yr achosion o'r feirws.

**Hawliau Plant**

Ni nodwyd gwrthdaro â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ac nid oes effaith negyddol ar blant na phobl ifanc. Mae'r rhan fwyaf o'r darpariaethau'n effeithio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar wasanaethau gyfer oedolion.

**Preifatrwydd**

Nid oes goblygiadau o ran effaith ar faterion preifatrwydd.

**Asesiad Effaith ar Gyfiawnder**

Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn ymdrin ag unrhyw achos o dorri'r gofyniad i gofrestru gwasanaeth (er enghraifft, petai darparwr yn parhau i geisio darparu gwasanaeth nad yw'n cael ei gynnwys yn yr eithriad) yn y ffordd arferol, gan gynnwys ystyried erlyn y darparwr.

**Asesu'r Gystadleuaeth**

| Prawf hidlo'r gystadleuaeth | |
|---|---|
| **Cwestiwn** | **Ateb Cadarnhaol neu negyddol** |
| **C1:** Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C2:** Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy nag 20% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C3**: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran y farchnad? | Nac oes |
| **C4**: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn sylweddol fwy nag eraill? | Na fyddai |
| **C5**: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau? | Nac ydyw |
| **C6**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr cyfredol eu talu? | Na fyddai |
| **C7**: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr cyfredol eu talu? | Na fyddai |
| **C8**: A yw'r sector yn gweld newidiadau technolegol mawr? | Nac ydyw |

| | |
|---|---|
| **C9**: A fyddai’r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion? | Na fyddai |

Mae’r prawf hidlo yn dangos nad yw’n debygol y bydd y rheoliad yn cael unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth. O ganlyniad, ni chynhaliwyd asesiad manwl.

# SL(5)548 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) ("y prif Reoliadau"), a daethant i rym am 4.00 p.m. ar 11 Mai 2020.

Gwnaed y Rheoliadau hyn o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984"), mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2, sy'n achosi'r clefyd a elwir yn COVID-19 neu'r "coronafeirws".

Diben y prif Reoliadau, y mae'r Rheoliadau hyn yn eu diwygio, yw:

- rhoi cyfyngiadau ar symudiadau unigolion, gan nodi amgylchiadau pan ganiateir iddynt adael y man lle y maent yn byw ac atal grwpiau o fwy na dau o bobl rhag ymgynnull, ac eithrio mewn amgylchiadau penodol;
- ei gwneud yn ofynnol cau busnesau penodol a gosod gofynion ar fusnesau eraill, yn ogystal â dyletswyddau i gau llwybrau troed cyhoeddus penodol a thir, er mwyn diogelu rhag y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o'r coronafeirws.

Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn:

- yn ychwanegu cymesuredd y gofynion a'r cyfyngiadau fel ystyriaeth pan fydd Gweinidogion Cymru yn adolygu'r prif Reoliadau;
- yn dileu darpariaethau sy'n ymwneud â therfynu gofynion neu gyfyngiadau drwy gyfarwyddyd gweinidogol (sy'n golygu bod rhaid eu terfynu drwy ddiwygio'r prif Reoliadau);
- yn caniatáu i lyfrgelloedd, canolfannau garddio a meithrinfeydd planhigion agor yn ddarostyngedig i ofynion i gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr gan bersonau yn y fangre a phersonau sy'n aros i fynd i'r fangre;
- yn pennu bod gadael y man lle yr ydych yn byw i gasglu nwyddau a archebir o siop sy'n gweithredu ar sail "archebu a chasglu" yn esgus rhesymol at ddibenion rheoliad 8(1) o'r prif Reoliadau; ac
- yn dileu'r cyfyngiad ar beidio â gwneud ymarfer corff fwy nag unwaith y dydd.

## Gweithdrefn

Gwneud Cadarnhaol: mae'r Rheoliadau eisoes wedi eu gwneud, ond mae angen i'r Senedd eu cymeradwyo er mwyn iddynt barhau mewn grym am fwy nag 28 diwrnod.

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.**

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau hyn yn darparu bod cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru ystyried cymesuredd y gofynion a'r cyfyngiadau

> *"yn adlewyrchu'n gywirach natur yr adolygu a dyletswydd barhaus Gweinidogion Cymru i adolygu cymesuredd y gofynion a'r cyfyngiadau o safbwynt Hawliau Dynol."*

Mae cymesuredd yn ystyriaeth allweddol wrth asesu'r cyfiawnhad o ymyrraeth â hawliau unigol penodol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998. Yn hynny o beth, mae'r tîm Gwasanaethau Cyfreithiol yn croesawu'r gwelliant hwn gan ei fod yn cydnabod nid yn unig ddyletswydd gyffredinol Gweinidogion Cymru i sicrhau cymesuredd, sydd wedi'i chynnwys yn adran 45D o Ddeddf 1984, ond hefyd eu dyletswydd gyffredinol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Hawliau Dynol.

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Ni nodir unrhyw oblygiadau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**13 Mai 2020**

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

## 2020 Rhif 497 (Cy. 118)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

# Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2A o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i wneud darpariaeth at ddiben atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad yng Nghymru.

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 (y "prif Reoliadau").

Mae'r diwygiadau fel a ganlyn—

(a) diwygio rheoliad 3 o'r prif Reoliadau i ychwanegu cymesuredd y gofynion a'r cyfyngiadau fel ystyriaeth pan fydd Gweinidogion Cymru yn adolygu'r prif Reoliadau, ac i ddileu darpariaethau sy'n ymwneud â therfynu gofynion neu gyfyngiadau drwy gyfarwyddyd gweinidogol

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(sy'n golygu bod rhaid eu terfynu drwy ddiwygio'r prif Reoliadau);

(b) diwygio rheoliad 4 o'r prif Reoliadau, ac Atodlen 1 iddynt, i ganiatáu i lyfrgelloedd agor yn ddarostyngedig i ofynion i gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr gan bersonau yn y fangre a phersonau sy'n aros i fynd i'r fangre;

(c) diwygio rheoliad 8 o'r prif Reoliadau i wneud y canlynol—

(i) pennu bod gadael y man lle yr ydych yn byw i gasglu nwyddau a archebir o siop sy'n gweithredu ar sail "archebu a chasglu" yn esgus rhesymol at ddibenion rheoliad 8(1);

(ii) dileu'r cyfyngiad ym mharagraff (2)(b) ar beidio â gwneud ymarfer corff fwy nag unwaith y dydd (fel y mae'n ymwneud ag ymarfer corff fel esgus rhesymol at ddibenion rheoliad 8(1));

(iii) pennu bod gwneud defnydd o gyfleuster ailgylchu neu waredu gwastraff neu ymweld â llyfrgell yn esgus rhesymol at ddibenion rheoliad 8(1) (sylwer, er hynny, nad yw'r newid hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyfleusterau hyn agor oherwydd mater i awdurdodau lleol yw hynny);

(d) ychwanegu canolfannau garddio a meithrinfeydd planhigion at Ran 4 o Atodlen 1 sy'n golygu y caniateir iddynt agor yn ddarostyngedig i ofynion i gymryd pob mesur rhesymol i sicrhau y cynhelir pellter o 2 fetr gan bersonau yn y fangre a phersonau sy'n aros i fynd i'r fangre.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

*Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22), i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn wyth niwrnod ar hugain gan ddechrau â'r diwrnod y gwneir yr offeryn, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu doriad am fwy na phedwar diwrnod.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 497 (Cy. 118)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020

*Gwnaed* *am 2.00 p.m. ar 11 Mai 2020*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *am 3.00 p.m. ar 11 Mai 2020*

*Yn dod i rym* *am 4.00 p.m. ar 11 Mai 2020*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(**1**).

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd a cyhoedd a berir gan fynychder a lledaeniad syndrom anadlol acíwt difrifol coronafeirws 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Gweinidogion Cymru yn ystyried bod y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad hwnnw.

(**1**) 1984 p. 22. Mewnosodwyd adrannau 45C, 45F a 45P gan adran 129 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (p. 14). Mae'r swyddogaethau o dan yr adrannau hyn wedi eu rhoi i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol") O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, y Gweinidog priodol, o ran Cymru, yw Gweinidogion Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Yn unol ag adran 45R o'r Ddeddf honno, oherwydd brys, mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei bod yn angenrheidiol gwneud y offeryn hwn heb fod drafft wedi ei osod gerbron Senedd Cymru ac wedi ei gymeradwyo ganddi drwy benderfyniad.

**Enwi a dod i rym**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 a deuant i rym am 4.00 p.m. ar 11 Mai 2020.

**Diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3—

(a) ym mharagraff (2), ar ôl "y Rheoliadau hyn" mewnosoder ", a pha un a yw'r cyfyngiadau a'r gofynion hynny yn gymesur â'r hyn y mae Gweinidogion Cymru yn ceisio ei gyflawni drwyddynt,";

(b) hepgorer paragraffau (3), (4), (4A) a (5).

(3) Yn rheoliad 4, ym mharagraff (5)(c), yn lle ", oriel neu lyfrgell" rhodder "neu oriel".

(4) Yn rheoliad 8, ym mharagraff (2)—

(a) ar ôl is-baragraff (aa) mewnosoder—

"(ab) i gasglu nwyddau sydd wedi eu prynu oddi wrth berson sy'n darparu gwasanaeth mewn ymateb i archebion neu ymholiadau yn rhinwedd yr eithriad i'r gofyniad yn rheoliad 6(2)(a) i beidio â chynnal busnes;"

(b) yn is-baragraff (b), yn lle "ddim mwy nag unwaith y dydd (neu'n amlach os oes angen hyn oherwydd cyflwr iechyd neu anabledd penodol)" rhodder "o fewn ardal sy'n lleol i'r man lle y mae'r person yn byw";

(c) ar ôl is-baragraff (i)—

"(ia) i ddefnyddio gwasanaethau ailgylchu neu waredu gwastraff;

(ib) i ymweld â llyfrgell;".

(5) Yn Atodlen 1—

(a) ym mharagraff 10, hepgorer ", llyfrgelloedd";

---

(**1**) O.S. 2020/353 (Cy. 80) fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeiwrs) (Cymru) (Diwygio) 2020 (O.S. 2020/399 (Cy. 88)) a Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 (O.S. 2020/452 (Cy. 102)).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) ar ôl paragraff 33 mewnosoder—

"**33A.** Canolfannau garddio a meithrinfeydd planhigion.";

(c) ar ôl paragraff 47 mewnosoder—

"**48.** Llyfrgelloedd."

**Diwygiad canlyniadol i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020**

**3.** Hepgorer rheoliad 2 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020([1]).

**Arbediad ar gyfer troseddau a chosbau mewn perthynas â gweithredoedd blaenorol**

**4.** Mae rheoliadau 12 a 13 o Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 yn parhau i gael effaith mewn perthynas ag unrhyw drosedd a gyflawnir, neu y credir yn rhesymol ei bod wedi ei chyflawni, cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym fel pe na bai'r diwygiadau a nodir yn rheoliad 2 wedi eu gwneud.

*Mark Drakeford*
Y Prif Weinidog, un o Weinidogion Cymru
Am 2.00 p.m. ar 11 Mai 2020

(**1**) O.S. 2020/452 (Cy. 102).

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020.

Vaughan Gething
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

11 Mai 2020

## 1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) 2020 (“y prif Reoliadau”) sydd—

- yn gosod cyfyngiadau ar symudiad unigolion, gan nodi amgylchiadau lle cânt adael y man lle maent yn byw ac atal cynulliadau o grwpiau o fwy na dau o bobl, ac;
- yn ei gwneud yn ofynnol i gau rhai busnesau a gosod gofynion ar fusnesau eraill, yn ogystal â gosod dyletswyddau i gau llwybrau a thir cyhoeddus penodol, er mwyn diogelu rhag y risgiau i iechyd y cyhoedd sy'n deillio o’r coronafeirws.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad

Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn frys y darperir ar ei chyfer yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p.22) ("Deddf 1984"). Caiff y Rheoliadau eu gwneud heb fod drafft wedi'i osod gerbron y Senedd a’i gymeradwyo ganddi. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, ei bod yn angenrheidiol gwneud y Rheoliadau heb i ddrafft gael ei osod a'i gymeradwyo fel y gellir gweithredu mesurau iechyd y cyhoedd er mwyn ymateb yn gyflym i'r bygythiad a berir i iechyd pobl gan y coronafeirws.

Bydd y Rheoliadau yn peidio â chael effaith ar ddiwedd y cyfnod o 28 o ddiwrnodau (heb gynnwys toriad) sy'n dechrau ar y diwrnod y gwneir yr offeryn oni bai, yn ystod y cyfnod hwnnw, y cymeradwyir y Rheoliadau gan y Senedd.

<u>Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.</u>

Er bod y Rheoliadau yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a Siarter Hawliau Sylfaenol Ewrop, mae’r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i’r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae’r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur. Mae nifer o’r darpariaethau yn arwain at ehangu’r rhestr benodedig o esgusodion rhesymol y gall pobl eu defnyddio i adael y man lle maent yn byw, neu i aros i ffwrdd oddi wrtho, fel y cyfeirir ymhellach yn adran 4 isod. Mae hyn yn cynnwys codi'r cyfyngiad unwaith y dydd ar ymarfer corff, gan alluogi pobl i wneud ymarfer corff ar unrhyw adeg, yn eu hardal leol, yn ogystal â'u galluogi i adael eu cartrefi i ddefnyddio gwasanaethau gwaredu gwastraff ac ailgylchu ac i ymweld â llyfrgell.

Mae’r Rheoliadau’n cyffwrdd â’r erthyglau hyn: Erthygl 8 – yr hawl i barch at fywyd preifat a theuluol; Erthygl 11 – rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu; ac Erthygl 1 o’r Protocol cyntaf – diogelu eiddo.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechy*d.* Rhaid i bob cyfyngiad a gofyniad o'r fath gael eu cyfiawnhau ar y sail bod iddynt nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd, a'u bod yn gymesur. Mae'r llacio ar gyfyngiadau yn y Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur sy'n cydbwyso'r angen i gynnal ymateb priodol i'r bygythiad a achosir gan y coronafeirws â'r angen i gynnal hawliau unigolion a busnesau. Gwneir hyn drwy roi rhagor o resymau i bobl adael eu cartrefi, mewn modd sy'n dal yn gymesur â'r angen i atal cyfradd drosglwyddo'r coronafeirws rhag cynyddu. Yn ogystal ag ehangu'r esgusodion rhesymol sy'n galluogi pobl i adael eu cartrefi, mae'r Rheoliadau hefyd yn llacio nifer o'r cyfyngiadau a osodwyd gan y prif Reoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i rai categorïau o fusnesau gau; yn benodol, drwy ganiatáu i ganolfannau garddio a meithrinfeydd planhigion agor, ar yr amod bod y rhai sy'n gyfrifol amdanynt yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod pellter o 2 fetr yn cael ei gynnal gan bobl sydd yn y fangre neu sy'n aros i fynd i mewn iddi.

**3. Y cefndir deddfwriaethol**

Gwneir y Rheoliadau o dan adrannau 45C(1) a (3)(c), 45F(2) a 45P o Ddeddf 1984.

Mae Deddf 1984 a'r Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mewnosodwyd Rhan 2A o Ddeddf 1984 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, ac mae'n darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus.

Mae adran 45C o Ddeddf 1984 yn rhoi pŵer i'r Gweinidog priodol wneud rheoliadau er mwyn atal, diogelu rhag, rheoli neu ddarparu ymateb iechyd y cyhoedd i fynychder neu ledaeniad haint neu halogiad. Mae'n cynnwys pwerau i osod cyfyngiadau neu ofynion ar neu mewn perthynas â phersonau, pethau neu fangreoedd os bydd bygythiad i iechyd y cyhoedd, neu mewn ymateb iddo. Mae adran 45F yn galluogi gwneud darpariaeth atodol gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gorfodi cyfyngiadau a gofynion a osodir o dan y Rheoliadau a chreu troseddau.

Rhoddir y swyddogaethau o dan yr adrannau hyn i "the appropriate Minister" ("y Gweinidog priodol"). O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, ystyr y Gweinidog priodol, mewn perthynas â Chymru, yw Gweinidogion Cymru.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a adwaenir fel COVID-19 neu "coronafeirws".

Mae'r diwygiadau a wneir drwy'r Rheoliadau hyn yn cynnwys:

1. Dileu pŵer Gweinidogion Cymru i derfynu gofynion neu gyfyngiadau drwy gyfarwyddyd, sydd â'r effaith o'i gwneud yn ofynnol i unrhyw newidiadau i'r prif Reoliadau yn y dyfodol gael eu gwneud drwy ddiwygio neu ddirymu.

   Yn ogystal, diwygir y ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i adolygu'r prif Reoliadau er mwyn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried cymesuredd y gofynion a'r cyfyngiadau.

   Cafodd y gofyniad i derfynu gofynion a chyfyngiadau drwy gyfarwyddyd gweinidogol ei gynnwys yn y prif Reoliadau i sicrhau nad oeddent yn cael eu gosod am gyfnod hwy nag sy'n angenrheidiol, yn enwedig ar adeg pan nad oedd Senedd Cymru yn eistedd ac nad oedd yn glir pryd y byddai cyfle i'r ddeddfwrfa graffu ar y rheoliadau. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn, bellach, nad oes angen cadw darpariaethau ynghylch terfynu drwy gyfarwyddyd ac mae wedi ymrwymo i wneud unrhyw newidiadau i'r prif Reoliadau, neu ddirymiadau iddynt, drwy wneud rheoliadau diwygio. Bydd hyn yn sicrhau bod trosolwg ddemocrataidd gan y Senedd ar unrhyw newidiadau.

   At hynny, mae'n osgoi sefyllfa a allai fod yn ddryslyd, lle bo gofyniad neu gyfyngiad yn cael ei derfynu drwy gyfarwyddyd ond yn parhau i fod ar y llyfr statud (ni fyddai cyfarwyddyd terfynu yn diwygio testun y prif Reoliadau eu hunain).

   Mae'r diwygiad i ddyletswydd Gweinidogion Cymru i adolygu'r prif Reoliadau bob tair wythnos yn sicrhau bod yn rhaid ystyried cymesuredd y gofynion a'r cyfyngiadau yn ogystal â'u hangenrheidrwydd. Mae hyn yn adlewyrchu'n gywirach natur yr adolygu a dyletswydd barhaus Gweinidogion Cymru i adolygu cymesuredd y gofynion a'r cyfyngiadau o safbwynt Hawliau Dynol. Os yw Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw gofyniad neu gyfyngiad yn angenrheidiol neu'n gymesur mwyach, mae'r ddyletswydd gyffredinol hon yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddileu neu ddiwygio'r gofyniad neu'r cyfyngiad. O ganlyniad i'r diwygiadau hyn, rhaid gwneud unrhyw ddiddymiad neu ddiwygiad o'r fath drwy Reoliadau a'u dwyn gerbron y Senedd.

2. Caniatáu i weithredwyr llyfrgelloedd eu hagor petaent yn dewis gwneud hynny. Os yw llyfrgell yn agored, rhaid i'r gweithredwr (sef awdurdod lleol gan amlaf) gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y gofynion yn y Rheoliadau o ran cadw pellter yn cael eu dilyn. Ar y cyd â'r newid hwnnw, mae ymweld â llyfrgell wedi'i ychwanegu'n benodol at y rhestr yn rheoliad 8(2) o esgusodion rhesymol at ddibenion rheoliad 8 (1)o'r prif Reoliadau.

3. Mae'r rhestr yn rheoliad 8(2), nad yw'n rhestr hollgynhwysfawr, o esgusodion rhesymol at ddibenion rheoliad 8(1) wedi cael ei newid hefyd fel y gall pobl bellach ddefnyddio cyfleuster ailgylchu neu waredu gwastraff (os yw'n agored) neu gasglu nwyddau a archebir o siop drwy "archebu a chasglu" os bydd angen iddynt wneud hynny.

4. Mae’r esgus rhesymol ynglŷn â’r angen i wneud ymarfer corff yn rheoliad 8(2)(b) o'r prif Reoliadau wedi'i ddiwygio i ddileu'r cyfyngiad ar ymarfer corff ddim mwy nag unwaith y dydd. Yn ogystal, gwneir darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol bod yn rhaid gwneud yr ymarfer corff "*o fewn ardal sy'n lleol i'r man lle y mae’r person yn byw*". Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar wneud ymarfer corff wedi'u diwygio er mwyn ystyried y newid hwn (ac, yn benodol, er mwyn rhoi arweiniad ar y materion i’w hystyried wrth benderfynu beth fyddai’n cyfrif fel ymarfer yn lleol).

5. Ychwanegir canolfannau garddio a meithrinfeydd planhigion at y rhestr o fusnesau a gaiff agor, ond mae hyn yn amodol ar y gofynion i gadw pellter corfforol, sef sicrhau bod pobl yn cynnal pellter o 2 fetr oddi wrth ei gilydd wrth aros i fynd i’r fangre a phan fyddant yn y fangre.

Yn ogystal, mae rheoliad 4 yn ei gwneud yn glir y gellir parhau i orfodi unrhyw gamau a oedd yn groes i'r prif Reoliadau cyn i'r diwygiadau hyn gael eu gwneud.

Bydd y prif Reoliadau (a’r diwygiadau hyn) yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod o chwe mis sy'n dechrau ar y diwrnod y deuant i rym – daethant i rym ar 26 Mawrth 2020 felly byddant yn dod i ben ar 26 Medi 2020.

Mae'n hollbwysig cymryd pob cam rhesymol i gyfyngu ar drosglwyddo’r coronafeirws. Cafodd y coronafeirws ei ddatgan yn Argyfwng Iechyd y Cyhoedd o Bryder Rhyngwladol ar 30 Ionawr 2020 gan Sefydliad Iechyd y Byd, a chymerir camau ledled y byd i gyfyngu ar ei drosglwyddo. Asesiad Prif Swyddog Meddygol Cymru, ar y cyd â'r prif swyddogion meddygol eraill ar draws y DU, o hyd yw bod y risgiau i iechyd y cyhoedd sy’n deillio o’r coronafeirws yn uchel.

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y cyfyngiadau a'r gofynion a osodir gan y Rheoliadau yn gymesur â'r hyn y maent yn ceisio ei gyflawni, sef ymateb i fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Mae'r cyfyngiadau yn ffurfio rhan o ymateb y DU i’r coronafeirws. Mae cyfyngiadau wedi'u rhoi yn eu lle hefyd gan reoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â busnesau, mannau cyhoeddus a symudiad unigolion yn Lloegr.

**5. Ymgynghori**

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o’r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau diwygio hyn. Mae unigolion a busnesau wedi cael gwybod am y cyfyngiadau yn y prif Reoliadau drwy ddarllediadau gwybodaeth gyhoeddus parhaus ar raddfa fawr ledled y DU, gan gynnwys gan Brif Swyddog Meddygol Cymru, Prif Weinidog Cymru a Phrif Weinidog y DU.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

Ni fu asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd yr angen i'w rhoi ar waith ar fyrder i ddelio â bygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd.

Y Gwir Anrh/Rt Hon Mark Drakeford AC/MS
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elin Jones AC
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

11 Mai 2020

Annwyl Elin

**Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 o dan adrannau 45C(1), (3)(c), (4)(d), 45F(2) a 45P o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984. Daw'r Rheoliadau hyn i rym am 16:00 ar 11 Mai 2020. Rwy'n amgáu copi o'r offeryn statudol yr wyf yn bwriadu gosod yr offeryn a'r memorandwm esboniadol cysylltiedig pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru.

Yn unol â'r weithdrefn brys a nodwyd yn adran 45R o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, mae'n rhaid 'r Senedd gymeradwyo'r offeryn hwn erbyn 14 Mehefin 2020 er mwyn iddo barhau i fod mewn grym. Yn yr amgylchiadau hyn, rwy'n deall bod rheol sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu’r pwyllgorau perthnasol. Fodd bynnag, gan fod Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 yn cael eu trafod ar 20 Mai, mae'r Llywodraeth yn bwriadu amserlennu'r ddadl ar y Rheoliadau hyn ar yr un dyddiad. Er fy mod yn sylweddoli bod hyn yn lleihau'r amser sydd ar gael i adrodd, mae natur gydgysylltiedig y Rheoliadau hyn yn golygu mai eu trafod gyda'i gilydd fyddai'r dull mwyaf cydlynol. Nid yw'n bosibl aildrefnu'r ddadl ar y rheoliadau cynharach, gan fod rhaid eu cymeradwyo erbyn 21 Mai.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a’r Trefnydd, Mick Antoniw AS fel Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau’r Siambr a’r Pwyllgorau, a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir

**MARK DRAKEFORD**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YP.PrifWeinidog@llyw.cymru • ps.firstminister@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

# Eitem 3.1

**MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL**

**Rheoliadau Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (Diwygiadau Canlyniadol) 2020**

1. Gosodir y Memorandwm Cysyniad Offeryn Statudol hwn o dan Reol Sefydlog 30A.2. Yn ôl Rheol Sefydlog 30A, mae'n rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol, a chaniateir i Gynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gael ei gyflwyno gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad"), os yw offeryn statudol y DU yn gwneud darpariaeth, mewn perthynas â Chymru, sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

2. Gosodwyd Rheoliadau Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (Diwygiadau Canlyniadol) 2020 gerbron Senedd y DU ar 28 Ebrill 2020. Mae'r Rheoliadau ar gael yn:

   http://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/2020/463/made

**Crynodeb o'r Rheoliadau a'u hamcan**

3. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol sydd eu hangen o ganlyniad i Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 ("Deddf 2020").

4. Gwnaeth Deddf 2020 ymgorffori deddfwriaeth Taliadau Uniongyrchol yr UE ar y Diwrnod Ymadael – yn hytrach nag ar ddiwedd y Cyfnod Gweithredu. Bydd y Rheoliadau hyn yn sicrhau yr ymdrinnir â deddfwriaeth Taliadau Uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn yr un modd â deddfwriaeth o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("Deddf 2018").

5. Mae ffermwyr ledled y DU wedi cynllunio ar sail y ffaith y bydd y cynllun Taliadau Uniongyrchol ar gyfer 2020 yn parhau yn ddi-dor, ac y byddant yn derbyn taliad. Mae'n bwysig nad oes unrhyw doriad yn y taliad ar gyfer ffermwyr, gan y gallai hyn gael effaith ddifrifol ar eu hyfywedd ariannol.

6. Mae'r Rheoliadau y mae'r Memorandwm hwn yn ymwneud â nhw yn amrywio o ran y tiriogaethau y maent yn berthnasol iddynt. Mae Deddf Dehongli 1978 a Deddf Offerynnau Statudol 1946 yn berthnasol i Gymru a Lloegr yn unig. O ran y diwygiad sy'n ymwneud â Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019, mae Rheoliad 4 yn berthnasol i Gymru yn unig.

7. Mae'r Offeryn Statudol y mae'r Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol wedi cael ei osod o dano yn ymwneud ag ef wedi cael ei osod yn Senedd y DU o dan y weithdrefn negyddol, a bydd yn dod yn gyfraith yn awtomatig oni bai y derbynnir gwrthwynebiad gan y naill Dŷ Senedd neu'r llall. Os nad oes gwrthwynebiad o'r fath, bydd y darpariaethau sy'n diwygio'r

ddeddfwriaeth sylfaenol y cyfeirir atynt yn y Memorandwm hwn yn dod i rym ar 30 Ebrill 2020.

**Darpariaethau i'w gwneud gan y Rheoliadau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer**

8. Mae Rheoliadau 2, 3 a 4 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Dehongli 1978 (p. 30), Deddf Offerynnau Statudol 1946 (p. 36) a Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) i sicrhau bod Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 a deddfwriaeth yr UE wedi'i hymgorffori o dan y Ddeddf honno yn cael eu trin yn yr un ffordd â deddfwriaeth yr UE wedi'i hymgorffori o fewn cyfraith ddomestig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

9. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau a ddisgrifir ym mharagraff 8 yn fater sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae amaethyddiaeth a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn faterion datganoledig, ac nid ydynt wedi eu cadw yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yn flaenorol gosodwyd Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â Deddf Taliadau Uniongyrchol (Parhad Deddfwriaethol) 2020 yn ei chyfanrwydd.

**Pam mae'n briodol i'r Rheoliadau wneud y ddarpariaeth hon?**

10. Fel yr amlinellir ym mharagraff 3, mae angen gwneud nifer o ddiwygiadau canlyniadol o ganlyniad i Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020, deddf sy'n berthnasol i'r DU gyfan, i sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i fod yn hygyrch ac yn weithredol.

11. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ac yn gymesur ymdrin â'r diwygiadau yn y Rheoliadau hyn, oherwydd ehangder y tiriogaethau y mae'r deddfiadau sy'n cael eu diwygio yn berthnasol iddynt. Hefyd, mae gwneud y diwygiadau canlyniadol angenrheidiol mewn un offeryn yn helpu i hyrwyddo hygyrchedd y gyfraith yn ystod y cyfod hwn o newid.

**Goblygiadau ariannol**

12. Ni ddisgwylir unrhyw oblygiadau ariannol yn gysylltiedig â'r Rheoliadau hyn ar gyfer Llywodraeth Cymru.

**Lesley Griffiths AC**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**

Ebrill 2020

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2020 No. 463

# AGRICULTURE

## The Direct Payments to Farmers (Legislative Continuity) Act 2020 (Consequential Amendments) Regulations 2020

| | |
|---|---|
| *Made - - - -* | *27th April 2020* |
| *Laid before Parliament* | *28th April 2020* |
| *Coming into force - -* | *30th April 2020* |

The Secretary of State, in exercise of the powers conferred by section 6(1) of the Direct Payments to Farmers (Legislative Continuity) Act 2020(**a**), makes the following Regulations.

In accordance with section 6(5) of the Direct Payments to Farmers (Legislative Continuity) Act 2020, the Secretary of State has obtained consent from the Scottish Ministers, Welsh Ministers and the Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs in Northern Ireland.

### Citation, commencement and extent

**1.**—(1) These Regulations may be cited as the Direct Payments to Farmers (Legislative Continuity) Act 2020 (Consequential Amendments) Regulations 2020 and come into force on 30th April 2020.

(2) Any provision of these Regulations which amends an enactment has the same extent as the enactment amended.

### Amendment of the Interpretation Act 1978

**2.**—(1) The Interpretation Act 1978(**b**) is amended as follows.

(2) In section 21(1), after "any Act" (but before the words to be inserted at the same place by paragraph 19 of Schedule 8 to the European Union (Withdrawal) Act 2018)(**c**) insert "or made or to be made on or after exit day under retained direct EU CAP legislation as defined in section 2 of the Direct Payments to Farmers (Legislative Continuity) Act 2020".

(3) In section 23ZA(4)(a)—

(a) in sub-paragraph (i), omit "or";

(b) after that sub-paragraph insert—

(**a**) 2020 c. 2.

(**b**) 1978 c. 30. Section 21(1) is amended by paragraph 19 of Schedule 8 to the European Union (Withdrawal) Act 2018 and paragraph 10 of Schedule 5 to the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020 (c. 1). Section 23ZA was inserted by paragraph 20 of Schedule 8 to the European Union (Withdrawal) Act 2018 and amended by paragraph 11 of Schedule 5 to the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020.

(**c**) 2018 c. 16.

“(ia) any instrument made on or after exit day under retained direct EU CAP legislation as defined in section 2 of the Direct Payments to Farmers (Legislative Continuity) Act 2020, or”;

(c) in sub-paragraph (ii), after “instrument” insert “, not falling within sub-paragraph (ia),”

**Amendment of the Statutory Instruments Act 1946**

**3.** In the Statutory Instruments Act 1946(**a**), in section 11B(2), after “2018” insert “or the Direct Payments to Farmers (Legislative Continuity) Act 2020”.

**Amendment of the Legislation (Wales) Act 2019**

**4.** In section 24(1)(b) of the Legislation (Wales) Act 2019 (anaw 4)—

(a) in the English language text, after “(c. 16)” insert “or section 1 of the Direct Payments to Farmers (Legislative Continuity) Act 2020 (c. 2)”;

(b) in the Welsh language text, after “(p. 16)” insert “neu adran 1 o Ddeddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (p. 2)”.

**Amendment of the Interpretation and Legislative Reform (Scotland) Act 2010**

**5.**—(1) The Interpretation and Legislative Reform (Scotland) Act 2010(**b**) is amended as follows.

(2) In section 1(1)—

(a) in paragraph (ba), omit the “and” following that paragraph;

(b) after paragraph (ba), insert—

“(bb) Scottish instruments made on or after exit day, in the case of Scottish instruments made as mentioned in paragraph (e) or (f) of the definition of “Scottish instrument” in subsection (4), and”.

(3) In section 1(4)—

(a) omit the “or” following paragraph (c);

(b) after paragraph (d), insert—

“(e) an Act of the Scottish Parliament (whenever passed) and any retained direct EU CAP legislation (within the meaning of section 2(10) of the Direct Payments to Farmers (Legislative Continuity) Act 2020) (whenever made), or

(f) an Act of the Scottish Parliament and an Act of Parliament (in each case, whenever passed) and any retained direct EU CAP legislation (within the meaning of section 2(10) of the Direct Payments to Farmers (Legislative Continuity) Act 2020) (whenever made).”.

(4) In section 55(2B)(d), in the entry for “retained EU law”, “retained direct minor EU legislation”, “retained direct principal EU legislation” and “retained direct EU legislation”, at the end insert “and each of those definitions is to be read as including the legislation treated by paragraph 7 of Schedule 1 to the Direct Payments to Farmers (Legislative Continuity) Act 2020 as falling within the corresponding definition in Schedule 1 to the Interpretation and Legislative Reform (Scotland) Act 2010 (see paragraphs (a), (d), (c) and (b) respectively of that paragraph 7).”.

---

(**a**) 1946 c. 36. Section 11B was inserted by S.I. 2018/1242.

(**b**) 2010 asp 10. Section 1 is amended by paragraph 32 of schedule 8 to the European Union (Withdrawal) Act 2018 and paragraph 33 of schedule 5 to the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020. Section 55 is amended by S.I. 2019/628.

**Amendment of the Interpretation Act (Northern Ireland) 1954**

**6.**—(1) The Interpretation Act (Northern Ireland) 1954(**a**) is amended as follows.

(2) In section 1, in paragraph (f)—

(a) the words from "a statute or instrument" to the end become sub-paragraph (i) of that paragraph;

(b) at the end of that sub-paragraph insert "; or";

(c) after that sub-paragraph, insert—

"(ii) any legislation which forms part of domestic law by virtue of section 1 of the Direct Payments to Farmers (Legislative Continuity) Act 2020 for the time being in force in Northern Ireland".

**Amendment of the Statutory Rules (Northern Ireland) Order 1979**

**7.** In the Statutory Rules (Northern Ireland) Order 1979(**b**), in article 4(a), after sub-paragraph (vi) insert—

"(vii) any legislation referred to in paragraph 7(b) of Schedule 1 to the Direct Payments to Farmers (Legislative Continuity) Act 2020, if the power is expressed to be exercisable by statutory rule for the purposes of this Order;

(viii) any regulations made under the Direct Payments to Farmers (Legislative Continuity) Act 2020, if the power is expressed to be exercisable by statutory rule for the purposes of this Order;".

**Amendment of the European Union (Withdrawal) Act 2018**

**8.** In Schedule 8 to the European Union (Withdrawal) Act 2018, in paragraph 19, after "EU legislation" insert "other than retained direct EU CAP legislation as so defined".

**Amendment of the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020**

**9.** In Schedule 5 to the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020(**c**), in paragraph 10, after "day", in each place it occurs, insert "under any retained direct EU legislation".

**Amendment of the European Union (Withdrawal) Act 2018 (Consequential Modifications and Repeals and Revocations) (EU Exit) Regulations 2019**

**10.**—(1) The European Union (Withdrawal) Act 2018 (Consequential Modifications and Repeals and Revocations) (EU Exit) Regulations 2019(**d**) are amended as follows.

(2) In regulation 2(2)—

(a) in paragraph (c), after "section 3 of the Act" insert "or forms part of domestic law by virtue of section 1 of the Direct Payments to Farmers (Legislative Continuity) Act 2020";

(b) at the end insert "or section 1 of the Direct Payments to Farmers (Legislative Continuity) Act 2020, as the case may be".

(3) In regulation 2(6)(a), after "section 3 of the Act", insert "or forms part of domestic law by virtue of section 1 of the Direct Payments to Farmers (Legislative Continuity) Act 2020.".

(4) In regulation 3(2), in subsection (3) of the inserted text, at the end insert "or section 1 of the Direct Payments to Farmers (Legislative Continuity) Act 2020".

---

(**a**) 1954 (c. 33) N.I.
(**b**) S.I. 1979/1573 (N.I. 12), amended by S.I. 2018/1242.
(**c**) 2020 c. 1.
(**d**) S.I. 2019/628.

(5) In regulation 4(3), in subsection (3) of the inserted text, at the end insert "or section 1 of the Direct Payments to Farmers (Legislative Continuity) Act 2020".

(6) In regulation 5(1)—

(a) omit paragraph (a);

(b) in paragraph (b) for "that sub-paragraph" substitute "sub-paragraph (ii)";

(c) for paragraph (c) substitute—

"(c) after sub-paragraph (ii) insert—

"(iii) any retained direct EU legislation not falling within sub-paragraph (ii) for the time being in force in Northern Ireland;"."

(7) In regulation 8(1), after "legislation" insert ", or legislation referred to in paragraph 7(b) of Schedule 1 to the Direct Payments to Farmers (Legislative Continuity) Act 2020,".

*Victoria Prentis*
Parliamentary Under Secretary of State
Department for Environment, Food and Rural Affairs

27th April 2020

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

These Regulations make consequential amendments to the Interpretation Act 1978 (c. 30), the Statutory Instruments Act 1946 (c. 36), the Legislation (Wales) Act 2019 (anaw 4), the Interpretation and Legislative Reform (Scotland) Act 2010 (asp 10), the Interpretation Act (Northern Ireland) 1954 (c.33) N.I., the Statutory Rules (Northern Ireland) Order 1979 (S.I. 1979/1573 (N.I. 12)), the European Union (Withdrawal) Act 2018 (c. 16), the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020 (c. 1) and the European Union (Withdrawal) Act 2018 (Consequential Modifications and Repeals and Revocations) (EU Exit) Regulations 2019 (S.I. 2019/628) to ensure that the Direct Payments to Farmers (Legislative Continuity) Act 2020 and EU legislation incorporated into domestic law under that Act is treated in the same way as EU legislation incorporated into domestic law under the European Union (Withdrawal) Act 2018.

---

© Crown copyright 2020

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£4.90

ISBN 978-0-11-119568-0

UK202004281002 05/2020 19585

http://www.legislation.gov.uk/id/uksi/2020/463

**EXPLANATORY MEMORANDUM TO**

**THE DIRECT PAYMENTS TO FARMERS (LEGISLATIVE CONTINUITY) ACT (CONSEQUENTIAL AMENDMENTS) REGULATIONS 2020**

**2020 No. 463**

## 1. Introduction

1.1 This Explanatory Memorandum has been prepared by the Department for Environment, Food and Rural Affairs ("Defra") and is laid before Parliament by Command of Her Majesty.

1.2 This Explanatory Memorandum contains information for the Joint Committee on Statutory Instruments.

## 2. Purpose of the instrument

2.1 The need for this instrument arises from the fact that the EU law governing the 2020 Direct Payment schemes for farmers established under the Common Agricultural Policy ("CAP") was incorporated into UK law on exit day, rather than at the end of the Implementation Period ("IP") established under the EU Withdrawal Agreement. It ensures that the retained Direct Payments legislation is treated in the same way as legislation retained under the European Union (Withdrawal) Act 2018 (the "2018 Act"). This is necessary to ensure the UK statute book works coherently and effectively. For example, it provides clarity on how cross-references to EU regulations governing the 2020 Direct Payment schemes should be read.

## 3. Matters of special interest to Parliament

***Matters of special interest to the Joint Committee on Statutory Instruments***

3.1 This instrument will come into force less than 21 days after it is laid before Parliament. It needs to come into force before Defra can exercise powers under the retained Direct Payments legislation. This is because it ensures that regulations made under powers in the retained Direct Payments legislation are treated in the same way as regulations under powers in retained EU law under the 2018 Act. For example, it ensures that regulations made under retained Direct Payments legislation fall within the definition of subordinate legislation.

3.2 Defra now needs to exercise emergency powers in the retained Direct Payments legislation to lift crop diversification requirements in light of the prolonged and extreme wet weather across the country. These crop diversification rules specify the minimum number of crops farmers must grow when claiming Direct Payments. The extreme weather conditions are, in many cases, preventing farmers from establishing the required number of crops. Farmers would normally be required to have these crops in place from 1 May and Defra therefore needs to lift the requirements by then to ensure that farmers are not in breach.

3.3 Given the dependency and timings for the crop diversification regulations, we need to bring this instrument into force by 30 April.

3.4 We have laid this instrument as soon as we have been able to, taking account of the timescales required for obtaining consent from the Devolved Administrations, which have been reduced as far as possible.

***Matters relevant to Standing Orders Nos. 83P and 83T of the Standing Orders of the House of Commons relating to Public Business (English Votes for English Laws)***

3.5 As the instrument is subject to negative resolution procedure, there are no matters relevant to Standing Orders Nos. 83P and 83T of the Standing Orders of the House of Commons relating to Public Business at this stage.

## 4. Extent and Territorial Application

4.1 The territorial extent of this instrument is the UK, although different provisions have different extent depending on the extent of the legislation being amended.

4.2 The territorial application of this instrument is the UK, although different provisions have different application depending on the application of the legislation being amended.

## 5. European Convention on Human Rights

5.1 The Parliamentary Under Secretary of State for Agriculture, Fisheries and Food, Victoria Prentis MP, has made the following statement regarding Human Rights:

"In my view the provisions of The Direct Payments to Farmers (Legislative Continuity) Act (Consequential Amendments) Regulations 2020 are compatible with the Convention rights."

## 6. Legislative Context

6.1 The Direct Payments to Farmers (Legislative Continuity) Act 2020 (the "DPLC Act") incorporated the EU legislation governing the 2020 CAP Direct Payment schemes into domestic law on exit day.

6.2 Certain provisions would not currently apply to the EU Regulations incorporated by the DPLC Act or to regulations made under those retained EU Regulations. This is because the DPLC Act incorporated the Direct Payments legislation into UK law separately from the 2018 Act and because the incorporation takes effect on exit day, rather than at the end of the IP. For example, some of the provisions in the European Union (Withdrawal) Act 2018 (Consequential Amendments) Regulations 2018 (S.I. 2018/1242) and The European Union (Withdrawal) Act 2018 (Consequential Modifications and Repeals and Revocations) (EU Exit) Regulations 2019 (S.I. 2019/628) refer to regulations made on or after IP completion day. Other provisions amended by these Regulations refer to retained direct EU legislation and define it in a way which would not include the retained Direct Payments legislation.

6.3 This instrument amends the following pieces of legislation: the Interpretation Act 1978, the Statutory Instruments Act 1946, the Legislation (Wales) Act 2019, the Interpretation and Legislative Reform (Scotland) Act 2010, the Interpretation Act (Northern Ireland) 1954, the Statutory Rules (Northern Ireland) Order 1979 (S.I. 1979/1573), the European Union (Withdrawal) Act 2018, the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020 and the European Union (Withdrawal) Act 2018 (Consequential Modifications and Repeals and Revocations) (EU Exit) Regulations 2019 (S.I. 2019/628).

## 7. Policy background

***What is being done and why?***

7.1 Direct Payments are the main income-support schemes for farmers under the CAP. EU legislation governing the 2020 CAP Direct Payment schemes was incorporated into UK law on 31 January 2020 rather than waiting until the end of the IP. This was because Article 137 of the Withdrawal Agreement disapplied the Direct Payments Regulation for the UK for claim year 2020 from exit day. Therefore, unlike other EU law relating to the CAP, EU Direct Payments legislation does not automatically apply during the IP.

7.2 This instrument makes amendments needed as a result of that separate, earlier incorporation of the Direct Payments legislation into UK law. The amendments ensure that EU legislation incorporated under the DPLC Act and regulations made under that legislation will be treated in the same way as retained EU legislation incorporated under the 2018 Act and regulations made under that retained EU legislation.

## 8. European Union (Withdrawal) Act 2018/Withdrawal of the United Kingdom from the European Union

8.1 This instrument is not being made under the 2018 Act. However, the amendments in the instrument are being made to deal with deficiencies in the law arising from the withdrawal of the UK from the EU. The need for this legislation arises from Article 137 of the Withdrawal Agreement. Section 6 of this Explanatory Memorandum provides the legislative context.

## 9. Consolidation

9.1 Defra does not intend to consolidate the relevant legislation at this time.

## 10. Consultation outcome

10.1 This instrument has not been subject to formal consultation because it aims to retain the *status quo* for the 2020 claim year, makes no substantive policy changes and is technical in nature. The instrument provides continuity and stability for Direct Payment recipients.

10.2 This instrument has been developed in collaboration with officials in the Scottish and Welsh Governments and the Department of Agriculture, Environment and Rural Affairs ("DAERA") in Northern Ireland.

## 11. Guidance

11.1 Defra is not producing any specific guidance on this instrument as it does not introduce policy change.

## 12. Impact

12.1 There is expected to be no, or no significant, impact on business, charities or voluntary bodies.

12.2 There is expected to be no, or no significant, impact on the public sector.

12.3 An Impact Assessment has not been produced for this instrument as no, or no significant, impact on the private or voluntary sector is foreseen. These are technical amendments which do not implement policy changes.

## 13. Regulating small business

13.1 The instrument applies to activities that are undertaken by small businesses.

13.2 No specific action is proposed to minimise regulatory burdens on small businesses.

13.3 The basis for the final decision to take no action to assist small businesses is that no disproportionate impacts are expected to affect small and micro businesses.

## 14. Monitoring & review

14.1 Defra and its agencies will monitor and review the impact of this instrument as part of its standard policy-making procedures, and will ensure that the provisions are adhered to.

## 15. Contact

15.1 Claire Williams at Defra: 0208 0262927 or email: claire.williams@defra.gov.uk can be contacted with any queries regarding the instrument.

15.2 Andrew Robinson, Deputy Director for CAP, Direct Payments and Sector Interventions at Defra, can confirm that this Explanatory Memorandum meets the required standard.

15.3 Victoria Prentis MP, the Parliamentary Under Secretary of State for Agriculture, Fisheries and Food at Defra, can confirm that this Explanatory Memorandum meets the required standard.

**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Mick.Antoniw@cynulliad.cymru

4 Mai 2020

Annwyl Mick,

Diben y llythyr hwn yw rhoi gwybod ichi fy mod wedi gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron y Senedd heddiw, mewn perthynas â Rheoliadau Deddf Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Parhad Deddfwriaethol) 2020 (Diwygiadau Canlyniadol) 2020, fel sy'n ofynnol gan Reol Sefydlog 30A.

Mae'r offeryn statudol yn sicrhau bod y ddeddfwriaeth Taliadau Uniongyrchol UE a ddargedwir yn cael ei thrin yn yr un modd â'r ddeddfwriaeth o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018. Does dim gwahaniaeth o ran polisi rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn yr achos hwn.

Yn gywir,

Lesley Griffiths

**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon